4 [illegible]
book 45

118 Psalm 6
the [illegible]
my [illegible]
15 [illegible] 10.

# CASGLIAD

O

# PSALMAU A HYMNAU

ADDAS I

## ADDOLIAD CYHOEDDUS

YR

## EGLWYS SEFYDLEDIG.

---

GAN Y PARCH. DANIEL REES,

Periglor Aberystruth, Sir Fynwy.

---

Canwch fawl yn ddeallus. Psalm 47. 7.

Gan ddysgu a rhybuddio bawb eich gilydd mewn Psalmau a Hymnau ac Odlau ysprydol, gan ganu trwy ras yn eich calonnau i'r Arglwydd. Col. 3. 16.

---

LLANYMDDYFRI:

ARGRAPHWYD GAN WILLIAM REES.

1837.

Entered at Stationers' Hall.

TO

THE RIGHT REVEREND

*EDWARD,*

LORD BISHOP OF LANDAFF,

THIS SELECTION

OF

**Psalms and Hymns,**

MADE AT HIS REQUEST,

IS

WITH HIS LORDSHIP'S PERMISSION,

MOST GRATEFULLY AND RESPECTFULLY

INSCRIBED

BY HIS MOST FAITHFUL,

AND OBLIGED SERVANT,

THE EDITOR.

## AT Y DARLLENYDD.

Y CASGLIAD hwn o Psalmau a Hymnau i addoliad cyhoeddus yr Eglwys Sefydledig, yr hwn, gan mwyaf, sydd dalfyriad o un blaenorol gan yr un Cyhoeddwr, sydd wedi ei wneuthur ar ddymuniad y Gwir Barchedig Edward, Arglwydd Esgob Llandâf; dan nodded garedig pa un yr anfonir ef yn awr i blith y Cymry. Y mae hefyd wedi ei gymmeradwyo gan y Cymro hybarch a dysgedig y Parch. W. B. Knight, Canghellwr yr un Esgobaeth, i ba un y mae y Casglydd dan rwymau nid bychan i fod yn ddiolchgar am ei gynhorthwy a'i gyfarwyddiadau, ac yn enwedig ei drafferth yn darllain ac yn diwygio y llaw-ysgrifen cyn ei hanfon i'r Argraph-wasg.

Y mae llawer o'r Psalmau yn y Llyfr hwn wedi eu dewis, gyd â'r gofal mwyaf, allan o waith Archdiacon Prys ac eraill. Yn y rhai hyn fe genfydd y darllenydd cyfarwydd amryw gyfnewidiadau; rhai o honynt wedi eu gwneuthur er mwyn cael amrywiaeth yn y mesurau, eraill er mwyn llyfnhâu y brydyddiaeth, newyddu yr ymadroddion, neu eglurhâu y synwyr. Gobeithia y Cyhoeddwr y bydd

iddynt gael eu barnu gan y darllenydd, fel yr ymddangosant iddo ef ei hun, yn ddiwygiadau. Y lleill o'r Psalmau ydynt wedi eu cyfansoddi, neu eu cyfieithu o'r Saesneg, yn fwriadol i'r Gwaith hwn. Felly hefyd y mae llawer o'r Hymnau, a'r lleill sydd wedi eu cymmeryd o waith yr awdwŷr goreu ; ac y mae y rhan amlaf o honynt eisioes yn adnabyddus, ac mewn cymmeradwyaeth gyffredinol, yn y Dywysogaeth. Nid oes ond ychydig o gyfnewidiadau wedi eu gwneuthur ynddynt, a'r ychydig hynny yn unig lle yr ymddangosent yn angenrheidiol.

Nid oes gan y Cyhoeddwr ond gobeithio y bydd i'r ymgais presennol i goleddu mawl i Dduw ym mhalasau Sïon, gyfarfod â derbyniad hynaws a thirion oddi wrth ei gyd-eglwyswŷr a'i gyd-Gristianogion yn y Dywysogaeth, ac y bydd i'r Arglwydd ei fendithio, pa le bynnag y caffo dderbyniad, fel y byddo yn offeryn effeithiol yn ei law, er lledu ei ogoniant ei hun, ac er adeiladaeth a diddanwch ysprydol pechaduriaid lawer.

# PSALMAU.

**1.** *Dedwyddwch y Cyfiawn.* 8. 7.

Psalm 1. 1—3. 6.

1 Y SAWL ni rodia, dedwydd yw,
Yn ol drwg ystryw gyngor;
Ni saif ar ffordd troseddwŷr ffol,
Nid eiste'n 'stol y gwatwor.

2 Ond ei holl serch ef fydd yn rhwydd
Ar ddeddf yr Arglwydd uchod;
Ac ar ei ddeddf rhydd, ddydd a nos,
Yn ddiddos ei fyfyrdod.

3 Ef fydd fel pren plan ar lan dol,
Dwg ffrwyth amserol arno;
Ni chrina'i ddalen, a'i holl waith
A lwydda'n berffaith iddo.

4 Can's ffordd y cyfiawn uniawn yw,
Mae'n boddio Duw'n rhagorol;
Ond eiddo'r drwg sy'n arwain lawr
I'r poenau mawr uffernol.

**2.** *Adgyfodiad a theyrnasiad y Messiah.* 8.7.

Psalm 2. 7, 8, 11, 12.

1 WEL dyma'r ddeddf, medd f' Arglwydd mad,
Hon gan fy Nhad a glywais;
Ti yw fy Mab o'm perffaith ryw,
A heddyw y'th genhedlais.

2 Gofyn, fy Mab, a'th Dad a rydd
Y gwledydd oll i'th feddiant;
A holl genhedloedd daear gron,
O'r bron dy eiddo fyddant.

3 Gwas'naethwch mwy yr Arglwydd nef,
Ac ofnwch ef yn wastad;
Ymlawenhêwch o'r amser hyn
Dan grynu yn eich Ceidwad.

4 Y Mab cusenwch, rhag ei ddig,
A'ch bwrw'n ffyrnig heibio;
A gwyn ei fyd y sawl a gred,
Ac a ymddiried ynddo.

---

**3.** *Am lewyrch wyneb Duw.* S. 7.

Psalm 4. 1, 6, 7.

1 TYDI ein porth ar dir y byw,
Yn rasol clyw pan lefom;
Tydi a'n cedwi ni rhag drwg,
Attolwg, gwrando arnom.

2 Tra gofyn llawer yn ein clyw,
Pwy ddengys ryw ddaioni?
Tywynned, Dduw, dy wyneb-pryd,
Daw gwynfyd ddigon ini.

3 Daw i ni wir lawenydd mwy,
A hynny drwy dy fendith,
Nâ fedd y rhai ag sydd yn trin
Eu cnwd o win a gwenith.

4 Dy lwybrau di ŷnt hyfryd iawn,
Dy ffyrdd ŷnt lawn hyfrydwch;
Nag ŷd neu win o'r goreu ryw
Melusach yw dy heddwch.

**4.** *Am arweiniad ysprydol.* 8. 7.

Psalm 5. 3, 7, 8.

1 YN fore, Iôr, erglŷw fy llef,
Yr hon i'r nef ddyrchafaf;
Fy ngweddi attat ddaw o'th dŷ,
I'r bryniau fry edrychaf.

2 I'th dŷ fel hyn y dof mewn hedd,
Am dy drugaredd galwaf;
Mewn ofn, a pharch, a goglud dwys,
I'th sanctaidd eglwys treiglaf.

3 Duw, tywys fi, â'th Yspryd pur,
Yn nifyr ffyrdd uniondeb;
Gwna lwybr pob dyledswydd lân
Yn oleu o fla'n fy wyneb.

---

**5.** *Enw Duw yn ardderchog.* 8. 7.

Psalm 8. 1, 3, 4.

1 O ARGLWYDD Ner, ein Iôr a'n nerth,
Mor brydferth wyt drwy'r hollfyd!
Dy barch a'th enw roist uwch ben
Y byd a'r wybren hefyd.

2 Wrth edrych ar y nefoedd faith,
A gweled gwaith dy fysedd,
Y lloer, y ser, a threfn y rhod,
A'u gosod mor gyfannedd;—

3 Pa beth yw dyn, o anwar ryw,
I ti, O Dduw, i'w gofio?
A pheth yw mab y goreu ddyn
I ti dy hun dd'od atto.

4 O Arglwydd Ner, ein Ior a'n nerth,
Mor brydferth wyt drwy'r hollfyd!
Dy barch a'th enw roist uwch ben
Y byd a'r wybren hefyd.

**6.** *Y dyn a breswyl yn y nef.* 8. 7.
Psalm 15. 1, 2, 4, 5.

1 DYWAID i mi pa ddyn a drig
I'th lys parchedig, Arglwydd?
A phwy a erys ac a fydd
Ym mynydd dy sancteiddrwydd?

2 Yr hwn a rodia'n berffaith dda,
Yr hwn a wna gyfiawnder,
Yr hwn a draetha o'i galon wir,
A drig ar dir uchelder.

3 Yr hwn sydd isel yn ei fryd,
Yn caru ei gyd-grist'nogion,
Yr hwn sy'n ofni'r Arglwydd Dduw,
Ac sydd yn byw yn ffyddlon;

4 Yr hwn ei bwys a rydd yn rhwydd
Ar ras yr Arglwydd tirion;
A wnelo hyn ni lithra fyth,
Fe gaiff y ddilyth goron.

---

**7.** *Daioni yr Arglwydd.* 8. 7.
Psalm 16. 5—7.

1 YR Arglwydd Ior yn unig yw
Ein modd i fyw, a'n phiol;
Efe a roddodd i ni ran,
A chyfran dda, ddigonol.

2 I ni, o'i ras, y syrthiodd rhan
O fewn y fan hyfrydaf;
Digwyddodd i ni, er ein maeth,
Yr etifeddiaeth lanaf.

3 Bendithiwn ninnau Dduw ein Ior,
A roes y cyngor gorau;
Ei Air a'i Yspryd Glân fel hyn,
I'n tywys yn ei lwybrau.

**8.** *Gobaith y duwiol.* M. H.

Psalm 16. 8—11.

1 DY osod wnelom ger ein bron,
A'n hyder ynot, Dduw, yn llon;
Gwir yw na fyth ysgogir ni,
Os agos attom fyddi di.

2 Tra gallom ddweyd dy fod gerllaw,
Fe ffy ar frys bob ofn a braw;
Ein calon lawn a lawenha,
A'n cnawd a drig mewn gobaith da.

3 Ni edi di yn wael eu gwedd
Dy saint am byth ym mhyrth y bedd;
Rhoi llwybr bywyd wnai o'u bla'n,
Ar fore cu'r cyfodiad glân.

4 Dwg ni, O Dduw, ar frys i fyw
Lle mae llawenydd o bob rhyw;
Ar dy ddeheulaw'n uchel fry
Digrifwch yn dragywydd sy.

---

**9.** *Am nodded Duw.* 8. 8.

Psalm 17. 5. 7—9.

1 ARGLWYDD, cynnal fy ngherddediad
Yn dy lwybrau glân yn wastad,
Fel na lithro'm traed un amser,
Ac na phallo byth fy hyder.

2 Dangos i mi ras rhyfeddol,
O Achubydd cyfamserol
Pawb sydd ynot yn hyderu,
Rhag pob gelyn gais eu drygu!

3 Cadw fi fel canwyll llygad,
Rhag holl frad y gelyn anfad;
A than gysgod dy adenydd,
Fel na ddryger, cudd fi beunydd.

**10.** *Y nefoedd yn datgan gogoniant Duw.* 8.7.
Psalm 19. 1—4.

1 Y NEF sy'n datgan mawredd Duw,
Yr unrhyw gwna'r ffurfafen;
Y dydd i ddydd, a'r nos i nos,
Sy'n dangos cwrs yr wybren.

2 Er nad oes ganddynt air nac iaith,
I draethu gwaith eu Llywydd;
Diau nad oes na môr na thir,
Na chlywir eu lleferydd.

3 Eu sain a aeth trwy'r byd i gyd,
A'u geiriau hyd eithafoedd;
Cyhoeddi maent, ein Crëydd yw
Jehofah, Duw y lluoedd.

---

**11.** *Aml gamweddau dyn.* 8.7.
Psalm 19. 12—14.

1 PWY a ddeall ei gamweddau?
Pwy fynega'r rhai'n i gyd?
Myrdd o honynt sydd guddiedig,
Heblaw'r miloedd wel y byd:
Duw, glanhâ fi'n llwyr oddiwrthynt,
Adnewydda fi â'th ras,
A rho rym i fwrw ymaith
Bob rhyfygus bechod cas.

2 Pob ymadrodd ddel o'm genau,
Pob myfyrdod dan fy mron,
Fyddo mwy yn gymmeradwy,
Arglwydd grasol, ger dy fron:
Ti yw craig fy iachawdwriaeth,
Dal fi fynu tra fwy' byw;
Ti yw Prynwr drud fy enaid,
Dwg fi i'r nefoedd, O fy Nuw!

**12.** *Bugail eneidiau.* 8. 7.

Psalm 23.

1 YR Arglwydd yw fy Mugail clau,
Ni ad byth eisiau arnaf;
Caf orwedd lawr mewn porfa fras,
Ar lan dw'r gloywlas araf.

2 Fe goledd f' enaid, ac a'm dwg
'Rhyd llwybrau diddrwg cyfion;
Er mwyn ei enw mawr dilŷs,
Fe'm tywys ar yr union.

3 Pe rhodiwn i,—nid ofnwn hyn,
Yn nyffryn cysgod angau;
Wyt gyd â mi, a'm cysur llon
Yw'th ffon a'th dirion arfau.

4 Arlwyi di fy mwrdd yn fras,
Lle bo fy nghas yn gweled;
I'm pen rhoi olew peraidd iawn,
A chwppan llawn i'w yfed.

5 O'th nawdd y daw y doniau hyn
I'm canlyn byth yn hylwydd;
A minnau a breswyliaf byth
A'm nyth yn nhŷ yr Arglwydd

---

**13.** *Y dyn a breswyl yn y nef.* M. C.

Psalm 24. 1—6.

1 YR Arglwydd biau'r ddaear gron,
A phob creadur byw;
Ar fôr a llif y seiliodd hon
Yn drigfan dynol ryw.

2 Mae gwlad sydd well er hynny fry,
A gwynfyd mwy ei fraint;
Duw, pwy a driga yn dy dŷ?
Pwy esgyn at dy saint?

3 Y gwr sydd bur ei galon yw,
A'i law yn lân o hyd;
Ni thyng i dwyllo un dyn byw,
Sydd fwyn, o isel fryd.

4 Ar hwn dihidlir bendith lawr
Gan Frenhin nef y nef;
Cyfiawnder gaiff gan Awdwr mawr
Ei iachawdwriaeth gref.

5 Wel dyma'r genedl rasol sydd
Yn ceisio Duw a'i hedd;
A gweled gânt i gyd ryw ddydd
Ei siriol nefol wedd.

---

**14.** *Brenhin y gogoniant.* M.C.

Psalm 24. 7—10.

1 DYRCHEFWCH oll eich pennau fry,
Chwi oesol ddrysau'r nef;
Gwir Frenhin y gogoniant sy
Yn dod yn ol i dref.

2 Pwy yw y Brenhin mawr ei fri?
Yr unig Arglwydd byw;
Yr Arglwydd nerthol, cadarn Ri,
Mewn rhyfel cadarn yw.

3 Dyrchefwch oll eich pennau fry,
Chwi oesol ddrysau'r nef;
Gwir Frenhin y gogoniant sy
Yn dod yn ol i dref.

4 Pwy yw y Brenhin mawr ei glod?
Jehofa'r lluoedd yw;
Yn Frenhin byth mae'n haeddu bod,
Am gadw dynol ryw

**15.** *Am faddeuant ac arweiniad.* 8. 8.
Psalm 25. 6—9.

1 COFIA, Dduw, dy dosturiaethau,
A'th drag'wyddol drugareddau;
Ond na chofia gam fy ie'ngctyd,
Na phechodau mawr fy mywyd.

2 Meddwl, Arglwydd da, am danaf,
'Nol dy rad drugaredd bennaf;
Ac er mwyn dy fawr ddaioni,
Arwain fi i wlad goleuni.

3 Da ac uniawn ydyw'r Arglwydd,
Ac fe wna yn dra chyfarwydd,
Ddysgu euog feibion dynion
Yn y ffordd sydd dda ac union.

4 Mewn barn uniawn fe hyffordda
Holl blant llariaidd Duw Jehofa;
Ac i'r isel mwyn ei ysbryd
Dysg y ffordd i diroedd gwynfyd.

---

**16.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* 8. 7.
Psalm 27. 4, 11.

1 UN arch a erchais ar Dduw Naf,
A hynny archaf etto;
Cael dod i dŷ yr Arglwydd glân,
A bod â'm trigfan ynddo.

2 I edrych ar brydferthwch pur
Fy Nuw a'm gwir Waredwr;
Ac i ymofyn trwy fy oes
Pa gyngor roes fy Mhrynwr.

3 Duw, dysg i mi dy ffordd yn rhwydd,
O herwydd fy ngelynion;
Ac arwain fi, o'th nawddol rad,
Yn wastad ar yr union.

**17.** *Daioni Duw i'w bobl.* M. H.

Psalm 31. 19, 20, 23, 24.

1 MOR fawr y gwynfyd gedwi fry
O Dduw, i'r sawl yn d' ofni sy!
Mor dda wyt ti i bawb o hyd
A geisiant nawdd dy aden glyd!

2 Eu dïogelu wnai i gyd
Rhag drygau fyrdd mewn anial fyd;
Fel mewn rhyw freiniol babell fawr
Y cedwi hwynt bob munud awr.

3 Chwi seintiau cu ar dir a môr,
O cerwch oll yr Arglwydd Ior!
Ei ffyddlon blant eu cadw mae,
Tra daw ei lid ar anwir rai.

4 Cymmerwch oll galondid da,
A'ch calon ofnus fe gryfhâ,
Chwychwi a'ch gobaith ynddo sydd
Am nawdd a nerth yn ol eich dydd.

---

**18.** *Maddeuant Pechod.* 8. 7.

Psalm 32. 1, 2, 5, 7.

1 GWYN fyd y neb maddeuant ga's,
Trwy ddwyfol ras, o'i drosedd;
Y dyn y cuddiwyd ei holl fai,
Ei bechod a'i anwiredd.

2 Gwyn fyd y dyn ni chyfrif Duw
Ei amryw feiau iddo;
A'r hwn newidiwyd oll er gwell,
Fel nad oes dichell ynddo.

3 Cyfadde'r ŷm o'th flaen yn awr,
O Dduw, ein mawr gamweddau;
Tosturia wrthym, nefol Dad,
A maddeu'n rhad ein beïau.

4 Yn lloches gadarn i ni bydd,
Bob dydd yn Geidwad graslon ;
Ac amgylchyna ni yn lân
A chân ymwared gysson.

**19.** *Ffyddlondeb Duw.* 8. 8.
Psalm 33. 3, 4, 11, 12.

1 CENWCH, bellach, ganiad newydd,
Cân o lafar fawl i'n Llywydd ;
Mae ei air i gyd yn union,
A'i weithredoedd oll yn ffyddlon.

2 Byth y saif ei gyngor ffyddlon,
A meddyliau glân ei galon
O genhedlaeth i genhedlaeth,
Heb un cysgod troedigaeth.

3 Gwyn ei byd y genedl freiniol,
Iddi'n Dduw mae'r Arglwydd grasol ;
A'r holl rai etholwyd ganddo
Yn difeddiaeth hyfryd iddo.

**20.** *Mawl i Dduw am ei ymwared.* M. C.
Psalm 34. 1—5.

1 BENDITHIO wnaf fy Arglwydd Ner
Bob amser tra fwy' byw ;
Bydd yn fy ngenau gysson gân
O foliant glân i Dduw.

2 Am ei ymwared canu wnaf,
Ni thawaf son am hon,
Nes gwneler pawb o isel fryd
Yn hyfryd iawn a llon.

3 O dewch, mawrygwn Dduw i gyd,
A chyd-ddyrchafwn ef ;
Pan geisiais i ei wyneb cu,
Gwrandawodd fry fy llef.

4 I'r sawl yn disgwyl wrtho sydd,
Goleuni rhydd wrth raid;
A'u hwyneb ni ch'wilyddir byth,
Mae Duw dilŷth o'u plaid.

## 21. *Daioni Duw i'w bobl.* M. C.

Psalm 34. 6—9.

1 AR lais y tlawd gwrandawodd Duw,
Mor rhyfedd yw ei ras!
A dygodd ef o'i ofnau prudd,
A'i holl gystuddiau i ma's.

2 Glân angel Duw a dry yn gylch
O amgylch pawb o'i blant;
Fel castell cadarn iddynt mae,
A gyr eu hofnau bant.

3 O profwch, gwelwch ddäed yw
Yr Arglwydd byw i'w saint!
Gwyn fyd y gwr a'i cred yn awr,
'Does neb mor fawr ei fraint.

4 Mwy ofnwch Dduw, ei seintiau mwyn,
A chlyw eich cwyn o'r nef;
Ac nid oes eisiau dim sy dda
Ar neb a'i hofna ef.

## 22. *Daioni Duw i'w bobl.* 8.7.

Psalm 36. 7—10.

1 MOR werthfawr yw'th drugaredd di,
I ni, O Arglwydd, beunydd?
Am hyn y câr plant dynion fod
Dan gysgod dy adenydd.

2 A brasder da dy dŷ fwyfwy
Digonir hwy mewn heddwch;
Dïodi di eu henaid llon
Ag afon dy hyfrydwch.

3 O herwydd gyd â thi yn wir
Mae ffynnon bur y bywyd;
A gwir oleuni welwn ni
Yn dy oleuni hyfryd.

4 O estyn etto i barhâu
Dy drugareddau tirion,
Fel yr adwaener di a'th ddawn
I'r rhai sydd uniawn galon.

## 23. *Da hyderu yn Nuw.* 8. 7

Psalm 37. 3—6.

1 YN Nuw gobeithia yn y byd,
A gwna o hyd ddaioni;
Cei felly drigo yn y tir,
A chei dy wir ddigoni.

2 Gwna ymddigrifu yn dy Dduw,
A chei bob gwiw ddymuniad;
Cred iddo ef dy ffordd bob dydd,
A'th raid a rydd yn wastad.

3 Cred ynddo ef, fe'th ddwg i'r lan,
Myn allan dy gyfiawnder;
Fel goleu'r haul ar hanner dydd
Y bydd dy bur eglurder.

## 24. *Byrdra bywyd.* M.C.

Psalm 39. 4—8.

1 PAR i mi synied, Arglwydd Ner,
Pa amser gaf is nen;
Sef rhif fy nyddiau yn y byd,
A phryd y dont i ben.

2 Fy oes nid yw ond lled fy llaw,
Ber iawn o'r cryd i'r bedd;
A gwagedd oll yw pob dyn byw,
Er gwyched yw ei wedd.

3 Llwyr ofer yw ei drafferth faith,
A dyfal waith ei law;
Fe dyrra olud fwy na mwy,
Nas gŵyr i bwy y daw.

4 Na ad im' mwyach roi fy mryd,
Ar bethau'r byd, O Dduw;
Ac o'm camweddau gwared fi:
Tydi fy ngobaith yw.

---

**25.** *Disgwyl wrth yr Arglwydd.* 8. 8.
Psalm 40. 1—4.

1 DYFAL ddisgwyl mae fy enaid
Wrthyt ti, fy Nuw bendigaid;
O ymostwng o'r uchelder,
Clyw fy llef yn ol dy arfer.

2 Cyfod fi o bydew pechod,
Sydd yn frwnt ac erchyll hynod;
Rho fy nhraed ar graig dy gariad,
Yna hwylia fy ngherddediad.

3 Rho i'm genau ganiad newydd,
Cân o foliant i'm Gwaredydd;
Yna llawer hyn a welant,
A'th drugaredd fawr a gredant.

4 Gwyn ei fyd y sawl osodo
Dduw yn wir ymddiried iddo;
Ac ni thry, pan fo helbulus,
Byth am borth at fyd twyllodrus.

---

**26.** *Gofal Duw dros y tlawd.* 8. 7.
Psalm 41. 1—3, 13.

1 GWYN ei fyd y sawl ystyria
Wrth y tlawd anghenus ddyn:
Duw a'i gwrendy ac a'i gwared
Pan y bo mewn adfyd blin;

Ceidw ef yn dra dïogel,
Ac a'i cynnal ef yn fyw;
Gwynfydedig fydd ei gyflwr
Ar y ddaear, medd ei Dduw.

2 Pan fo afiach ar ei wely,
Duw a'i nertha ef â'i ras;
Ai holl wely a gyweiria,
Nes ei gael o'i glefyd ma's:
Bendigedig yn dragywydd
Fyddo Brenhin nefoedd wen;
Duw ac Arglwydd Israel ydyw,
Ac a fydd dros fyth. Amen.

---

**27.** *Hiraeth am Dduw.* 8. 7. 4.

Psalm 42. 1, 2, 5, 8.

1 FEL y brefa'r hydd lluddedig
Am afonydd dyfroedd byw,
Felly hiraeth mawr fy enaid
Sydd am danat, O fy Nuw;
Gwir sychedig,
Yw fy yspryd am dy ras.

2 Pa'm, fy enaid, y'th ostyngir?
Pa'm yr ymderfysgi c'yd?
Etto dod yn Nuw dy obaith,
A'i foliannu gei ryw bryd;
Iachawdwriaeth,
Ei wynebpryd fydd dy gân.

3 Etto'r Arglwydd a orchymmyn
Ei drugaredd fore-ddydd,
Ac am dani yn y cyfnos
Melus fy nghaniadau fydd;
Duw fy einioes!
Caf ei ganmol cyn bo hir.

**28.** *Am oleuni.* 10au.

Psalm 43. 3, 4.

1 DY oleu cu, a dy wirionedd moes,
I'm tywys mwy, a'm harwain trwy fy oes;
Nes dof i'r lan i dawel orphwys fry,
Ar Sïon fryn, ac yn dy sanctaidd dŷ.

2 Ac yna'r af yn llon at allor Duw,
At Dduw yr hwn fy holl orfoledd yw;
I Dduw, fy Nuw, y canaf beraidd glod,
Ar delyn aur, tra nefoedd wen yn bod.

---

**29.** *Am lwyddiant y Messiah.* 8. 7.

Psalm 45. 1—5.

1 FY nghalon cân, a'm tafod bydd
Fel pin 'sgrifenydd buan;
I foli Ceidwad dynol ryw,
Enneiniog Duw ei hunan.

2 Nâ meibion dynion teccach wyd,
Tywalltwyd gras i'th enau;
O herwydd Duw roes arnat wlith
Ei fendith byth, a'i radau.

3 Dy gleddyf gwisg yng ngwasg dy glun,
O gadarn Gun gogonedd;
Dos byth ym mlaen yn brydferth iawn,
Mewn llwydd, a llawn orfoledd.

4 Yn gyflym iawn ar air y gwir
Dros fôr a thir marchoga;
Nes gwneud holl anwar ddynol ryw
Yn blant i Dduw Jehofa.

**30.** *Am lwyddiant y Messiah.* M. H.

Psalm 45. 1—5.

1 FY nghalon cân bereiddiaf glod
I Frenhin Sïon, is y rhod;
A'm tafod, arfer di dy ddawn,
Fel pin 'sgrifenydd buan iawn.

2 O teccach, Frenhin glân, dy bryd,
Nâ meibion dynion hardda'r byd!
Tywalltwyd gras i'th enau gwiw,
Ac fyth y'th fawr fendithiodd Duw.

3 Gwregysa di dy gleddyf llym,
A gwisg holl arfau glân dy rym;
Mewn llwydd marchoga ac mewn bri,
Gwir ac addfwynder gyd â thi.

4 Dy ofn a dreiddio fel y saeth
Trwy fron pob gelyn cyndyn caeth;
Neu eiriau mwyn trugaredd rad
A doddo'r cyfryw wrth dy dra'd.

---

**31.** *Galwad i adael y byd.* 8. 7.

Psalm 45. 10.

1 CLYW hyn, O ferch, medd Duw, a gwel,
Ac â chlust isel gwrando;
Rhaid i ti ollwng pawb o'th wlad,
A thŷ dy dad, yn ango'.

2 'Rys am dy gael dros foroedd pell,
I wlad sydd well i drigo;
Lle mae dy Brynwr gwridog gwyn,
Anwylaf, yn preswylio.

3 Gad yna'r byd, ynghŷd â'i dda,
Ei wagedd a'i deganau;
Pechod a phleser o bob math,
D' eilunod a'th gariadau.

4 Dy serch a'th gariad rho yn rhwydd
Ar Arglwydd yr arglwyddi;
Y T'wysog geidw'th ben rhag gwae,
Ar ddengmil mae'n rhagori.

**32.** *Merch y Brenhin.* 8. 7.
Psalm 45. 13—15.

1 HOFF ferch y Brenhin, glân o fewn,
Anrhydedd llawn sydd iddi;
A gwisg o aur, a gemmau glân,
Oddiallan sydd am dani.

2 Mewn gwaith gwe-nodwydd y daw hon
Yn wych ger bron ei Harglwydd;
Ac â'i gwŷryfon gyd â hi,
Daw attat ti yn ebrwydd.

3 Ac mewn llawenydd mawr a hedd,
Ac mewn gorfoledd dibrin,
Hwynthwy a ddeuant, wrth eu gwŷs,
I gyd i lys y Brenhin.

**33.** *Dinas gadurn sydd i ni.* 8. 8. 8.
Psalm 46. 1. 2, 4—7.

1 NODDFA a nerth i ni rai gwael,
A chymmorth agos hawdd ei gael
Yn nydd cyfyngder, yw ein Ior;
Am hyn mewn braw ni fyddai'n bron,
Pe dygid ffwrdd y ddaear gron,
A'i holl fynyddoedd mawr, i'r môr.

2 Mae afon bur, a'i ffrydiau per
A lawenhânt holl ddinas Ner,
Preswylfa lân yr uchel Dduw:
Nid ysgog hi er byd o wae,
Duw yn ei chanol trigo mae,
Rhydd iddi'n gynnar gymmorth gwiw.

3 Ond i ni bwyso ar ei ras,
Er twrf a therfysg mawr ein cas,
Ar fyr cawn fuddugoliaeth lân;
Mae Duw y lluoedd gyd â ni,
Yn amddiffynwr mawr ei fri,
O'n cylch bob dydd fel mur o dân.

**34.** *Duw yn glodfawr yn Sion.* 8. 7.
Psalm 48. 1—3, 9, 11, 10.

1 ANFEIDROL fawr yn ninas Duw,
A chlodfawr yw yr Arglwydd;
A'i hoff breswylfa hefyd sydd
Ym mynydd ei sancteiddrwydd.

2 Gwir degwch bro, llawenydd gwlad,
Yn wastad ydyw Sïon;
Yn nhemlau hon adwaenir ef
Yn noddfa gref i'w meibion.

3 'Nawr wedi d'od i'th deml ynghŷd
Oddiwrth y byd a'i wagedd;
Disgwyliwn, Arglwydd, am dy rad,
Dy gariad, a'th drugaredd.

4 O llawen fyddo Sïon fryn,
A'i phlant yn hyfryd ganu,
I ti am garu dynion caeth,
A'r Gwr a ddaeth i'n prynu.

5 Dy enw aeth, dy fawl a fo,
Trwy fryn a bro'n gyfannedd;
Nes cwrddom fry i gyd o'th fla'n,
I seinio cân gorfoledd.

**35.** *Pryniad yr enaid yn werthfawr.* 8. 7.
Psalm 49, 6—9.

1 RHAI ar olud sydd yn pwyso,
Gan ymffrostio lawer pryd

Yng nghyflawnder mawr eu cyfoeth ;
O mor annoeth ŷnt i gyd!
Canys nis gall neb waredu
Brawd anwylgu rhag y bedd,
Nac i Dduw un iawn roi drosto,
Neu bwrcasu iddo hedd.

2 Cadw'r corph rhag llygredigaeth,
Y gre'digaeth oll nis gwna ;
Cadw'r enaid rhag y poenau,
Nis gall arian, aur, na dâ :
Canys gwerthfawr iawn yw pryniad
Enaid anfad pob rhyw ddyn;
Nid oes neb all byth ei brynu,
Ond yr Arglwydd mawr ei hun.

---

**36.** *Angeu yw diwedd pawb.* 8. 7.

Psalm 49. 10. 15.

1 Y BEDD yw lletty pob dyn doeth,
Y ffol a'r annoeth unwedd ;
Bydd farw'r naill, bydd farw'r llall,
I arall gad ei annedd.

2 Ond daw i'r cyfiawn drannoeth teg,
I'w oes ychwaneg estyn ;
A phan o'r bedd y codo i fyw,
Deheulaw Duw a'i derbyn.

---

**37.** *Am drugaredd a gras.* 8. 7.

Psalm 51. 1, 2, 7, 8, 12.

1 TRUGAREDD, Arglwydd, dod i mi,
O dy ddaioni tyner ;
Tyn ymaith fy anwiredd mau,
O'th dosturiaethau lawer.

2 Fy enaid euog golch yn ddwys
Oddiwrth fawr bwys fy meiau;
Yn berffaith lân gwna di fyfi
Rhag brynti fy nghamweddau.

3 Ag isop golch fi oll yn lân,
Na byddwyf aflan mwyach;
Byddaf, os ti a'm gylch fel hyn,
Fel eira gwyn, neu wynnach.

4 A rho i'm rhan orfoledd llawn
Dy gyflawn iachawdwriaeth;
A chynnal fi, bechadur gwael,
A'th Yspryd hael yn helaeth.

---

**38.** *Mawl i'r Gwaredwr.* 8. 7.

Psalm 57. 7—11.

1 PAROD yw fy nghalon, Arglwydd,
I'th foliannu parod yw;
Canmol wnaf, a chanu clodydd
Fy Ngwaredydd a fy Nuw.
Deffro, fy ngogoniant, deffro,
Unwaith etto iddo cân
Ganiad felus, addas, weddus,
O gyhoeddus foliant glân.

2 Dy drugaredd sydd yn cyrraedd
Hyd y nefoedd uchel fry,
A'th wirionedd hyd at lwybrau
Y cymmylau danynt sy;
Uwch y nefoedd, Duw, ymddyrcha,
Etto yma bydd o hyd;
A'th ogoniant glân yn gynnar
Lanwo'r ddaear faith i gyd.

**39.** *Diogelwch yn Nuw.* 8.7.

Psalm 61. 1—4.

1 ERGLYW, O Dduw, ein llefain ni,
Ac ar ein gweddi gwrando;
Rho'wn lef o eitha'r ddaear gron,
A'n calon yn llesmeirio.

2 Dwg ni i graig fo uwch nâ ni,
Ac iddi bydd i'n derbyn;
Ein Tŵr wyt ti, un cadarn, da,
A'n noddfa rhag y gelyn.

3 O fewn dy babell bydded byth
Ein trigfan ddilyth ddedwydd;
A'n holl ymddiried fynno fod
Dan gysgod dy adenydd.

**40.** *Mawl i Dduw yn Sion.* M. H.

Psalm 65. 1—4.

1 PER fawl a'th erys di, O Dduw,
O fewn cynteddau Sïon wiw;
Ac yno tâl dy seintiau cu
Eu haddunedau yn dy dŷ.

2 Pob cnawd a ddaw i'th geisio di,
Wrandewi weddi pawb a'u cri;
Gan roi i ni ollyngdod llawn
O'n holl gamweddau mawrion iawn.

3 Y dyn ddewisech, dedwydd yw,
Yn agos attat fry i fyw;
Tra gwir ddigonir oddi fry
Nyni â mawr ddaioni'th dŷ.

**41.** *Daioni Duw yn ei ragluniaeth.* 8. 7.

Psalm 65. 9—11, 13.

1 YMWEL'D â'r ddaear wyt, O Dduw
A phob peth byw sydd arni;

Gan anfon gwlaw a gwlith i lawr,
I'w thramawr gyfoethogi.

2 Pob rhych yr wyt yn ei ddyfrhâu,
A'i chwysau'r wyt yn ostwng:
A'i mwydo'r wyt â chafod wlith,
I'w chnwd rhoi fendith deilwng.

3 Trwy'th fendith di y gwastad dir
A guddir oll â defaid;
Crechwenna, cana pawb ynghŷd,
A'r wlad ag ŷd ei llonaid.

4 Coroni'r ydwyt ti fel hyn
Y flwyddyn â'th ddaioni;
A'th lwybrau di, mewn bryn a phant,
Ddiferant frasder arni.

---

**42.** *Helaethrwydd teyrnas Dduw.* M. B. D.
Psalm 67. 1—5.

1 TRUGAREDD Duw i'n plith,
A'i fendith i ni gyd!
Tywynned mwy ei wyneb mad
Ar dref a gwlad o hyd!
Fel gwyper ffordd dy ras
Trwy'r ddaear las o'r bron,
A'th iachawdwriaeth fawr ym mhlith
Holl amrith bobloedd hon.

2 Duw, moled pobloedd di,
Rhont fawl a bri ynghŷd;
Ar holl genhedloedd is y nen,
Yn llawen bont o hyd.
O moled pawb yn bêr
Sydd is y ser yn byw,
Tydi ein Duw a'n dwyfol Dad,
A Cheidwad dynol ryw.

**43.** *Mawl i Dduw.* 8 8. 6.

Psalm 68. 1, 3, 4, 9, 10.

1 CYFODED Duw yng ngrym ei ras,
Ffoed ei elynion cyndyn cas
Mewn braw ar frys o'i fla'n;
Ond boed ei blant i gyd yn llon,
Yn orfoleddus ger ei fron,
A hyfryd iawn eu cân.

2 Rhown fawl i Dduw â llafar lef,
Ei enw mawr canmolwn ef,
A hwn Jehofa yw;
Dyrchafwn ef yn marchog sy
Yn gyflym ar y nefoedd fry,
A llef gorfoledd gwiw.

3 Rhoi graslawn wlaw mewn anial le
I'w etifeddiaeth flin wnaeth E,
A'i gwir ddiflino hi;
Ac i'w anghenus blant i gyd
Darparu mae yn awr o hyd,
Darparu mae i ni.

---

**44.** *Am helaethiad teyrnas Dduw.* M. C.

Psalm 68. 29, 31.

1 YM mlaen, ym mlaen â teyrnas Ior
Dros dir a môr o hyd;
Er mwyn Caersalem, adail deg,
Caiff anrheg cedyrn byd.

2 O'r Aipht daw pendefigion lu,
I geisio'r Arglwydd gwiw;
Ac Ethiopia estyn draw
Ei dwylaw at ei Duw.

**45.** *Llywodraeth y Messiah.* 8. 7.

Psalm 72. 5—8, 17,

1 YMLEDU wna llywodraeth Ior
O fôr hyd fôr yn gynnar;
O ffrwd Euphrates fawr yn glau,
Hyd bell derfynau'r ddaear.

2 Ei ofni wneir mewn bryn a bro,
Tra treiglo haul a lleuad;
Daw lawr fel gwlaw ar borfa las,
Neu gawod fras ar wastad.

3 Fe gerir yn ei ddydd yr iawn,
A'r cyfiawn a flodeua;
Bydd heddwch hyfryd is y nen,
Tra lleuad wen yn para.

4 Tra haul yn troi'n yr wybren fry,
Y pery enw iddo;
Pawb a'i bendithia ef yn wir,
A phawb fendithir ynddo.

---

**46.** *Duw ein hunig gynnorthwywr.* 8. 7.

Psalm 73. 23—26.

1 FEL plentyn gwan, fy nefol Dad,
Yn wastad dan dy ofal,
Ymafael yn fy neheulaw,
Yma a thraw i'm cynnal,

2 A'th gyngor hefyd boed i ti
Fy nhywys i'n ddilysiant;
A chymmer fi ar ben fy nhaith
I berffaith lân ogoniant.

3 Pwy, O fy Nuw, sydd gennyf fi,
Ond ti, o fewn y nefoedd?
A chyd â thi ni cheisiaf neb
Dros wyneb daear leoedd.

4 Fy nghnawd a'm calon i mi sy
Yn pallu cymmorth beunydd;
Yn nerth i'm calon bydd, a'm rhan,
A'm tarian yn dragywydd.

**47.** *Addysgu plant yn dduwiol.* 8. 7.
Psalm 78. 4, 6, 7.

1 CANMOLWN Dduw i'r oes a ddel,
Ei nerth a'i uchel wyrthiau;
Fel y mynegont hwy yn ffraeth
Hyn i'w hiliogaeth hwythau.

2 Fel gwyper byth o oes i oes
Y rhoes ef ei dystiolaeth;
O dad i fab, o fab i ŵyr,
I gadw llwyr wybodaeth.

3 Fel hyn addysgir hwy, bob rhyw,
I gredu Duw yn union;
Fel nad anghofiont byth ei waith,
Ond gwneud ei berffaith eirchion.

**48.** *Am ffafr Duw.* 8. 7.
Psalm 80. 1, 3, 18, 19.

1 ARWEINYDD Joseph, clyw a gwel,
O Fugail Israel, gwrando;
O blith cerubiaid edrych lawr,
Yn awr, gan ymddisgleirio.

2 Duw, dychwel ni, a'th wyneb llon
Lewyrcho'n dirion arnom;
Ac yna fe'n hachubir oll,
Fel nad ar goll yr elom.

3 Oddiwrthyt ti ni chiliwn chwaith,
Ond wrth dy waith y glynwn;
Ein hyspryd marwaidd bywioccâ,
A'th enw a glodforwn.

4 Duw, dychwel ni, a'th wyneb llon
Lewyrcho'n dirion arnom;
Ac yna fe'n hachubir oll,
Fel nad ar goll yr elom.

**49.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* S. 7.
Psalm 84. 1, 4, 5, 7.

1 DY babell di, mor hyfryd yw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd;
Mynych chwennychais weled hon,
Gan mor dra thirion ydoedd.

2 Y man 'rwyt ti, boed fryn neu fro,
Sydd gyflawn o ddiddanwch,
Yn dy gynteddau'n wastad mae
Rhyw fôr di-drai o heddwch.

3 Gwyn fyd preswylwŷr da dy dŷ,
Cânt dy foliannu ddigon;
Rhai eu cadernid ynot mae,
A'th lwybrau yn eu calon.

4 Ant rhagddynt bawb o nerth i nerth,
Nes cael yn brydferth ddyfod
I ymddangos i Dduw, ger ei fron,
Yn Sïon, ei breswylfod.

**50.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* M. H.
Psalm 84. 1, 4, 5, 7.

1 MOR hardd, mor deg, mor hyfryd yw,
Dy babell sanctaidd di, O Dduw!
O fewn ei hoff fagwŷrydd hi
Y cwrdd dy seintiau cu â thi.

2 Gwyn fyd y rhai gânt gennyt le
Yn nhemlau cu dy ras is ne';
Cânt yno wel'd dy siriol wedd,
A'th foli gan fwynhau dy hedd.

3 Gwyn fyd y sawl â'u calon sy
Yn ceisio'r ffordd i Sïon fry;
Ti yw eu nerth bob cam o'r daith,
A'u cysur yn yr anial maith.

4 O nerth i nerth yr ant o hyd,
Nes cwrddont yn y nef i gyd;
Nes gwelont di a'r tir sydd bell,
Ac unont mewn addoliad gwell.

---

**51.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* 6. 8.
Psalm 84. 1, 2. 4, 5, 7.

1 ARGLWYDD y bydoedd fry,
Mor deg a hawddgar yw
Trigfannau'th gariad cu,
Daearol demlau'm Duw!
Mae tynfa f' enaid tua'th dŷ,
Fy Nuw, gael gwel'd dy wyneb cu.

2 Preswylwŷr da dy dŷ,
Mor happus ydynt hwy!
Cyd-foli'th enw cu
Eu hyfryd waith fydd mwy;
Ac yn dy nerth trwy'r anial fyd
Y rhodiant hwy dy ffyrdd o hyd.

3 O nerth i nerth i gyd
Yr ant trwy'r dyffryn du,
Nes delont bawb ryw bryd
At Dduw i Sïon fry:
O hyfryd ddydd pan ddygo Duw
Ei blant i'r nefoedd wen i fyw!

---

**52.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* 6. 8.
Psalm 84. 10, 11.

1 CAEL treulio sanctaidd ddydd
Lle byddo Duw a'i saint,

Llawenydd gwell a rydd
Nâ mil mewn bydol fraint:
Gwell ydyw cadw drws o hyd
Lle del fy Nuw nâ swyddau'r byd.

2 Can's haul a tharian yw
Jehofa Dduw o hyd,
Gras a gogoniant gwiw
A rydd i'w blant i gyd;
A dim sydd dda ni wrthyd ef
I'r rhai a rodiant lwybrau'r nef.

---

**53.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* M. H.
Psalm 84. 10, 11.

1 MAE un diwrnod yn dy dŷ,
Dan wenau cain dy wyneb cu,
Yn well nâ mil yng ngwledd y ffol,
Sy'n gadael gofid blin ar ol.

2 Os caf fwynhâu y gwaelaf le
O fewn dy dŷ, fy Nuw, is ne';
Palasau teg, a'u pethau tlws,
Fy nhraed ni ddenant o dy ddrws.

3 Pob rheidiol ras a roddi di,
A choron glân ogoniant fry;
Ni chedwi un ddaionus rodd
Rhag neb a rodia wrth dy fodd.

---

**54.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* M. B. D.
Psalm 84. 1, 2, 10, 4, 7.

1 MOR deg a hawddgar yw,
O Dduw, dy babell lon!
Mae yn fy mynwes lawer awr
Ryw hiraeth mawr am hon:

Fy enaid sydd mewn blys
Am dd'od i'th lys i fyw;
Fy nghalon oll, a'm cnawd bob cam,
A waeddant am fy Nuw.

2 Mae rhagor i'w fwynhâu
Yn dy gynteddau di,
Mewn dydd a dreulir yn dy ffyrdd,
Nâ myrdd mewn bydol fri:
Gwell gadw gennyf sy
Y drws yn nhŷ fy Nuw,
Nâ thrigo lle mae anwir rai
Mewn hyfryd dai yn byw.

3 Gwyn fyd y rhai pryd hyn
A drigant yn dy dŷ!
Cânt hwy dy foli trwy eu hoes,
Ac yn oes oesoedd fry:
Hwy ant o nerth i nerth
Trwy'r anial serth i'r lan;
Ymddangos gânt eu Duw ger bron,
Yn Sïon yn y man.

---

**55.** *Am Adferiad Israel.* M. H.

Psalm 85. 1—7.

1 ISRAEL, Dduw, yn raslawn bydd,
Ac i'w hadferu brysia'r dydd;
Eu mawr anwiredd maddeu byth,
A chuddia'u beiau rif y gwlith.

2 Paham y digi wrthynt cy'd?
A sorri di hyd ddiwedd byd?
O tyn dy lid oddiwrthynt oll,
Na chrwydront mwy fel praidd ar goll.

3 Ar frys, ar frys, tro i'w bywhâu,
Fel caffont ynot lawenhâu ;
Dy iachawdwriaeth iddynt dod,
O'th fawr drugaredd, er dy glod.

**56.** *Cynnydd a gogoniant yr Eglwys.* 8. 7.
Psalm 87.

1 SYLFEINI hon, sef Sïon, sydd
Ar gyssegr fynydd uchod;
Ac ar ei phyrth ei serch roes Duw,
Uwch pob rhyw drigfan isod.

2 O ddinas Duw, preswylfa'r Ion,
Mawr ydyw'r son am danat;
A gogoneddus air it' fydd
Pan roir y gwledydd attat.

3 Babel a'r Aipht, gelynion gynt,
Gwneir hwynt i ti'n gariadus ;
Philistia gref ddarostwng gras
Arabia fras a Thyrus.

4 Ei chlod a leinw fro a bryn,
Dywedir hyn am dani,
Fe anwyd ynddi'r gŵr a'r gŵr,
A Duw fydd noddwr iddi.

5 Llïosog iawn fydd rhif ei phlant,
Ac unant oll i ganu,
"O Sïon, ynot byth y mae
Fy holl ffynhonau'n tarddu."

**57.** *Dyrchafiad a theyrnasiad y Messiah.* M.H.
Psalm 89. 19, 20, 24, 25, 28. 29.

1 GOSODAIST borth ar gadarn Gun,
Dyrchefaist Dduw, dy Fab dy hun;
Enneiniaist ef â'r Yspryd Glân
Yn Frenhin mwyn ar fawr a mân.

2 O'i du y mae dy eiriau gwir,
Mawr fydd ei fri ar fôr a thir;
Estyni ei lywodraeth fawr
Dros holl deyrnasoedd daear lawr.

3 Dy rad a fydd ei fythol ran,
Dy ammod wir a'i deil i'r lan;
Sicrhêi ei had byth iddo ef,
A'i orsedd-faingc fel dyddiau'r nef.

---

**58.** *Tragywyddoldeb Duw.* 8. 7.

Psalm 90. 1, 2, 4.

1 O BRYD i bryd, O Dduw, tra'r aeth
Pob rhyw genhedlaeth heibio,
Ti fuost i ni'n noddfa dda,
Ac yn breswylfa i drigo.

2 Er cyn rhoi sail un mynydd mawr,
A llunio llawr cwmpasfyd,
Yn Dduw trag'wyddol wyt cyn neb,
Hyd drag'wyddoldeb hefyd.

3 O'th flaen mae deg can' mlwydd fel do',
Pan heibio elo'i helynt;
Fel gwylfa nos, neu lai nâ hyn,
Oll yn dy olwg ydynt.

4 O bryd i bryd tra'r el, O Dduw,
Pob rhyw genhedlaeth heibio;
Bydd i ni etto'n noddfa dda,
Ac yn breswylfa i drigo.

---

**59.** *Am ras a gogoniant.* 8. 7.

Psalm 90. 14, 15.

1 DIWALLA ni, O Dduw, o'r ne',
Yn fore â'th drugaredd;
Fel byddo i ni lawen fyd,
Trwy'n bywyd, a gorfoledd.

2 Dod i ni nef ar ben ein taith,
A'n blinder maith a dderfydd;
Yn ol ein cystudd blin a'n pla,
Chwanega ein llawenydd.

**60.** *Am lwyddiant ysprydol.* 8. 7.
Psalm 90. 16., 17.

1 PAR wel'd, O Dduw, holl wŷrthiau maith
Dy rasol waith i'th weision;
A bydded eglur byth i'n plant
Ogoniant glân dy goron.

2 Ac arnom ni, bob enaid byw,
Prydferthwch Duw a fyddo;
Duw, ynom oll dy waith bywhâ,
A llwydda waith ein dwylo.

**61.** *Dïogelwch y Cyfiawn.* 8. 7.
Psalm 91. 1—6, 9, 10, 14—16.

1 TRIG yn lloches y Goruchaf,
D'wed, Mi gredaf ynddo mwy;
Dan ei gysgod gwna dy noddfa,
Ac nac ofna ddim yn hwy:
Rhag y saeth y dydd ehedo,
A rhag cyffro yn y nos,
Duw a'th geidw, ni ddigwydda
Haint na phla i'th babell dlos.

2 Dod dy gariad oll yn gryno,
Heb ragrithio, arno ef,
Ac nid ofer mewn cyfyngder
Fydd dy hyder yn y nef:
Mewn caledfyd arno gelwi,
Arnat gwrendy, dyry hedd,
Cyfran hyfryd trwy dy fywyd,
A thir gwynfyd draw i'r bedd.

## 62. *Moli Duw ar y Sabbath.* M. H.

Psalm 92. 1, 2, 4, 5, 10.

1 GWAITH hyfryd iawn a melus yw
Moliannu'th enw di, O Dduw;
Son am dy gariad fore glas,
A'r nos am wirioneddau'th ras.

2 Y Sabbath hyfryd ŵyl yw hon,
Na flined gofal byd mo'm bron;
Ond boed fy nghalon i mewn hŵyl,
Fel telyn Dafydd ar yr ŵyl.

3 Yng ngwaith a gair fy Arglwydd da,
Fy enaid hoff, ymlawenhâ;
Mor hardd yw gwaith dy ras, O Dduw,
A'th gyngor di mor ddyfned yw!

4 O gad i mi gael nefol ran,
Pan buro gras fy enaid gwan;
A'm holl alluoedd hyfryd waith
Yn y trag'wyddol wynfyd maith!

## 63. *Y cyfiawn yn blodeuo.* 8. 7.

Psalm 92. 12—15.

1 BLODEUA'R cyfiawn tu a'r nen,
Fel y balmwydden union;
Cynnydda'n fawr, a brigog fydd,
Fel cedrwydd yn Libanon.

2 Y rhai a blannwyd yn nhŷ Dduw,
Yn goedwydd byw y tyfant;
Ac yng nghynteddau ein Duw ni,
Y rheini a flodeuant.

3 Hwy ffrwythant oll mewn henaint llawn
Ym mhob rhyw ddawn a rhinwedd;
A byddant iraidd iawn i gyd,
A thirfion hyd eu diwedd.

4 Fel hyn addysgir dynol ryw
Mai uniawn yw ein Llywydd;
Mai gwir i gyd yw gair yr Ion
I'r cyfion yn dragywydd.

---

**64.** *Mawl i Dduw.* M. H.

Psalm 95: 1—7.

1 O DE'WCH, i'r Arglwydd canwn glod,
I'r Duw a'n gwnaeth fel hyn i fod;
Ymlawenhâwn nes clywo'r nef
Yng Nghraig ein iachawdwriaeth gref.

2 A diolch deuwn oll o'i fla'n,
A llafar ganwn Psalmau cân;
Jehofa sy Dduw mawr o hyd,
A Brenhin mawr uwch duwiau'r byd.

3 Ei eiddo yw dyfnderau'r llawr,
Ac uchel ben pob mynydd mawr;
Efe a biau'r moroedd maith,
A'r sychdir yw ei gywrain waith.

4 O de'wch, addolwn Dduw ei hun,
Gan ostwng gliniau bob yr un;
Ei ddefaid ŷm, a'n Bugail yw,
Ac ar ei borfa'r ŷm yn byw.

---

**65.** *Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu.* M. H.

Psalm 97. 1, 2, 10, 11.

1 TEYRNSAU mae ein Harglwydd mawr,
Aed ffwrdd ein holl ofidiau'n awr;
Llawenydd lanwo'r ddaear gron,
A'i holl ynysoedd bras o'r bron.

2 Cymmylau a thywyllwch du
Yn fynych iawn o'i amgylch sy,

Ond cyfiawn farn yw sylfaen gref,
A thrigfa ei orseddfaingc ef.

3 O chwi sy'n caru Duw, casêwch
Y drwg, a'i lân ewyllys gwnewch;
Eneidiau'i saint a geidw'n gu
Oddiwrth holl faglau uffern ddu.

4 I'w seintiau hoff yr hauwyd had
Goleuni pur y nefol wlad;
Llawenydd yn addfedu sy
O'u cylch fel cnwd i'r nefoedd fry.

---

**66.** *Moli Duw am Iachawdwr.* 8. 7. 4.

Psalm 98, 1—4.

1 CENWCH, cenwch ganiad newydd,
Cân o fawl i Frenhin nef;
Gwŷrthiau rhyfedd iawn weithredodd
Ei ddeheulaw gadarn gref:
Buddugoliaeth,
Gâdd ei fraich sancteiddiol ef.

2 Dangos wnaeth ei iachawdwriaeth
I drigolion daear gron,
A'i gyfiawnder a ddatguddiodd
I genhedloedd anwar hon;
Er eu pechod,
D'od i'w cadw wnaeth yr Ion.

3 Cofiodd E'r addewid rasol
Roes i Israel, geirwir yw;
Holl derfynau'r byd gânt weled
Iachawdwriaeth fawr ein Duw:
Llafar genwch,
Fawl i Geidwad dynol ryw.

**67.** *Llawenydd am ddyfodiad y Messïah.* 8.7.
Psalm 98. 5—9.

1 LLAWENYDD llawn i'r ddaear gron,
Ei Llywydd llon groesawed;
Par'tôed pob calon iddo le,
A'r holl gre'digaeth caned.

2 D'od mae i fawr fendithio'r byd,
A'r bobl i gyd sydd ynddo;
Y naill reolir byth yn iawn,
Ar lleill yn gyfiawn ganddo.

3 Ni leinw pechod cas yn hir,
Na drain y tir yn dryfrith;
Ei fendith Duw a dan ar led
Mor belled ag yw'r felldith.

---

**68.** *Mawrhydi brenhiniaeth y Messïah.* 8. 7.
Psalm 99. 1—5.

1 TEYRNASU mae ein Prynwr da,
Y byd addola'r Arglwydd;
Cerubiaid glân o'i gylch a gair
Yn gwneud ei air yn ebrwydd.

2 Yn Sïon mae gorseddfa'i ras,
Mawr yw ei urddas yno;
A'i enw, sydd ofnadwy iawn,
Rhoir prydlawn foliant iddo.

3 Un sanctaidd ydyw enw Ner,
Cyfiawnder fyth a hoffa;
Uniondeb, barn, cyfiawnder mad
Yn wastad a weithreda.

4 Pawb oll ein Harglwydd byw mawrhâed,
Gan blygu wrth draed ei fawredd;
Sancteiddrwydd glân yw natur Duw,
Trugaredd yw ei orsedd.

## 69. *Mawl i Dduw.* M. H.

Psalm 100.

1 I'R Arglwydd cenwch lafar glod,
A gwnewch ufudd-dod llawen fryd;
De'wch o flaen Duw a pheraidd dôn,
Drigolion daear faith i gyd.

2 Gwybyddwch mai efe sy Dduw,
A'n gwnaeth yn fyw fel hyn i fod;
Ei bobl ŷm ni, a defaid cu
Hoff borfa'i dŷ, yn dwyn ei nod.

3 O ewch i'w byrth â diolch brau,
Yn ei gynteddau molwch ef;
Bendithiwch enw Duw hynôd,
Rhowch iddo glod trwy lafar lef.

4 Can's da yw'r Arglwydd, Awdwr hedd;
Da ei drugaredd, a dilŷth;
A phob gwirionedd in' a roes,
O oes i oes a bery byth.

---

## 70. *Mawl i Dduw.* M. H.

Psalm 100.

1 GER bron teyrn-faingc Jehofa mawr
Ymgrymmwch blant y byd i lawr;
Gwybyddwch mai efe sy Dduw,
Yn dwyn i'r bedd, yn gwneud yn fyw.

2 Ei ddwyfol nerth, heb gymmorth un,
A'n gwnaeth o'r llwch yn hardd ein llun;
A'i ras, fel praidd crwydredig ffol,
I'w gorlan glyd a'n dug yn ol.

3 Yn dorf â diolch down i'th dŷ,
Dyrchafwn fawl i'r nefoedd fry;
A myrdd o bob rhyw iaith yn bod
A leinw'th byrth â llafar glod.

4 Llywydd ar bob peth ydwyt ti,
Cariad anfeidrol i ti sy;
Saif fel y graig dy air i gyd,
Pan ddel i ben holl oes y byd.

---

**71.** *Duw a wrendy weddi.* M. C.

Psalm 102. 17—20.

1 FE wrendy Duw ar weddi'r gwael,
A rhydd yn hael i'w blant;
'Sgrifenir hyn i'r oes yn ol,
A'i ganmol ef a wnant.

2 O uchaf fan ei gyssegr fry
Y try ei lygaid lawr;
I'r ddaear hon o nef y nef
Yr edrych ef yn awr.

3 I glywed cri carcharwyr caeth,
Gan flinder maith yn brudd;
I wrando cwyn plant angau glas,
A'u rhoi, o'i ras, yn rhydd.

---

**72.** *Anghyfnewidioldeb Duw.* M. H.

Psalm 102. 23—28.

1 YR Arglwydd sydd â'i law'n gwanhâu
Ein cryfder ar y ffordd yn glau;
Gyr haint ac angau llym ei loes
I'n dal, a thorri'n fyr ein hoes.

2 Y meddwl hwn er hynny rydd
Esmwythder mawr i'n henaid prudd;
Ddoe, heddyw, byth, yr un yw Duw,
A'n Ceidwad cryf, anfarwol yw.

3 Y ddaear hon a seiliodd ef,
A'i nerthol law a wnaeth y nef;
Heneiddia'r naill, diflana'r llall,
Ond Duw a bery byth heb ball.

4 Efe a gwyd ei saint o'r bedd,
Ac wedi hyn cânt nefol hedd;
Ei eglwys gu a'i phlant yn llon
Gânt byth deyrnasu ger ei fron.

**73.** *Trugaredd Duw.* M.H.

Psalm 103. 8, 10—13.

1 I'R Arglwydd Dduw cyd-ganwn glod,
Trugarog, graslawn yw erio'd;
Hwyrfrydig rhyfedd yw i lid,
A Duw tosturiol iawn o hyd.

2 Nid hanner cyfuwch ydyw nen
Y nef serennog uwch ein pen,
Ag yw ei ras a'i gariad cu
I'r sawl yn ei was'naethu sy,

3 Mor bell yw tir y dwyrain draw
Oddiwrth orllewin y naill law!
Mor belled symmud Duw i bant
Euogrwydd blin ei anwyl blant.

4 Fel y tosturia tad ei hun
Wrth blant ei gariad bob yr un;
Fel hyn wrth bawb a'i hofnant ef
Tosturio wna ein Tad o'r nef.

**74.** *Trugaredd Duw.* 8.8.8.6.

Psalm 103. 11—13.

CYFUWCH ag yw'r ffurfafen fawr
Yn hongian fry oddiwrth y llawr,
Neu belled ag yw'r dwyrain wawr
Oddiwrth orllewin bell,
Ein Harglwydd a bellhâ ein bai
Oddiwrth ein llwyr haeddiannol wae;
Nâ thad i'w blentyn caru mae
A chariad llawer gwell.

**75.** *Breuolder bywyd.* 8. 7.

Psalm 103. 14, 15, 17.

1 EIN Duw a'n hedwyn ni yn llwyr,
Fe ŵyr mai llwch yw'n defnydd;
Blodeua dyn fel gwelltyn glas,
Fel blodau'r ma's y derfydd.

2 Ond gras a mawr drugaredd fydd
Yn lân dragywydd feddiant,
O oes i oes, heb drangc, heb drai,
Gan Dduw, i'r rhai a'i hofnant.

---

**76.** *Gallu a gogoniant Duw.* 10. 11.

Psalm 104. 1—4, 24.

1 FY enaid, rho fawl i'r Arglwydd Dduw byw,
Tra mawr ydwyt ti, O Arglwydd fy Nuw;
Ti wisgaist ogoniant a harddwch yngh ŷd,
Fel dillad y gwisgi oleuni o hyd.

2 Dy babell a doi â'r nefoedd fel llen,
Gan hongian y ser mor hardd yn ei nhen;
I lawr yn y dyfroedd gosodi yn gry',
Dylathau 'stafelloedd ardderchog dy dŷ.

3 Cymmylau wnei di yn gerbyd i'th hynt,
A rhodi yn hardd ar edyn y gwynt;
Cenhadon ufuddgar d'ewyllys di yw
Ysprydion ac engyl seraphaidd eu rhyw.

4 Gweithredoedd dy law, O Arglwydd ein Ior,
Mor fawr ydynt hwy ar dir ac ar fôr!
Maent oll yn mynegu'th ddoethineb i'r byd,
A chyflawn o'th gyfoeth yw'r ddaear i gyd

**77.** *Mawl i Dduw.* 8. 8.

Psalm 106. 1, 3—5, 48.

1 HALELIWIA, haleliwia,
Molwn, molwn Dduw Jehofa;
Mae ein Duw yn dda anfeidrol,
A'i drugaredd yn drag'wyddol.

2 Cofia ni, O Arglwydd grasol,
'Nol dy ras i'th hil brïodol;
Ac ymwêl â ni yn helaeth
A bendithion iachawdwriaeth.

3 Fel y profom wir ddaioni
Etholedig blant goleuni,
Eu llawenydd cyflawn odiaeth
A gorfoledd d' etifeddiaeth.

4 Bendigedig yn dragywydd
Fyddo Duw ein gwir Waredydd!
A dyweded pawb fel yma,
Bydded felly. Haleliwia.

---

**78.** *Teyrnasiad buddugoliaethus Crist.* 11au.

Psalm 110. 1—4, 7.

1 DYWEDODD Jehofa i'm Harglwydd a'm Duw,
Tyr'd ar fy neheulaw ac eistedd yn Llyw;
Hyd oni osodwyf yn droed-faingc i'th dra'd
Bob gelyn a wrthyd lywodraeth dy rad.

2 Gwialen dy nerth, sef athrawiaeth dy ras,
A enfyn Jehofa o Sïon i ma's;
Ar bawb o'th elynion teyrnasa mewn bri,
Nes gwneuthur yr hollfyd yn ufudd i ti.

3 Yn nydd dy gadernid y bobloedd a gair
Yn wir ewyllysgar i wneuthur dy air:

Mewn harddwch sancteiddrwydd dros
wyneb y llawr,
Ac hefyd mor amled a mân wlith y wawr.

4 Fe dyngodd Jehofa, a'i air sy'n ddilŷth,
Offeiriad wyt ti fel Melchisedec byth;
Ti yfaist o'r afon, am hynny dy ben
A godi'n drag'wyddol yn nheyrnas y nen.

---

**79.** *Mawl i Dduw am ei waith.* 8. 7.

Psalm 111. 1, 4, 9, 10.

1 CLODFORAF fi fy Arglwydd Ion,
A'm calon yn wirfoddol;
Sef yng nghymmanfa dynion da,
Mewn tyrfa gyfion rasol.

2 Ei waith rhyfeddol wnaeth cyn hyn
I'w gofio yn wastadol;
Ac Arglwydd noddfawr yw i ni,
Llawn o dosturi grasol.

3 Anfonodd ef i'w blant o'r nef
Ymwared gref cyn heddy';
Gorch'mynodd ei gyfammod byth,
Caiff ddilyth barch am hynny.

4 Dechreuad pob doethineb yw
Iawn ofni Duw y nefoedd;
Mae deall da i'r rhai wnant hyn;
Ei fawl sydd yn oes oesoedd.

---

**80.** *Y dyn a ofna Dduw.* M. H.

Psalm 112. 1—9.

1 GWYN fyd y dyn sy'n ofni Duw,
Gan hoffi'n fawr ei ddeddfau gwiw;
Tra dedwydd yn ei ddydd fydd ef,
Ac ar ei blant daw bendith nef.

2 Mewn nos o drallod, dywyll, ddu,
I hwn y cyfyd goleu cu;
A'i enaid ni ysgogir byth,
Am fod ei gred yn Nuw dilŷth.

3 Ei dduwiol waith yng ngwinllan Duw,
A'i roddion rhwydd i'r tlodion gwiw,
Eu melus goffa gânt i gyd,
A gwobrwy fawr mewn bythol fyd.

## 81. *Mawl i Dduw.* 8. 8. 8.

Psalm 113.

1 CHWI weision Duw, molwch yr Ion,
Molwch ei enw â llafar dôn;
Bendigaid fyddo ei enw ef!
O godiad haul hyd fachlud dydd
Mawr enw'r Ion moliannus fydd,
Yn y byd hwn ac yn y nef.

2 Dyrchafodd Duw uwch yr holl fyd,
A'i foliant aeth uwch nef i gyd,
Pwy sydd gyffelyb i'n Duw ni?
Yr hwn a breswyl yn y nef,
I'r ddaear hon darostwng ef,
Gwel ef ein cam, clyw ef ein cri.

3 Efe sy'n codi'r tlawd o'r llwch,
A'r rheidus o'i flinderau trwch,
I'w gosod uwch pennaethiaid byd;
I'r ammhlantadwy mae'n rhoi plant,
Hil teg, a thylwyth, a llwyddiânt,
Am hyn moliennwch Dduw i gyd.

## 82. *Mawl i Dduw.* M. C. D.

Psalm 117.

I GREYDD byd rhowch fawl yn bêr,
Bawb is y ser sy'n byw;

Clodforwch fyth, chwi lwythau'r llawr,
Eich Ceidwad mawr a'ch Duw:
Trag'wyddol yw trugaredd Ior,
Ac fel y môr i ni;
A'i air a bery'n gadarn byth:
Boed iddo barch a bri!

---

**83.** *Mawl i Dduw.* M. H.

Psalm 117.

1 CYDSEINIED pawb sydd is y ser
I Grëydd byd ei glod yn bêr;
Cyd-ganer mawl i'r Ceidwad mawr
Gan bob rhyw lwyth dros wyneb llawr.

2 Trag'wyddol yw gwirionedd Ior,
A'i fawr drugaredd fel y môr;
Ei fawl a gano pawb ynghŷd
Tra haul uwch ben yn oleu byd.

---

**84.** *Mawl i Dduw.* 7au.

Psalm 118. 1—4.

1 CENWCH oll, â llafar lef,
Gân o fawl i Frenhin nef;
Canys da yw Duw dilŷth,
A'i drugaredd bery byth.

2 Uned Israel, fawr a mân,
Yn y felus hyfryd gân,—
Da i bawb yw Duw dilŷth,
A'i drugaredd bery byth.

3 Teulu Aaron gano'n awr,
Gan roi mawl i'r Arglwydd mawr,
Da i bawb yw Duw dilŷth,
A'i drugaredd bery byth.

4 D'weded pawb sy'n ofni Duw,
O bob llwyth, ac o bob lliw,
Da i bawb yw Duw dilŷth,
A'i drugaredd bery byth.

---

**85.** *Dydd adgyfodiad y Messïah.* S. 7.

Psalm 118. 24—28.

1 WEL dyma'r dydd, o'r diwedd daeth,
Y dydd a wnaeth yr Arglwydd;
Cyd-orfoleddwn ynddo'n iawn,
Ymlawenhâwn o'i herwydd.

2 Attolwg, Arglwydd, clyw ein mawl,
A chadw'r sawl a'th geisiant;
Attolwg, gwrando ni pryd hyn,
A ni yn erfyn llwyddiant.

3 Bendigaid fyddo'r Gwr a ddaeth
I roi rhai caeth yn rhyddion;
Yn enw'r Ion y daeth o'r nen,
Byth ar ei ben bo'r goron.

4 At allor Duw nesâwn yn awr,
I ni y mawr lewyrchodd;
A rhown ein cyrph yn aberth byw
I'r Arglwydd Dduw a'n carodd.

5 Tydi, O Dduw, wyt Dduw i ni,
Am hyn tydi a folwn,
I ti ein mawl dyledus yw,
A thi ein Duw ddyrchafwn.

---

**86.** *Gwynfydedigrwydd y cyfiawn.* M. C.

Psalm 119. 1, 2, 5, 6, 17.

1 GWYN fyd y gwr a gerdd ym mla'n
Mewn perffaith ffordd trwy'r byd;
Gan rodio'n lew yng nghyfraith lân
Jehofa mawr o hyd.

2 Gwyn fyd y sawl yn cadw sy
Ei lwybrau ar ei daith;
Gan geisio gwên ei wyneb cu,
A'i galon yn y gwaith.

3 O am gyfeirio'm ffyrdd i gyd
I gadw deddf fy Nuw!
Ni chuddia gwarth fy wyneb-pryd,
Tra byddwyf iddo'n byw.

4 Bydd dda i'th was, fel byddwyf byw
Yn wastad i dy glod;
Ac fel y cadwyf, O fy Nuw!
Bob gair a roi'st erio'd.

---

**87.** *Defnyddioldeb yr Ysgrythyr.* 7. 6.

Psalm 119. 9, 11—16.

1 PA fodd y gall yr ie'ngctid
Lanhâu eu llwybrau i gyd?
Wrth ddoeth ymgadw'n ddiwyd
Yn ol dy air o hyd:
Am hynny, yn fy nghalon,
O Dduw, y cuddiwyf fi
Dy rasol ymadroddion,
Na phechwy' i'th erbyn di.

2 O dysg i mi dy ddeddfau,
Fendigaid nefol Dad;
A charwyf byth eu llwybrau
Yn fwy nâ golud gwlad:
Boed i mi ddwys fyfyrio
Yn dy orch'mynion glân,
A'th 'sgrythyr sanctaidd fyddo
'Nigrifwch a fy nghân:

**88.** *Am gyfarwyddiad dwyfol.* M. B. D.

Psalm 119. 18, 24, 19, 29, 30.

1 DATGUDDIA di, wrth raid,
Fy llygaid, O fy Nuw!
I ganfod rhyfeddodau maith
O'th gyfraith, tra fwy' byw:
Dy dystiolaethau gwir,
Fo'm doeth gynghorwyr mwy,
A hyfryd gan fy enaid fo
Myfyrio ynddynt hwy.

2 Pererin wyf ar daith
Trwy anial maith y byd,
Llewyrched ar fy ffordd dy air
Yn ddisglair iawn o hyd:
Rhag i mi ŵyro mwy
I'r aswy nac i'r dde',
Rho ffordd gwirionedd o fy mla'n,
Nes delwy'n lân i dre'.

**89.** *Canmoliaeth yr Ysgrythyr.* 8. 7.

Psalm 119. 89, 90, 96, 135.

1 'RWYT ti o oes i oes yn fyw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd;
A'th air sydd wedi ei sicrhâu
Byth i barhâu'n y nefoedd.

2 Pan heibio'r el, fel heibio'r aeth,
Cenhedlaeth a chenhedlaeth;
Saif dy wirionedd, er dy glod,
Heb gysgod troedigaeth.

3 Ar bob perffeithrwydd yn y byd
Fe welir rywbryd ddiwedd;
Ond gwirioneddau mawr dy air
A gair yn ehang rhyfedd.

4 Rho lewyrch d'wyneb i dy was,
Ac hefyd ras beunyddiol,
I gadw'n well dy gyfraith wiw,
A byw, O Dduw, yn dduwiol.

**90.** *Gwerthfawrogrwydd yr Ysgrythyr.* M.H.
Psalm 119. 105, 127, 111, 162, 14, 36.

1 LLUSERN i'm traed yw gair fy Nuw,
A llewyrch cu i'm llwybrau yw;
Y ffordd i'r nefoedd nos a dydd
O'm blaen yn eglur iawn a rydd.

2 Gwell lawer yw ei 'sgrythyr lân
Nag aur a goethwyd yn y tân;
A hon yw'r etifeddiaeth dda
Fy nghalon drist a lawenhâ.

3 Nid gŵr wrth rannu yspail gair
Mor llon â mi wrth ben ei air;
Oblegid hwn wyf lawen iawn,
Fel pe bai oll o dlysau'n llawn.

4 O carwyf byth dy eiriau gwiw
Yn fwy nâ'r golud oll, O Dduw;
Fy serch a dynnont bob yr awr
Yn fwy nâ holl drysorau'r llawr!

**91.** *Diogelwch y cyfiawn.* 8.7.
Psalm 121.

1 DISGWYLIAF o'r mynyddoedd draw,
Lle 'daw im' help 'wyllysgar;
Yr Arglwydd rhydd im' gymmorth gref,
Hwn a wnaeth nef a daear.

2 Dy draed i lithro ef nis gad,
A'th Geidwad fydd heb huno:
Wele Ceidwad Israël lân
Heb hûn na hepian arno.

3 Ar dy law ddeau mae dy Dduw,
Yr Arglwydd yw dy Geidwad:
Dy lygruni chaiff haul y dydd,
A'r nos nid rhydd i'r lleuad.

4 Yr Ion a'th geidw rhag pob drwg,
A rhag pob cilwg anfad:
Cai fyn'd a dyfod byth yn rhwydd
Yr Arglwydd fydd dy Geidwad.

**92.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* M. C.

Psalm 122.

1 FY nghalon llawenychu wnai
Pan dd'wedai'm ceraint gwiw,
I Sïon awn holl deulu'r ffydd,
I gadw dydd i Dduw.

2 I'w lysoedd daw, â mawl a chân,
Y llwythau glân ynghŷd;
Ac yno mae ein Prynwr mwyn,
A glyw ein cwyn i gyd.

3 O fewn ei chaerau heddwch boed,
Llawenydd doed i hon;
Pob duwiol rodd o'r nefol dir
I wylwyr Sïon lon.

4 Dros Sïon gu gweddïaf mwy
Tra byddwy'n berchen chwyth;
Lle câr fy ngheraint goreu fyw,
A'm Duw deyrnasu byth.

**93.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* 8. 7.

Psalm 122.

1 I DY fy Nuw, pan dd'wedent, Awn,
Im' llawen iawn oedd gwrando;
O fewn dy byrth, Caersalem lân,
Ein traed a safan' yno.

2 Caersalem deg, hoff ddinas Duw,
Mor gadarn yw ei sylfa'n!
A'i phlant sydd ynddi yn gyttûn,
A Duw ei hun â'i drigfan.

3 Y llwythau yno ddont ynghŷd,
Yn unfryd, llwythau'r Arglwydd;
Ger bron y faingc lle cara fod,
A chlod i'w fawr sancteiddrwydd.

4 I hon dymunwn hedd didrâi,
Boed llwydd i'r rhai a'i hoffant;
O fewn dy gaerau heddwch boed,
I'th lysoedd doed y llwyddiant.

5 Er mwyn fy mrodyr serchog llon,
A'm holl gyfeillion, d'wedaf,
Tangnefedd byth a fo i ti;
A'th wir ddaioni geisiaf.

---

**94.** *Am drugaredd.* M. H.

Psalm 123. 1—3.

1 TYDI, tydi, â'th breswyl sy
Yn uchel fry o fewn y nef;
Ein llygaid arnat sydd yn awr,
O edrych lawr, a chlyw ein llef.

2 Fel erfyn gwas borth meistr mwyn,
Neu forwyn nawdd ei meistres hi;
Disgwyliwn wrthyt, Dduw un wedd,
Am dy drugaredd dyner di.

3 Hyd oni chaffom gennyt hyn,
Ar Sïon fryn ein golwg sydd;
Erglŷw ein llef, O Arglwydd da,
A thrugarhâ ar hyn o ddydd.

**95.** *Dïogelwch y cyfiawn.* 8. 7.

Psalm 125. 1, 2, 4.

1 Y SAWL ymddiried yn Nuw Ion,
Bydd hwn fel Sïon fynydd;
Yr hwn ni syfl, a'i sylwedd fry
A bery yn dragywydd.

2 Gwel fel y saif Caersalem fry,
Ei chylchu mae mynyddoedd;
Yn gaer fel hyn yr Arglwydd sydd
Bob dydd o gylch ei bobloedd.

3 O Arglwydd Dduw, yn brysur gwna
I bob dyn da ddaioni;
Bydd di yn noddfa gadarn iawn
I'r uniawn wna dy ofni.

---

**96.** *Y galarwyr a ddiddenir.* 8. 7.

Psalm 126. 4—6.

1 EIN Duw a rydd i'w blant o'r ne'
Oleuni'n lle tywyllwch;
A thry eu dagrau am eu bai
Yn ffrydiau o ddiddanwch.

2 I'r rhai mewn dagrau sydd yn hau
Fe ddaw yn glau gynhaua';
A medi gânt yn llon eu gwedd,
A phrofi hedd Jehofa.

3 Yr hwn a ddwg i'r maes yn awr
Y gwerthfawr had dan wylo,
A ddaw i dref yn llawen iawn,
Ei 'sgubau llawn dan gludo.

---

**97.** *Bendith Duw a bair lwyddiant.* M. H.

Psalm 127. 1, 2.

1 OS Duw ni lwydda oddi fry,
Nis cwyd y seiri byth y tŷ;

A'r ddinas, oni cheidw Duw,
I'r ceidwad wylio hon nid gwiw.

2 Peth ofer codi gyd â'r wawr,
Ac hyd yr hwyr ymboeni'n fawr;
A bwytta bara'n brin bob pryd,
I ochel tlodi yn y byd.

3 Ein llafur oll heb fendith Duw,
Rhy fach i'n gwneud yn ddedwydd yw;
Ond pob rhyw felus rodd is nef
A geffir gyd â'i gariad ef.

---

**98.** *Bendith Duw sydd ar y cyfiawn.* 8. 7.

Psalm 128.

1 A OFNO'r Arglwydd gwyn ei fyd,
Gan rodio ar hyd ei lwybrau;
Bwyttâi o ynnill gwaith dy law,
Da i ti ddaw yn ddïau.

2 Dy wraig ar du dy dŷ is nen
Fel pêr winwydden ffrwythlon,
Dy blant ynghylch dy fwrdd, a fydd,
Fel olew-wŷdd blanhigion.

3 Cei gyflawn fendith tra fot byw
Gan Dduw o Sïon ddedwydd;
A gweled draw â goleu drem
Gaersalem mewn llawenydd.

---

**99.** *Disgwyl wrth yr Arglwydd.* 8. 7.

Psalm 130. 3—8.

1 PWY saif, O Dduw, o'th flaen dydi,
Os creffi ar anwiredd?
Ond fel y'th ofner di yn iawn,
Yr wyt yn llawn trugaredd.

2 Am hon fy enaid disgwyl wna,
Fwy na gwyliedydd difri',
A edrych fynu bob pen awr,
A welo'r wawr yn torri.

3 Disgwylied Israel wrth Dduw'r nef,
A cheisied ef ei wyneb;
O herwydd mae'n drugarog iawn,
A chyflawn o rasoldeb.

4 Mae aml ryddhâd wrth orsedd Ion
I ddynion o'u caethiwed;
Oddiwrth ei feiau oll ryw ddydd
I Israel rhydd ymwared.

---

**100.** *Am ostyngeiddrwydd.* 7au.

Psalm 131.

1 ARGLWYDD, wrth dy ochr di
Boed fy lle a'm cyfran i;
Tyn fy uchel drem i lawr,
Ac yn isel gwna fi'n awr.

2 Bwyf yn blentyn hawdd fy nhrin,
Fo yn addfwyn wrth dy glin;
Dysgwyf mwy dy eiriau mad,
Gan ymddiried yn dy rad,

3 Llwyr ddiddyfna di fy mryd
Oddiwrth bethau gwag y byd;
Bwyf fel plentyn tawel iawn,
Diddig, fore glas a nawn.

4 Wrth yr Arglwydd Dduw dilŷth,
Boed i Israel ddisgwyl byth;
Edrych fore a phrydnhâwn
Am ei ras yn ddyfal iawn,

**101.** *Am bresennoldeb a bendith Duw.* M.II.

Psalm 132. 7—10.

1 O FLAEN dy faingc ymgrymmwn lawr,
Ac yn dy babell, Arglwydd mawr;
A thaer ddymuniad dan ein bron
Am dy fwynhâu yr odfa hon.

2 O cyfod i'th orphwysfa wiw,
Tydi, ac arch dy nerth, O Dduw;
Dy air a'th Ysbryd fo i'n plith,
A'th ras ddihidlo fel y gwlith.

3 Boed dy offeiriaid oll o'th fla'n
Mewn gwisgoedd o gyfiawnder glân;
A'th seintiau cu o nefol had
Yn gorfoleddu yn dy rad.

4 Er mwyn d' Enneiniog gwridog gwyn,
Yn rasol rho'r bendithion hyn;
Fel na bo un o honom ni
Na bo'n sancteiddrwydd byth i ti.

---

**102.** *Daioni Duw i'r Eglwys.* S. 7.

Psalm 132. 13—16.

1 YR Arglwydd byw, o serch a bodd,
A ragddewisodd Sïon;
I drigo ynddi rhoes ei fryd,
Gan dd'wedyd geiriau tirion.

3 Fy hoff breswylfa byth fydd hi,
O gariad ynddi trigaf;
Bendithiaf hi â bara da,
A'i thlodion a ddiwallaf.

4 Ag iachawdwriaeth, medd Duw Naf,
Y gwisgaf ei hoffeiriaid;
A chân ei saint cyfannedd fydd,
Gan wir lawenydd enaid.

**103.** *Cariad brawdol.* M. B.

Psalm 133.

1 CYDFYW o frodyr cu,
Mor dda a hyfryd yw !
Heb un anghydfod yn eu plith,
Ac oll dan fendith Duw.

2 Mae fel yr ennaint drud
O hyd a redai lawr,
'Rhyd barf a gwisgoedd Aaron gynt,
Yn beraidd bob yr awr.

3 Fel gwlith ar Hermon-fryn,
Neu Sïon, mynydd Duw ;
Lle gorphwys bendith Ion dilŷth,
A bywyd bythol yw.

**104.** *Mawl i Dduw.* M. C.

Psalm 134.

1 CHWI weision Duw, a drigwch fry,
Ac yn ei dŷ sy'n byw,
Bob dydd a nos dyrchefwch gân
O foliant glân i Dduw.

2 Chwi seintiau cu sy'n caru byw
Yn nhemlau Duw is rhod,
Gan godi dwylaw tu a'r nen,
Rhowch ar ei ben y clod.

3 Jehofa Dduw, yr hwn a wnaeth
Y ddaear faith a'r nef,
O Sïon a'n bendithio ni,
A'r parch a'r bri gaiff ef.

**105.** *Mawl i Dduw.* 6. 8.

Psalm 136. 1—6, 23, 24.

1 RHOWCH glod i'r uchel Dduw,
Ior nef a daear las ;

Brenhin brenhinoedd yw,
Addoled pawb ei ras:
Trugaredd Duw a bery byth,
A'i air dilŷth safadwy yw.

2 Mor rhyfedd yw ei waith!
Pa wŷrthiau maith wnaeth ef?
Gwnaeth dir a moroedd maith,
A lledu wnaeth y nef:
Trugaredd Duw a bery byth,
A'i air dilŷth safadwy yw.

3 Ein cofio ni a wnaeth
Mewn cyflwr gwael, o'i ras;
Gwaredodd ni oedd gaeth
O law'n gelynion cas:
Trugaredd Duw a bery byth,
A'i ail dilŷth, safadwy yw.

---

**106.** *Meddwl am Sïon.* M. H.

Psalm 137.

O SION, pan y cofiom di,
Am aden gyflym iawn ŷm ni;
A'n gofid yw ein bod mor bell
Oddiwrth y wlad nag un sydd well.

2 Ar dir ein cas yr ŷm yn byw,
Ac os cawn gwrdd â chyfaill gwiw,
Fel ni ein hunain mae yn gaeth,
A'i fron yn friw gan fynych aeth.

3 Gobeithiwn etto wel'd y dydd,
Pan gaffom oll ein traed yn rhydd;
Pan gilio draw bob ing a loes,
A'n griddfan trist o dan y groes.

4 Meddwl ŷ daw'r fath ddydd a wna,
Ië, ran y caeth yn gyfran dda;
Er crwydro'n awr ym mhell fel hyn,
Cawn gwrdd ar frys ar Sïon fryn.

---

**107.** *Gras i'r gostyngedig.* M. C.
Psalm 138. 2, 3, 6, 8.

1 MAWRHEAIST ti, o Dduw, dy air,
Uwch nef a daear faith;
Mwy amlwg ynddo'th enw gair
Nag mewn un rhan o'th waith.

2 Gwrandewi di ar lais y gwan,
Pan lefo tu a'r nef;
A nerth anfoni yn y man
I'w enaid egwan ef.

3 Ac er dy fod yn rhyfedd fawr,
Goruwch y nef i gyd,
A llygad llon edrychi lawr
Ar dlodion isel fryd.

4 Y gras addewaist moes i mi,
A gyr fy ofnau draw;
Trag'wyddol yw'th drugaredd di,
Cyflawna waith dy law.

---

**108.** *Hollwybodaeth Duw.* S. 7.
Psalm 139. 1—6, 23, 24.

1 ARGLWYDD, chwiliaist fi â'th lygad,
Adnabuost fi yn iawn;
Fy eisteddiad a'm cyfodiad
Weli'r bore a'r prydnhâwn.
Fy ngorweddfa glyd a'm llwybrau
Amgylchyni di o hyd;
Dëall wnai fy holl feddyliau,
Hyspys it' fy ffyrdd i gyd.

2 Nid oes un gair ar fy nhafod,
Nid oes fwriad dan fy mron,
Nad wyt ti yn ei adnabod,
Arglwydd mawr, y funud hon:
O pa fath wybodaeth ryfedd,
A godidog, gennyt sy!
Uchel yw tu hwnt i'm cyrraedd,
Uch amgyffred engyl fry.

3 Chwilia fi, O Dduw, dy hunan,
Gwybydd fy meddyliau i gyd;
Prawf fi fel y profir arian,
Pura'n lân fy enaid drud:
Gwel a oes rhyw ffordd annuwiol
Gennyf fi yn anwyl gu;
Tywys fi'n y ffordd drag'wyddol,
Ffordd a'm dwg i'r gwynfyd fry.

---

**109.** *Hollbresennoldeb Duw.* M. H.

Psalm 139. 7—12.

1 PE ceisiwn ffoi o'th ŵydd i ma's,
O Dduw, fel rhyw anffyddlon was;
Oddiwrth dy Yspryd b'le y trown?
A ph'le o'th olwg graff y ffown?

2 Os dringo wnawn i'r nefoedd fry,
Yno mwynhêir dy wyneb cu;
Ac os yn uffern gwnawn fy nyth,
'Rwyt yno yn ofnadwy byth.

3 Pe cawn adenydd bore wawr,
I ffoi tu hwnt i'r ce'nfor mawr,
Wel, yno dy ddeheulaw fai,
I'm tywys ac i'm dal yn chwai.

4 Pe d'wedwn, y tywyllwch du
A'm cuddiai rhag dy lygaid di;
Yna y nos dywyllaf sydd
O'm hamgylch fai fel goleu ddydd.

5 Ni chuddia tywyll rhagot ddim,
Goleua'r nos fel haul mewn grym;
Y goleu ddydd i ti, O Dduw,
A'r tywyll nos, un ffunud yw.

**110.** *Hyderu yn Nuw.* M. C.

Psalm 140. 6, 7, 12, 13.

1 DYWEDAF wrth yr Arglwydd byw,
Fy unig Dduw wyt ti;
O Arglwydd, clyw fy llef yn glau,
I'th glustiau doed fy nghri.

2 Yr Arglwydd yw fy nerth i gyd,
Fy iechyd hefyd yw;
Yn nydd y frwydr gydaf bydd,
A'm pen a gudd fy Nuw.

3 I ddadleu dadl y truan tlawd,
Fe ddaw fel brawd o'r nef;
Ac uniawn farn i'r tlodion rhydd,
Y dydd y ceisiont ef.

4 Clodfori wna dy saint, o Dduw,
Dy enw gwiw i gyd;
A thrigo fry yn ddiau gânt,
Ym mwyniant nefol fyd.

**111.** *Am gymmeradwyaeth a dïogelwch.* M.H.

Psalm 141. 2—4, 9, 10,

1 O DOED fy ngweddi ger dy fron,
Fel arogl-darth, y funud hon;
A chodiad dwys fy nwylaw, Ner,
Fel y prydnhawnol offrwm pêr!

2 Na âd i'm calon feddwl drwg,
I'm genau gynnu chwaith dy wg;
A chadw fi rhag myn'd ar hyd
Ffol lwybrau dynion drwg y byd.

3 Rhag pob rhyw rwyd a dan y byd
Yn fagl i'm traed y ffordd ar hyd,
O cadw fi â'th ddeheu law,
A dwg fi'n iach i'r byd a ddaw!

**112.** *Am drugaredd a gras.* 8. 8. 6.

Psalm 143. 2, 6, 8—10, 12.

1 NA ddos i farn â'th was, O Dduw!
Ni chyfiawnhêir un enaid byw
Ger bron dy orsedd fawr;
A thir sychedig wyf un wedd,
Mewn hiraeth mawr am gael dy hedd
O'r nefol dir i lawr.

2 Gad i mi brofi fore glas
Dy drugarowgrwydd a dy ras,
Fel gwin i'm henaid gwan;
Ac er dy fawr drugaredd rad,
Rho bob rhyw bechod dan fy nhra'd,
A dal dy was i'r lan.

3 Ymguddiaf dan dy aden gref,
Fy enaid euog achub ef
O law'm gelynol ryw;
Dysg i mi wneud dy gyngor gwir,
Ac arwain fi i'r nefol dir,
O herwydd ti yw'm Duw.

**113.** *Daioni Duw i'w bobl.* M. H.

Psalm 144. 1—4, 15.

1 BENDIGAID fyddo Duw fy mhlaid,
A rydd i'm henaid nerth wrth raid;

Rhoi mae ei air ac Yspryd gras,
I'm gwneud yn arfog ddewr i'r ma's.

2 Fy noddfa a'm trugaredd rad,
Fy Nhŵr, a'm mawr Waredydd mad;
Fy nharian hefyd yw fy Nuw,
A gobaith da fy enaid yw.

3 Duw, beth yw dyn a'i fab yn awr,
Pan wnait o hwn fath gyfrif mawr?
I wagedd tebyg yw, a'i ddydd
Fel cysgod yn myn'd heibio sydd.

4 Gwyn fyd y rhai y daw o'r nen
Dy fendith beunydd ar eu pen;
O gwyn eu byd y rasol ryw
I'r rhai y mae Jehofa'n Dduw!

---

**114.** *Daioni Duw.* M. B

Psalm 145. 8, 9, 14, 15.

1 TOSTURIOL yw fy Nuw,
A graslawn bob rhyw bryd;
O drugareddau mawr yn llawn,
Hwyrfrydig iawn i lid.

2 I bawb daionus yw
Y Duw deyrnasa fry;
Ac ar ei holl weithredoedd mad
Ei rad drugaredd sy.

3 Yn cynnal mae ei hun
Bob un ar syrthio sydd;
A'r enaid gostyngedig gwan
A gwyd i'r lan ryw ddydd.

4 Yn disgwyl wrtho ef
Mae llygaid pob peth byw;
A'u bwyd a estyn yn ei bryd
I'r rhai'n yn ol eu rhyw.

**115.** *Daioni Duw i'w bobl.* M. H.

Psalm 146. 5—8.

1 GWYN fyd y dyn yr hwn mae Duw
Wrth raid yn borth i'w enaid byw;
A'i obaith da heb siglo sydd
Yn Nuw Jehofa nos a dydd.

2 Efe a wnaeth y nefoedd fry,
Y tir, y môr, ac ynddynt sy;
A phob gwirionedd pur a roes
A geidw byth o oes i oes.

3 Fe saif mewn pryd i'r gwan yn blaid,
A bara rydd i'r tlawd wrth raid;
Y flin gydwybod esmwythâ,
A'r carcharorion a ryddhâ.

4 Mae'n agor llygaid deillion prudd
I eglur ganfod goleu'r dydd;
Yr isel gwan a gwyd ei hun,
A hoffi mae y cyfiawn ddyn.

---

**116.** *Daioni Duw i'w bobl.* M. H.

Psalm 147. 1—3, 6.

1 MOLWCH yr Ion; peth da iawn yw
A'r llais a'r galon foli Duw;
O herwydd hyfryd yw ei glod,
Ac yn ddiolchgar gweddus bod.

2 Caersalem, dinas gyflawn fydd,
Ei Duw'n ei hadeiladu sydd;
Gan gasglu Israel oll ynghŷd,
A fu ar wasgar dros y byd.

3 Efe sydd hefyd yn iachâu
Y galon friw o'i phoen a'i gwae;
A'i holl archollion dolur-lawn
A rwym ei hun yn dirion iawn.

Yr Arglwydd yn dyrchafu sy
Yr addfwyn rai i'r nefoedd fry;
Gan ostwng dynion drwg i lawr,
A'u gyrru i'r trueni mawr.

---

**117.** *Mawl i Dduw.* 6. 8.

Psalm 148. 1, 2, 13, 14.

1 CHWI fydoedd dedwydd fry,
Dyrchefwch enw'r Ion;
I Grëydd pob peth sy
Rhowch fawl â llafar dôn:
Seraphaidd ryw, gerubiaid glân,
Traethwch ei glod mewn bythol gân,

2 Rhown ninnau fawl is rhod
I enw Brenhin ne';
Nid oes un enw'n bod
Yn glodfawr fel efe:
Ei ardderchowgrwydd hyfryd sy
Uwch daear lawr a nefoedd fry.

3 Dyrchafu mae ei saint
I orseddfeingciau'r nef;
Sef Israel mawr eu braint,
Rhai agos atto ef:
Am hyn cyd-uned pawb is nen
I'w foli'n bêr fel pawb uwch ben.

---

**118.** *Mawl i Dduw.* 8. 7.

Psalm 148. 1, 2, 13, 14.

HALELIWIA, mawl i'r Arglwydd,
Glywer beunydd yn y nen;
Molwch Dduw'n yr uchelderau,
Pell drigfannau'r nefoedd wen;

Molwch ef, ei holl angylion,
A thrigolion gwynfyd glân;
Unwch, seintiau, a seraphiaid,
A cherubiaid, yn y gân.

2 Molwn ninnau enw'r Arglwydd,
A'n lleferydd dreiddio'r nef;
Nid oes enw yn odidog,
Ond ei un ardderchog ef:
Pen ei saint mae'n tra-ddyrchafu,—
Pwy sy'n caru fel efe?
Can's fe'u cwyd o feddau pechod
I ddiddarfod wynfyd ne'.

---

**119.** *Mawl i Dduw.* 8.7.

Psalm 149. 1, 2, 4, 9.

1 I'R Arglwydd cenwch, ac iawn fydd,
Ryw ganiad newydd ryfedd;
A chlywer, yng nghyn'lleidfa'r saint,
Ei fawr fraint a'i orfoledd.

2 Boed Israel lawen iawn a ffraeth
Yn Nuw, a'i gwnaeth yn ddibrin;
A meibion Sïon hyfryd fon'
Yng Nghrist, eu tirion Frenhin.

3 O herwydd hoffa'r Arglwydd Ion
Ei weision cyfion odiaeth;
A gwisg y llednais sy'n y llwch
A harddwch iachawdwriaeth.

4 Yr ardderchowgrwydd hwn a fydd
I'w seintiau sydd yn credu;
Clodforwch oll yr Arglwydd nef,
O molwch ef am hynny!

## 120. *Mawl i Dduw.* 7au.

Psalm 150. 1, 2, 6.

1 HALELIWIA, molwch Dduw,
Yn y nefoedd lle mae'n byw;
Trigfan ei sancteiddrwydd glân,
Lle deffrôir y fythol gân.

2 Uned fry'r ffurfafen gref
Yn y gân a ddechreu'r nef;
A'i dadseinio'n uwch nâ'r ser
Wnelo seintiau'r byd yn bêr.

3 Mawl i Dduw trwy'r ddaear las,
Moliant rhwydd am wŷrthiau'i ras;
Mae yn gadarn i iachâu,
Ac yn caru trugarhâu.

4 Rhodded pob creadur byw
Foliant glân i'r Arglwydd Dduw;
Canwn oll â llafar dôn
Haleliwia bêr i'r Ion.

DIWEDD Y PSALMAU.

# HYMNAU.

**121.** *Atto y bydd cynhulliad pobloedd.* M. H.

Gen. 49. 10.

1 AED yr efengyl bur i ma's
Dros holl derfynau'r ddaear las;
Nes elo'r Iesu'n ben trwy'r byd,
A chyrchfa'r bobloedd atto i gyd.

2 Dyrchafer Iesu felly'n fawr,
A chwymped yr eilunod lawr;
Ac na foed enw'n glodfawr mwy,
Ond enw'r hwn ga'dd farwol glwy'.

3 Tydi y sydd, a fydd, ac o'dd,
Dy weision llwydda i wahôdd;
Na foed distawrwydd ar eu cri,
Nes llanw'th dawel deml di.

**122.** *Wele y Gauaf a aeth heibio.* M. C.

Can. 2. 11, 12.

1 AETH heibio'r gauaf chwerw du,
Yr eira oer a'r gwlaw;
Cyfododd Haul Cyfiawnder cu,
Mae hinon dda gerllâw.

2 Fry yn ffurfafen eglwys Dduw
Ei oleu disglaer sy
Yn troi pob cystudd chwerw loes
Yn hyfryd hedd i ni.

3 Mae blodau ar y dda'r yn llawn,
Grasusau pur y nef,
Oll yn arogli'n beraidd iawn
Oddiwrth ei wisgoedd ef.

4 Llais durtur yr efengyl fwyn
Sy'n datsain bro a bryn;
A phobloedd byd, fel adar mân,
Ddyrchafant gân am hyn.

---

**123.** *Myned at orsedd gras.* M. C.

1 AF at yr orsedd fel yr wyf,
Anfeidrol orsedd gras;
Datguddiaf yno 'nghlwyfau maith,
A'm holl archollion cas.

2 Anturiaf at ei orsedd fawr,
Er dued yw fy nos;
Ac mi orphwysaf, doed a ddêl,
Ar haeddiant gwaed ei gro's.

3 Mae ynddo drugareddau fil,
A chariad heb ddim trai,
A rhyw ffyddlondeb fel y môr
At ei gystuddiol rai.

4 Efe ei hun a'm gwrendy fry,
Efe a'm cwyd i'r lan;
Efe ei hun yw unig Dŵr,
A nawdd fy enaid gwan.

---

**124.** *Ar Agoriad Eglwys.* M. H.

1 AFYDD i ti, O Arglwydd mawr,
Sefydlu'th drigfan ar y llawr?
O, ynte, o'th orseddfainge fry,
Ein teml arddel i ti'n dŷ!

2 Ei muriau godwyd i dy glod,
Dy fawl adseiniont is y rhod;
A thi, gan ddisgyn lawr o'r ne',
A'th bresennoldeb llanw'r lle.

3 Dy unig Fab, ein Ceidwad ni,
Deyrnaso yma'n fawr ei fri;
A chyd â'i air aed gallu ma's,
I lonni'th blant a maeddu'th gas.

4 Ac yn y dydd mawr ola'i gyd,
Pan farno Duw holl bobl y byd,
O caffer gwel'd y magwyd llu
Yn hyn o fan i'r gwynfyd fry.

---

**125.** *Dïoddefaint Crist.* 8. 8. 6.

1 AI Iesu mawr, Câr dynol ryw,
A wela'i fry â'i gnawd yn friw,
A'i waed yn lliwio'r lle;
Fel gŵr dibrîs yn rhwym ar bren,
A'r gwaed yn dorthau ar ei ben?
Ië, f'enaid, dyma Fe.

2 Ai'm hanwyl Briod wela'i draw,
A hoelion llymion trwy bob llaw,
A'u pwyo'n drwm i dre';
A bar o ddur trwy'i dirion draed,
Ac ynteu'n marw yn ei waed?
Ië, f'enaid, dyma Fe.

3 Ai fe fu'n maddeu'n rhad i'w gas,
A'i waed fel llif o'i glwyfau ma's,
Nes agor drws y ne',
Ro'i ben tua'r llawr gan boenau llym,
Yn wirion deg heb yngan dim?
Ië, f'enaid, dyma Fe.

**126.** *Perffaith iawn.* 11au.

1 AM ddwyfol iawn, a hwnnw'n llawn a llwyr,
Mae'n cân o hyd, o fore hyd yr hwyr;
O D'wysog nen! byth ar ei ben y bo
Y mawl am hyn, gan bawb mewn bryn a bro.

2 Fe hoeliwyd draw y 'sgrifen law ar led,
Nid oes un twyll, y didwyll air a'i d'wed;
Mae croesaw'n awr, er beiau mawr a mân,
I rai fel ni trwy ffydd ymlynu 'mla'n.

---

**127.** *Genedigaeth Crist.* 6. 4.

1 AM eni Crist ein craig,
I sigo pen y ddraig,
Cyd-lawenhâwn;
Mewn cof o hyd bo'r dydd
Y daeth i'n rhoddi'n rhydd,
Moliannwn ef mewn ffydd,
O cyd-fawrhâwn!

2 I bawb o ddynol ryw
O newydd hyfryd yw
Doeth drefn ei ras!
Cael Iesu yn y cnawd,
Yn Frenhin ac yn Frawd,
I'n dwyn o'n cyflwr tlawd,
Yn isel was.

3 Rhyfedd ei gariad ef,
Enneiniog mawr y nef,
Tuag attom ni!
I'w gyfraith lanwaith lun,
Er mwyn pardynu dyn,
Fe roddodd ef ei hun
Ei waed yn lli'.

**128.** *Crist ein bywyd.* M. B. D.

AM fod yr Iesu'n fyw,
Byw hefyd fydd ei saint;
Er gorfod goddef poen a briw,
Mawr yw eu bri a'u braint;
Bydd melus dirio draw,
'Nol bod o don i don;
Yn iach ni 'ganwn maes o law
I'r ddaear ddyrus hon.

**129.** *Cariad Crist.* M. H.

1 ANFEIDROL felus yw dy hedd,
A chryf dy gariad fel y bedd;
Lle carost ti, 'does dd'wr na thân,
Nac un rhyw rwystr saif o'th fla'n.

2 Dy gariad neidiodd uchder mawr
O faith eithafoedd nef i lawr;
A dwg yn hyfryd yn ei wedd
Ryw beth ag sydd yn drech nâ'r bedd.

3 O mae dy gariad mawr ei rin
Yn llawer gwell nâ melus win!
Fe ddwg, fe god fy enaid gwan
O ddyfnder ofnau mawr i'r lan.

**130.** *Iachawdwriaeth trwy Grist yn unig.* 7.6.

1 ANGYLION doent yn gysson
Rifedi gwlith y wawr,
Rhoent eu coronau auraidd
O flaen y faingc i lawr;
A chwarient eu telynau,
Ynghŷd â'r saint yn un;
Byth, byth ni chanant ddigon
Am dduwdod yn y dyn.

2 Ni fu'sai gennyf obaith
Am ddim ond fflammau syth,
Y pryf nad yw yn marw,
A'r t'wyllwch dudew byth :
Ond bu'sai i'r hwn a hoeliwyd
Ar fynydd Calfari,
O ryw anfeidrol gariad,
I gofio am danaf fi.

**131.** *Hyder ffydd ar yr addewid.* 8. 7.

1 AR dy enw mae'r cenhedloedd,
Yn nherfynau eitha'r byd,
Yn rhoi goglud, gan ddymuno
Gweled tegwch d'wyneb-pryd :
Mae dy eiriau oll yn gywir,
Llwon mawrion ydynt hwy ;
I'th sancteiddrwydd glân y tyngaist,
'Allsit dyngu i ddim oedd fwy.

2 Bellach minnau'n ëon deuaf,
Mi ymgrymmaf wrth dy dra'd,
Ac erfyniaf am drysorau
Wedi'u haddaw oll yn rhad :
Rhyw drysorau heb eu mesur,
Rhyw drysorau heb ddim trai,
Rhyw ddyfnderoedd heb ddim gwaelod,
Yn dy addewidion mae.

**132.** *Am arweiniad ysprydol.* 8. 7. 4.

1 ARGLWYDD, arwain trwy'r anialwch,
Fi bererin gwael ei wedd,
Nad oes ynof nerth na bywyd,
Fel yn gorwedd yn y bedd,
Hollalluog,
Ydyw'r un a'm cwyd i'r lan.

2 Colofn dân y nos i'm harwain,
Colofn niwl rho i mi'r dydd;
Dal fi pan bwy'n teithio'r mannau
Geirwon yn y ffordd y sydd:
Rho i mi fanna,
Fel na bwyf i lwfrhâu.

3 Agor y ffynhonnau melus,
Sydd yn tarddu o'r graig i ma's;
'Rhyd yr anial maith canlyned
Afon iachawdwriaeth gras:
Rho i mi hynny,
Dim i mi ond dy fwynhâu.

4 Pan bwy'n myned trwy'r Iorddonen,
Angau creulon yn ei rym;
Ti ae'st trwyddi gynt dy hunan,
Pa'm yr ofnaf bellach ddim?
Buddugoliaeth,
Gwna i mi waeddi yn y llif.

---

**133.** *O flaen Pregeth.* 8. 7. 3.

1 ARGLWYDD, danfon dy leferydd
Heddyw yn ei rwysg a'i rym;
Dangos fod dy lais yn gryfach
Nag all dyn wrthsefyll ddim:
Dos ym mla'n, nefol dân,
Cymmer yma feddiant glân.

2 Tyred allan yn dy arfau
O balasau teg y ne';
Brysia, cadw'r rhai a brynaist,
Fe'n distrywir onid ê:
Mawr yw'r llid, sy'n y byd,
I orchfygu'n henaid drud.

3 Dere bellach, dere'n ebrwydd,
Ac anadla'r gwyntoedd cryf,
Sydd yn nerthu'r pererinion
I wynebu'r gelyn hyf;
Gan wneud grym, satan llym,
Trwy anfeidrol nerth yn ddim.

**134.** *Wrth ymadael.* 8. 7.

ARGLWYDD, gollwng ni dan fendith,
Rho dy heddwch dan ein bron;
Portha'n henaid â'r gwir fanna,
Ac â'th gariad cynnes llon:
Llanw'n calon â chysuron,
Llanw'n genau byth â'th glod;
Dwg ni oll i'r nef i'th foli,
Tra bo'r nefoedd wen yn bod.

**135.** *Am fendithion ysprydol.* 8. 7. 4.

1 ARGLWYDD grasol, dyma odfa
Wedi'i rhoddi'n awr i ni,
I foliannu a gweddïo,
Ac i geisio'th wyneb cu:
Rho dy Yspryd,
I dy geisio di trwy ffydd.

2 Tyred, Arglwydd, i'n cyfarfod,
Tyn y gorchudd, rhwyga'r llen;
Gwlawia yma dy fendithion
Yn gafodydd fry o'r nen:
Nefol awel,
Chwythed yma'r odfa hon.

3 Dyro i ni yn yr odfa
Olwg newydd ar dy wedd;

Tân dy gariad yn ein calon,
Fel bo'i yma'n nefol wledd:
Nefoedd yma,
Ydyw gwedd dy wyneb cu.

**136.** *O flaen Pregeth.* 8. 7. 4.

1 ARGLWYDD, oni wnaethost addo,
Man lle byddo dau neu dri
Wedi ymgynnull yn dy enw,
Mai i'r canol deuit ti?
'Nawr cyflawna,
Dy addewid dda i ni.

2 Dyro gymmorth i ni wrando,
A chyhoeddi etto i ma's
Ddyfnder calon dyn truenus,
Ac anfeidrol olud gras;
Fel bo dyfnder,
Byth am ddyfnder yn cael son.

**137.** *O flaen Pregeth.* 8.7.

1 ARGLWYDD, rhwyga'r nef, a disgyn
O'r uchelder purwyn fry;
Fel y toddo'r holl fynyddoedd
Rhyngom sy a'th wyneb cu:
Esgyrn sychion, gwel eu hagwedd,
Oll mewn camwedd marw ŷnt;
Tyred, anadl gref, a chwytha
'Nawr oddiwrth y pedwar gwynt.

2 Gwna dy air fel cledd daufiniog,
Dorro'n rhywiog ar bob tu;
Rhwyd efengyl ddalio'i llonaid,
Pechaduriaid gredo'n llu:

Udgorn-floedd y Brenhin roddo
Ryddid gwell i bawb heb ball;
Llais y durtur lonno'r dyrfa,
Cyn 'madawo'r naill a'r llall.

---

**138.** *Ymhyfrydu yn y groes.* 6. 4.

1 ARHOSAF, ddydd a nos,
Byth bellach dan dy gro's,
I'th wir fwynhâu;
Mi wn mai'r taliad hyn,
Wnawd ar Galfaria fryn,
A'm canna'i oll yn wyn,
Oddiwrth fy mai.

2 Yn nyfnder dw'r a thân
Calfaria fydd fy nghân,
Calfaria mwy;
Y bryn ordeiniodd Duw
Yn nhrag'wyddoldeb yw,
I godi'r marw'n fyw,
Trwy farwol glwy'.

---

**139.** *Llyn Bethesda.* M. B. D.

Ioan 5. 2—9.

1 AR lan y llyn yn wir
Y bum yn hir a maith,
A dyfal ddisgwyl iechyd gwiw
I'm henaid yw fy ngwaith:
Y dw'r cynhyrfa'n awr,
Ti Angel mawr fy Nuw;
3 Dyolch fi bellach yn dy wa'd,
Cchâr fi'n rhad tr'wy' byw.

2 O'th ystlys caed yn rhad,
Do, dd'wr a gwa'd cyn hyn;
Ac nid oes gennyf neb ond ti
A'm bwrw i i'r llyn:
Pa fodd arhosa'i 'n hwy?
Yn fwyfwy â fy mriw;
O golch fi bellach yn dy wa'd,
A châr fi'n rhad tr'wy' byw.

**140.** *Ymledaniad yr efengyl.* 6. 8.

1 A SAIN efengyl gras
Dros gyrrau'r dda'r i gyd,
Bydd enw Iesu mawr
I lanw hyn o fyd:
Teyrnasoedd byd a ddont yn llu
Ar fyr yn eiddo'n Harglwydd ni.

2 Daw Indiaid heb ddim rhif,
A chaethion du eu gwawr,
I 'mofyn trysor gwell
Nâ welir ar y llawr:
Er dued ŷnt, fe'u gwneir yn lân,
Ac oll mor wyn a'r eira mân.

3 Wel, dos, efengyl fwyn,
I gonglau pella'r byd;
Na foed un ardal mwy
Heb iachawdwriaeth ddrud:
Dychwel Baganiaid gwyn a du,
Ac aros hefyd gyd â ni.

**141.** *Nerth a gras yng Nghrist.*

1 AT wedd dy wyneb nid yw ddir
Drysorau maith y llawr,
Mae gair o'th enau'n llawer mwy
Ei rym nag uffern fawr.

2 Dy allu yw fy nerth a 'ngrym,
Yn d' allu byddaf byw,
Rwy'n wan a llesg, ni allaf ddim,
Un funud heb fy Nuw.

3 O tyred, Arglwydd, saif wrth raid
Yn awr o blaid y gwan;
Mi soddaf mewn dyfnderoedd du,
On' ddeli di fi i'r lan.

4 Ond nerth dy ras sy'n llawer mwy
Nâ'm beiau oll o'r bron;
A'th hyfryd wên a ddichon ladd
Yr ofnau dan fy mron.

---

**142.** *Deuwch i'r dyfroedd.* M. C.

1 AWN bechaduriaid at y dw'r,
A darddodd ar y bryn,
Ac ni gawn yfed byth heb drai
O'r afon loyw hyn.

2 Mae yma drugareddau rhad
I'r tlawd a'r llariaidd rai;
A rhyw fendithion maith yn 'stor,
Sy bythol yn parhâu.

3 'Does yma eisiau byth yn bod,
Trysorau gras sy'n llawn;
Er maint yw'r yfed a'r glanhâu
Sydd fore a phrydnhâwn.

CYD-GAN.

Afon loyw redodd allan
O dan drothwy'r nef ei hunan,
3 I olchi'r euog, i olchi'r aflan,
Haleliwia, haleliwia,
Dw'r heb ddarfod, dw'r heb drai.

**143.** *Dydd Nadolig.* M. B. D.

1 BLANT ffyddlon Sïon de'wch,
A llawenhêwch i gyd,
Ym mlaen â chwi fel milwyr da,
Yn llon er gwaetha'r llid:
O hyfryd ddedwydd awr!
Messïa mawr a ga'd;
Henffych i'r dydd a'r bore daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

2 Er i ni golli'r hedd
Gynt ym mharadwys wiw,
A bod yn fyr o gadw'r fraint,
Myn'd dan ddigofaint Duw;
Ni gawsom Had y wraig
Yn gadarn graig i'n tra'd;
Henffych i'r dydd a'r bore daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

---

**144.** *Rhinwedd gwaed Crist.* 8. 8

1 BRAWD fu farw ar Galfaria,
I droseddwyr gael dïangfa;
Fe â myrdd i wledydd gwynfyd
Trwy farwolaeth fy Anwylyd.

2 Ffynnon loyw darddodd allan
Ar y groesbren i rai aflan;
Rhinwedd hon wna rai ffieiddia'
Cyn bo hir mor wyn â'r eira.

3 Maes o law bydd torf aneiri'
Yn y nef â'u cân am dani;
Oll a'u tannau am y tynna'
'N hyfryd seinio haleliwia.

**145.** *Bywyd y meirw.* M. H.

1 BYWYD y meirw, tyr'd i'n plith,
A thrwy dy Yspryd arnom chwyth;
Anadla'n rymmus ar y glyn,
Fel byddo byw yr esgyrn hyn.

2 O tyred, anadl gref, fel gynt,
Yn awr oddiwrth y pedwar gwynt!
Tyr'd, Yspryd Glân, anadla di
Ar esgyrn sychion megis ni.

---

**146.** *Hiraeth am y nef.* 6.8.

1 CAERSALEM, dinas hedd,
O na bawn yno'n byw!
O hyd cawn weled gwedd,
A llewyrch wyneb Duw;
A'r anwyl Oen fu drosof fi
Ar Galfari mewn dirfawr boen.

2 'Does ofid yno'n bod,
Na galar byth na phoen,
Gwlad yw yn llawn o glod
I Dduw a'r nefol Oen:
O ddedwydd le! O am gael byw
Byth gyd â Duw o fewn y ne'!

---

**147.** *Cariad Crist a phechod Sïon.* 8. 7. 4.

1 CARIAD Crist a phechod Sïon,
Bwyswyd yn y glorian fawr;
Ac er trymmed oedd y pechod,
3 Cariad bwysodd hyd y llawr;
'Gair gorphenwyd,
Wnaeth i'r glorian bwysig droi

2 Ar ei gariad boed fy meddwl,
Am ei gariad boed fy nghân.
Dyged swn ei ddioddefaint
Fy serchiadau oll yn lân:
Mae ei gariad,
Uwch y clywodd neb erioed.

---

**148.** *Wrth ymadael.* 8. 7.

1 CLODFORWN di, ein Ceidwad da,
Cyn myn'd oddiyma ymaith;
A rhown ein hun y funud hon
I'th ofal tirion odiaeth.

2 Pan ŷm y naill oddiwrth y llall,
A chyd â'r anghall hefyd,
Y Bugail da, O gwylia di
Ein henaid ni bob ennyd.

3 O am gyfarfod wrth dy wŷs
O fewn i'r llys trag'wyddol;
A gorphwys oll ar Sabbath gwell
Fry yn dy babell nefol!

---

**149.** *Ar ddechreu blwyddyn.*

1 CLODFORWN ein Cynhaliw
Am ei fendithion helaeth:
Profasom hyd y flwyddyn hon
Ei ofal tirion odiaeth.

2 Bu llynedd farw llawer un,
A ninnau sy'n heneiddio;
Cawn bawb ein harwain cyn bo
Trwy angeu i dir ango'.

3 Nis gwyddom beth y sydd o'n ria
Pa ddw'r neu dân, neu dri

Ein cysur yw fod Crist o'n rhan,
I'n tywys trwy'r anialwch.

4 Os arbed y Gwinllanydd hael
Ei brennau gwael anfuddiol,
O dygwn 'leni gyflawn lwyth
O beraidd ffrwyth rhagorol.

---

## 150. *Defnyddioldeb yr Ysgrythyr* S. 7.

1 CLOD i Dduw am ei Ysgrythyr!
Addysg cywir gair yn hon;
Nawdd i'r euog, gras i'r aflan,
I'r anniddan heddwch llon:
Rhyddid llawn i'r caeth a'r llwythog,
I'r blinderog esmwythâd;
Ac i holl alarwyr Sïon
Y cysuron pura'n rhad.

2 Buddiol yw i athrawiaethu,
I geryddu anwar rai:
Mewn cyfiawnder i hyfforddi,
Ac i ddangos i ni'n bai:
Nodir ynddi ffordd y bywyd,
I ochelyd uffern ddu;
Ffordd i'n dwyn trwy afon angau
I drigfannau'r gwynfyd fry.

3 Gras i'w darllen dyro, Iesu,
4 Ac i'w dysgu heb lesgâu;
1 Gras i'w chwilio, gras i'w gwrando,
Ac i'm mewn ei gwir fwynhâu:
Ael y meddwyf hir amynedd,
3 A diddanwch, dan y groes;
'Gaim fywyd sy'n anfarwol
Wbaith bywiol trwy fy oes.

**151.** *Tosturi a chyd-ymdeimlad Crist.* 8. 7.
Heb. 4. 15. Mat. 12. 20.

1 COFFAWN yn llawen gyd â pharch
Am ras ein Harch-offeiriad;
Un yw o galon dyner iawn,
A llawn 'mysgaroedd cariad.

2 Cyd-deimlo mae â'n natur wan,
Fe ŵyr mor egwan ydyw;
Gŵyr beth yw profedigaeth gref,
Can's profodd ef y cyfryw.

3 Ni ddiffydd lin fo'n mygu byth,
Yn fflam fe'i chwyth yn hytrach;
Y gorsen ysig chwaith ni thyr,
Y gwan fe'i gyr yn gryfach.

---

**152.** *Cofio am angeu mewn amser.* 8. 7.

1 COFIA, f' enaid, cyn it' dreulio
D'oriau gwerthfawr yn y byd;
Cyn ehedeg ffwrdd oddiyma,
P'un a ge'st y trysor drud;
Ym mha ardal bydd fy lletty,
'Fath bryd hynny fydd fy ngwedd;
P'un ai llawen neu gystuddiol
Fyddaf fi tu draw i'r bedd?

3 Iesu hawddgar, gras i'th ddewis,
Nerth i ddilyn ôl dy dro'd;
Yna caiff fy enaid hedeg,
I'r dedwyddwch uwch y rhod:
Tra bo'm pridd yn ymgymmysgu
A'r hyn ydoedd ef ryw bryd,
Llewyrch wyneb Duw ddisgleiria
Rannau f' enaid oll i gyd.

**153.** *Gariad Crist.* M. H.

1 CYD-FOLED y nefolion fry,
A'r holl dduwiolion ar y llawr,
Ein Ceidwad cryf, a'n Cyfaill cu,
Ein Prïod mwyn, a'n Prynwr mawr.

2 Ar aden cariad hedodd Crist
I'r ddaear wael o'r nefoedd wen,
I achub pechaduriaid trist,
A'u dwyn i'r llys tu fewn i'r llen.

3 Y ffordd i'r nef yn rhydd a wnaed
Trwy rinwedd ei gyfryngdod ef;
Anfeidrol werthfawr yw ei waed,
A'n prynodd ni i feddu'r nef.

4 Yr Iesu gâr ei eglwys gu,
Tra bo'n y byd trofaus yn byw;
A gwledda'r saint anfarwol fry
Dros fyth ar gariad tirion Duw.

---

**154.** *Y cyfammod gras.* 10au.

1 CYFAMMOD hedd, cyfammod cadarn Duw,
Ni syfl o'i le, nid ïe a nage yw;
Cyfammod pur, ni chyfnewidir chwaith,
Er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith.

2 Cyfammod gwell, a ddaeth o bell i'r byd,
Sydd fel y môr yn llawn o drysor drud;
Cyfammod llawn, lle trefnwyd iawn i'n Ior,
Cyn llunio llawr, un mynydd mawr na môr.

3 Cyfammod rhad, o drefniad UN yn Dri,
Hen air y llw a droes yn elw i ni;
Mae'n ddigon cryf i'n codi fynu'n fyw,
Ei rym o hyd yw holl gadernid Duw.

4 Gwna fi fel pren plannedig, O fy Nuw!
Yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw;
Ei wraidd ar led, a'i ddail heb wywo mwy,
Yn ffrwytho dan gafodydd marwol glwy'.

**155.** *Cyfiawnder Crist.* 10au.

1

CYFIAWNDER pur, cyfiawnder Adda'r Ail,
Mae hwn heb gel yn ddisglair fel yr haul;
O Fethle'm wael i fynydd Calfari
Fe'i gwnawd yn llawn, mae'n addas iawn i ni.

2

Gwisg ryfedd rad, a gwisg ddiwniad yw,
Gwisg hyfryd lân, gwisg gyfan rodd fy Nuw;
Gwisg hardd ei llun, gwisg nad oes un fel hi,
A gwisg ddidrâul, wnaeth Adda'r Ail i ni.

3

Gwisg drefnodd gras, gwisg fy mhrïodas yw,
Gwisg ddeil i ma's, gwisg addas hardd ei lliw;
Gwisg nad â'n hen, o liain gwyn a glân,
Fe'm ceidw hon rhag gwreichion uffern dân.

**156.** *Y trydydd Colect yn yr Adfent.* 8.7.4.

1 CYN it' ddyfod gynt i drigo
Gyd â dynion, Arglwydd glân,
Ti ddanfonaist dy Genhadwr
I bar'tôi dy ffordd o'th fla'n:
Dyro heddyw,
I'th genhadon gyfryw ras.

2 Caniattâ i'th weinidogion,
A gor'chwylwyr da dy dŷ,
Lwyr arloesi ffordd it' etto
I galonnau myrdd diri';
Trwy droi'r cyndyn,
I ddoethineb pur dy saint.

3 Yna ar dy ail ddyfodiad,
I iawn farnu dynol ryw,
Ceir ni'n bobl gymmeradwy
Yn dy olwg, O ein Duw!
Trwy ryglyddon,
Dy oddefaint ar y groes.

---

**157.** *Crefydd yn dda i ieuengctid.* M. H.

1 CYSSEGRWN fore-ddydd ein hoes
I garu'r Gwr fu ar y groes;
Mae mwy hyfrydwch yn ei waith
Nâ dim a fedd y ddaear faith.

2 Cael bod yn fore dan ei iau
Sydd ganmil gwell nâ llwybrau gau;
Mae ffordd doethineb oll i gyd
Yn gysur ac yn hedd o hyd.

---

**158.** *Y ffynnon a agorwyd.* 8.7.3

1 DACCW'r ffynnon wedi 'i hagor,
A ddisgwyliwyd amryw oes;
Ac yn llifo fel y grisial
'Maes o'i ystlys ar y groes:
Dw'r a gwa'd, rydd iachâd,
I'r pechadur mwyaf ga'd.

2 Pe bai'm pechod fel y porphor,
Neu o bwys y bryniau mawr,

A rhifedi maith fy meiau
Fel rhifedi gwlith y wawr;
Yma mae, ffrwd ddidrâi,
Sydd yn golchi pob rhyw fai.

**159.** *Ar ddiwedd blwyddyn.* 8. 7.

1 DAETH etto ben y flwyddyn hon,
Mae arall bron ymwawrio;
Holl oesoedd byd o dro i dro,
O do i do ant heibio.

2 Mae'r byd ysprydol, ddydd a nos,
Yn agos agos attom;
Nid oes ond llen marwoldeb brau,
A dyr yr angau, rhyngom.

3 Mi glywaf lais o alwad gref,
Uwch uwch mae'r llef yn galw,
"Pwy â i'w daith yn nesaf un?"
Ai fi fy hun fydd hwnnw?

4 O f'enaid, cais, cyn angau glas,
Sancteiddiol ras i'th buro;
Cais wir adnabod Prynwr byd,
Mae bywyd bythol ynddo.

**160.** *Gweddi.* M. H.

1 DAL fi, fy Nuw, dal fi i'r lan,
'N enwedig dal fi lle'r wy'n wan;
Dal fi yn gryf nes myn'd i ma's
O'r byd sy'n llawn o bechod cas.

2 Gwna fi'n gyfoethog ym mhob dawn,
Gwna fi fel halen peraidd iawn;
Gwna fi fel seren oleu wiw,
Ddisgleirio yn y byd rwy'n byw.

3 Dysg fi, fy Nuw, dysg fi pa fodd
I ddweyd a gwneuthur wrth dy fodd;
Dysg fi ryfela'r ddraig heb goll,
Ac i orchfygu'm pechod oll.

4 Tra caffwyf rodio'r ddaear hon,
Rho'th hedd fel afon dan fy mron;
Ac yn y diwedd moes dy law
I'm tywys mewn i'r nefoedd draw.

**161.** *Dydd y Farn.* 7. 6.

DAW dydd o brysur bwyso
Ar grefydd cyn bo hir;
Ceir gwel'd gan bwy mae sylwedd,
A phwy sydd heb y gwir:
O Dduw, rho i mi deimlo
Ar f' yspryd ôl dy law;
Fel meddwy'r nôd a'r argraph
Arddelir ddydd a ddaw.

**162.** *Llwyddiant yr efengyl.* 6.4.8.7.

1 DAW'r garreg oddi draw,
A dorrwyd nid â llaw,
Lle treigla hon,
Bydd llawer bron mewn braw:
Cynnyddu wna fel mynydd mawr,
Fe gwymp allorau Baal i'r llawr,
Y nos ym mhell a redodd,
Agorodd dorau'r wawr.

2 Daw'r Indiaid du eu lliw
I 'mofyn am Fab Duw,
Ac esgyrn sych
Eseciel wych yn fyw:

Yn dorf hwy safant ar eu tra'd,
I foli'r Oen a'i werthfawr wa'd,
Nes adsain bro a bryniau
Hosanna am lesâd.

---

**163.** *Yr yrfa ysyrydol.* 8. 7.

1 Cor. 9. 24—27. Heb. 12. 1, 2.

1 DEFFRO, f'enaid, rhed dy yrfa,
D' yrfa nefol, er mor faith;
Ti gei goron anllygredig,
'Nol cyrhaeddyd pen dy daith:
Llais dy Dduw yn galw arnat
O drigfannau'r gwynfyd fry,
Llaw dy Dduw yn dala'r goron
Draw o flaen dy lygaid, sy.

2 Tystion lawer sydd o'th amgylch,
Seintiau ac angylion glân;
Ymaith â phob pwys a phechod,
Ac ymestyn fyth ym mla'n:
Rhed dy yrfa'n amyneddgar,
Cadw'th olwg ar y groes;
Cofia'r hwn yn lle'r llawenydd
Ddïoddefodd angau loes.

3 Diystyrodd E'r gwaradwydd
Pan fu farw yn dy le;
Ar ei ben yn awr disgleiria
Goron benna' Brenhin ne':
Edrych arno am gynhorthwy,
A rhydd i ti nerth yn rhad;
I dir gwynfyd dwg yr Iesu
Bawb ddilyno ôl ei dra'd.

**164.** *Gweddi.* 8.7.

1 DERBYN, Arglwydd, yn dosturiol
Weddi'th bobl yn y byd;
Fry i'th lys eu llef pan ddelo,
Clust-ymwrando bob rhyw bryd:
Dysg ni ofyn fel y dylem,
Atteb bob erfyniad iawn;
Dyro i ni dy drugaredd,
Estyn bob ysprydol ddawn.

2 Agor lygaid ein meddyliau,
Goleu'th Yspryd i ni moes;
Dangos beth a ddylem wneuthur
Er ein cysur trwy ein hoes:
Estyn hefyd i ni allu
I gyflawni yr un-rhyw;
Er mwyn Iesu a fu farw,
I bechadur brwnt gael byw.

---

**165.** *Tyred at Grist a chroesaw.* 8.7.4.

1 DEUWCH, bechaduriaid tlodion,
Clwyfus, cleifion, o bob rhyw;
Crist sydd barod i'ch gwaredu,
Llawn tosturi yw Mab Duw:
Nac amheuwch,
Cryf ac ewyllysgar yw.

2 Rai anghenus, de'wch, a'ch croesaw,
I gael rhoddion Duw yn rhad;
Cewch faddeuant a thangnefedd,
A phob gras yn ddinaccâd:
De'wch heb arian,
Prynwch gan yr Iesu'n rhad.

3 De'wch, flinderog a thrymlwythog,
Trwy y cwymp ga'dd farwol friw;
De'wch at Iesu tra mae'n galw,
Ganddo cewch orphwysdra gwiw:
Pechaduriaid,
Nid rhai cyfiawn eilw Duw.

**166.** *Deuwch i'r Briodas.* 8. 7. 3.

1 DEUWCH, hil syrthiedig Adda,
Daeth y Jubil fawr o hedd;
Gelwir yma bawb o'r enw,
I fwynhâu trag'wyddol wledd:
Bwrdd yn llawn yma gâwn,
O foreuddydd hyd brydnhâwn.

2 De'wch, y deillion, de'wch y cloffion,
De'wch, y gwywedigion rai;
Ymadêwch â'r hyn ag oeddych
Gynt yn hoffi ei fwynhâu:
Chwi gewch win, nefol rin,
Yma i'w yfed yn ddi-brin.

3 Ceisiwch wisgoedd y brïodas,
Gwisgoedd hyfryd hardd eu lliw;
Nid oes enw teilwng arnynt,
Ond cyfiawnder pur fy Nuw:
Lliain main ydyw'r rhai'n,
Sydd yn cuddio pob rhyw 'staen.

**167.** *Ffoi am noddfa.* 6. 4. 8. 7.

DE'WCH, dew'ch o fawr i fân,
Cyn delo'r diluw tân,
I'r arch mewn pryd,
Fe lysg y byd yn lân:

O ddinas distryw brysiwch, ffowch,
Ar y gwastadedd nac ymdrôwch,
I sanctaidd fynydd Sïon,
O ddynion, pa'm na ddowch?

**168.** *Swpper yr Arglwydd.* M. C. D.

DIOLCHGAR fom, bob enaid byw,
Am ras Oen Duw roes iawn,
Bendithion llawn, cysurol hedd,
Digonedd ynddo gawn:
Ein porthi mae â'i gorph a'i wa'd
Mewn anial wlad yn awr;
A gwledda gawn dros fyth yngh ŷd
Mewn llonfyd uwch y llawr.

**169.** *Gweddi.* 8. 7. 4.

1 DISGYN, Iesu, o'th gynteddoedd,
Lle mae moroedd mawr o hedd;
Gwel bechadur sydd yn griddfan
Ar ymyloedd oer y bedd:
Rho i mi brofi,
Pethau nad adnabu'r byd.

2 Rho oleuni, rho ddoethineb,
Rho dangnefedd fo'n parhâu;
Rho lawenydd yn ddi-ddiwedd,
Rho faddeuant am bob bai:
Triged d' Yspryd
Yn ei deml dan fy mron.

**170.** *Dyfodiad Crist yn y cnawd.* M. C.

1 DRAW hyfryd lais efengyl lon,
Mae'n Ceidwad mawr yn dod;

Pob calon drist groesawed Grist,
Pob llais a gano'i glod.

2 Dod mae i ddwyn y caethion prudd
I ryddid meibion Duw;
Y pyrth o bres a dyr o'i flaen.
A'r holl gadwynau'n friw.

3 Dod mae i roi i'r enaid dall
Y goleu pura' sydd;
Y rhai fu'n hir mewn tywyll nos
Gant hyfryd nefol ddydd.

4 Dod mae i rwymo'r galon friw,
Y cleifion a iachâ;
Newyddion da i'r llariaidd dwg,
Bendithio'r isel wna.

3 Ein cân o fawl, Dywysog hedd,
Dyledus yw i ti;
A'r dda'r a'r nef a unant mwy,
I roi it' barch a bri.

---

**171.** *Am gyflawniad yr addewidion.* 8.7.4.

1 DROS y bryniau tywyll niwlog,
Yn dawel, f'enaid, edrych draw;
Yr addewidion sydd i esgor
Ar ryw ddyddiau gwych ger llaw:
Nefol Jubil,
Gad im' wel'd y bore-wawr.

2 Gwawria, gwawria, hyfryd fore,
Ar ddiderfyn fagddu fawr,
Nes bo bloedd yr udgorn arian
Yn dadseinio'r nen a'r llawr,
Holl derfynau,
Tir Immanuel i gyd.

3 Hed, fel mellden bur efengyl,
A gorchfyga oll yn lân;
Bydded i'th gyffiniau ehang
Ymhelaethu fyth ym mla'n;
A'th lywodraeth,
Dros y moroedd maith i gyd.

---

**172.** *Darostyngiad a dyerhafiad Crist.* M. C.

Psalm 8. 5—9. Heb. 2. 7, 8.

1 DUW, aed ar led dros wyneb llawr,
Dy enw mawr a'th glod;
Cyhoedded gwŷr a phlant un wedd
Dy fawredd is y rhod.

2 Dy Fab trag'wyddol wnaethost ti—
Mewn parch a bri boed ef!
Yn is nâ'i engyl glân ei hun,
I godi dyn i'r nef.

3 Ac wedi godde'r groes yn fwyn,
A dwyn ein cosp i gyd,
Yn goron lân rhoi'st arno'n llon
Ogoniant nefol fyd.

4 Ar waith dy ddwylaw yn y nef
Y gwnaethost ef yn ben;
Gosodaist bob peth dan ei dra'd
Ym mhob rhyw wlad is nen.

5 Duw, aed ar led dros wyneb llawr
Dy enw mawr a'th glod;
Cyhoedded gwŷr a phlant un wedd
Dy fawredd is y rhod.

## 173. *Gweddi dros Weinidogion.* 8. 7. 4.

1 DUW a Thad y trugareddau!
Gwrando'n taer ymbiliau ni;
Deisyf ydym dros y rhei'ny
Sy'n deisyfu drosot ti:
Yn ddeisyfwyr,
Tra llwyddiannus byddont hwy.

2 O mor fawr eu gwaith a'u gofal!
Arglwydd, cynnal hwy a'th law;
Gwir oleua eu meddyliau,
Gyr eu hofnau mwyaf draw:
Gwna hwy'n wresog,
Yn yr yspryd tra bont byw.

3 Troi troseddwyr a'u hyfforddi,
Dyfal borthi'th braidd mewn pryd,
Hau y gwerthfawr had yn brysur,
Fyddo'u difyr waith o hyd:
Myrdd fo'n gwrando,
O'u gwefusau'r hyfryd lais.

4 Caethion pechod ddelo'n rhyddion,
Gwiw gysuron fo i'r gwan,
Teyrnas satan fo'n adfeilio,
Sïon godo'i phen i'r lan:
Gwir oleuni,
Lanwo'r ddaear faith i gyd.

---

## 174. *O'r Litani.* M. H.

1 DUW Dad, o'r nef, a roist mewn pryd,
O'th gariad cryf, dy Fab i'r byd!
I ni wir bechaduriaid mawr
Dy ras maddeuol dyro'n awr.

2 Duw Fab, ein mwyn Iachawdwr mad,
A'n prynaist oll â'th werthfawr wa'd!
I ni wir bechaduriaid mawr
Dy ras iachusol dyro'n awr.

3 Duw Yspryd Glân, Ddiddanydd gwiw,
Sy'n gwneud yr enaid marw'n fyw!
I ni wir bechaduriaid mawr
Dy ras bywhaol dyro'n awr.

4 Y Drindod lân fendigaid byth,
Tri Pherson, ac Un Duw dilŷth!
I ni wir bechadnriaid mawr
Hedd, gras, a bywyd, dyro'n awr.

**175.** *Duwioldeb yr elw goreu.* 7.6.

1 Tim. 4. 8. a 6. 6.

DUWIOLDEB ydyw'r elw
A phob peth ganddi sy,
Sy'n eisiau ar y ddaear,
Ac yn y nefoedd fry;
Mae'n meddu ar addewid
O'r bywyd sydd yn awr,
A'r hwn sy'n para hefyd
Trwy drag'wyddoldeb mawr.

**176.** *Ympryd yn amser rhyfel.* M. H.

1 DUW mawr y nefoedd a'r holl fyd,
Rho glust i'n huchel lef ynghŷd;
Gwel Brydain heddyw'n brudd ei gwedd,
O'th flaen yn erfyn am dy hedd.

2 Yn gyfiawn am ein beiau mawr,
Ein bygwth wyt â'th farn yn awr;
Ond attat ffown am noddfa rad
Rhag pob rhyw ddrwg i ni a'n gwlad.

3 O arbed ni, er maint ein bai,
A chyd â hyn, o'th ras didrâi,
Diwygia'n gwlad, diwygia ni,
A gwna ni'n ffyddlon bobl i ti.

**177.** *Deued dy deyrnas.* 8. 7. 4.

1 DUW, teyrnasa ar y ddaear,
O'r gorllewin bell i'r de';
Cymmer feddiant o'r ardaloedd
Pellaf, t'wyllaf, is y ne';
Haul cyfiawnder,
Llanw'r ddaear fawr â'th ras.

2 Taened gweinidogion bywyd
Iachawdwriaeth Crist ar led;
Caried moroedd addewidion
Trosodd draw i'r rhai digrêd;
Aed efengyl,
Ar adenydd dwyfol wynt.

3 Doed preswylwŷr yr anialwch,
Doed trigolion bro a bryn,
Doed y rhai sydd ar y ce'nfor
'Garu'r iachawdwriaeth hyn;
Nes bo adsain,
Moliant yn amgylchu'r byd.

**178.** *Dros y Brenhin.* M. H.

1 DY fendith, Lywydd nef a llawr,
Pryd hyn i Frenhin Prydain Fawr!
A'r goron hardd ro'ist iddo ef,
Ymddiffyn â'th ddeheulaw gref.

2 Ufuddol barch, dyledus doll,
A gaffo gan ei ddeiliaid oll;

Mewn cof mai ti o'th orsedd fry
A drefna'r awdurdodau sy.

3 Dy roddion goreu fo i'w ran,
Dy law o hyd i'w ddal i'r lan;
Mewn rhyfel hyll, a rhyfyg hedd,
Dïogel fyddo hyd ei fedd.

4 Ac oh! pan elo'n ulw'r byd,
Ei thronau a'i goronau i gyd,
Caed bwys gogoniant ar ei ben,
A gorsedd newydd yn y nen.

---

**179.** *Ar ddechreu blwyddyn.* M. C.

1 DY glod, O Dduw, dy deilwng glod,
Cyd-seinier ef trwy'r byd;
Dy law sy'n troi y ddaear gron,
A rhoi'r tymhorau i gyd.

2 I ti, ein Tad, a'n Ceidwad da,
Y rhoir blynyddol fawl;
Tra disgyn trugareddau fyrdd
Yn ffrwd o dir y gwawl.

3 Ym mhob amgylchiad, a phob oes,
Dy ofal brofwn ni;
A'n moliant fyddo mor ddi-baid
Ag yw dy ddoniau di.

4 Ym mhob amgylchiad, a phob oes,
Dy gariad brofom byth;
Ac ar y flwyddyn newydd hon
Dihidled nefol wlith.

5 Os gwena hedd, O dyged 'nol
Yr enaid grwydra draw;
A than geryddon canu wnawn,
Os cariad gwyd dy law.

**180.** *Crist, sylwedd y cysgodau.* 8. 7.

DYMA Babell y cyfarfod,
Dyma Gymmod yn y gwa'd;
Dyma Noddfa i droseddwyr,
Ac i gleifion Feddyg rhad:
Dyma fan yn ymyl Duwdod
I bechadur wneud ei nyth,
A chyfiawnder pur y nefoedd
Wena'n siriol arno byth.

---

**181.** *Ceidwad digonol.* 8. 7. 4.

1 DYMA Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
Dyma un yn caru maddeu
I droseddwyr mawr eu bai:
Diolch iddo,
Byth am gofio llwch y llawr.

2 Os trwy filoedd o gystuddiau
Rhaid im' etto fyn'd ym mla'n,
Yn dy allu af trwy'r dyfroedd,
Yn dy allu af trwy'r tân:
Noddfa i mi,
Bydd dy hunan, Arglwydd mawr.

---

**182.** *Ar ddydd Nadolig Crist.* 8. 7.

1 DYMA'r dydd y ganed Iesu,
Dyma'r dydd i lawenhâu;
Arglwydd nef a ddaeth i brynu
Dynol-ryw a'u llwyr lanhâu:
Gwelwyd Iesu dan ei loesau,
Iddo preseb oedd yn grud;
Bu yn wan, fel buom ninnau,
Seiliwr nefoedd faith a'r byd.

2 Daeth o wlad y pur ogoniant,
Gadodd wychder tŷ ei Dad;
Prynodd ef i bawb a'i carant
Deyrnas nef yn rhodd, yn rhad:
Dyma gariad haeddai'i gofio
Mewn anfarwol gân ddi-lyth;
Yn y cariad hwn yn nofio
Boed fy enaid anwyl byth.

---

**183.** *Am barodrwydd i gyfarfod â Duw.* 8.8.6.

1 DY ras iachusol rho, O Dduw,
A nerth i gofio tra fom byw,
Fawr bethau'r bythol fyd;
Rho i ni'n barod fod bob awr,
I sefyll yn y frawdle fawr,
Trwy fyw i ti o hyd.

2 Sicrhâu ein galwedigaeth wen
Fo'n hamcan pennaf is y nen,
Ein gofal mawr a'n gwaith;
Cyflawni'th gyngor doeth a gwir,
A goddef dy ewyllys bur,
A phara' i ben ein taith.

3 Ac yna derbyn di, O Dduw,
Ein henaid drud o'r byd, i fyw,
Ac i deyrnasu byth,
Lle collir ffydd mewn golwg iawn,
A gobaith mewn hyfrydwch llawn,
A chariad pur dilŷth.

---

**184.** *Cyfarfod Ysgolion Sabbathol, &c.* M.H.

Y GYNNULLEIDFA.

1 DYRCHEFWCH oll eich llais yn awr,
I ganu mawl i'r Ceidwad mawr;

Er hyn 'does neb ond teulu'r nef
Fynega faint ei gariad ef.

Y PLANT.

2 Mewn geiriau mwyn ei gariad mawr
Fendithiodd blant ar wyneb llawr;
Mae croesaw fyth i'r cyfryw rai
I geisio'i ras a'i hedd didrâi.

3 Pen Fugail mwyn y defaid mân!
Eu porthi mae a'u dwyn ym mla'n;
A'r gweinion ŵyn i'w fynwes glyd
A gymmer ef trwy'r anial fyd.

Y GYNNULLEIDFA.

4 Iachawdwr da! i'th ofal di
Ein gwirion blant a roddwn ni;
I ni a hwy rho nerth o hyd
I gadw'r ffordd i'r nefol fyd.

---

**185.** *Myned at orsedd gras.* 7. 6.

1 DYWEDODD anghrediniaeth,
Do, wrthyf lawer gwaith,
Am beidio blino'r Athraw,
Mai ofer fyddai 'ngwaith;
Af at yr orsedd etto,
Er dued yw fy lliw;
Pwy ŵyr na chaf drugaredd?
Un rhyfedd iawn yw Duw.

2 Un yw yn medru maddeu
Pechodau rif y gwlith;
'Does mesur ar ei gariad,
Na therfyn iddo byth:

Mae'n 'mofyn lle i dosturio,
Yn hoffi trugarhâu;
Trugaredd i'r ymddifad
Sydd ynddo i barhâu.

**186.** *Emmanuel.* 8au.

1 EIN Duw ymddangosodd mewn cnawd,
A wisgodd holl natur y dyn,
Y Cyfaill anwylach nâ brawd,
Ei gariad melusach nâ'r gwin;
Ei wyneb mil harddach nâ'r wawr,
Ei aberth mwy gwerthfawr nâ'r byd;
Fe dalodd bob dyled i lawr,
Dilëodd y 'sgrifen i gyd.

2 Fel fflammau angerddol o dân
Yw cariad f' Anwylyd i ddyn;
Fe losgodd bob rhwystr o'i fla'n,
Fe yfodd o'r afon ei hun:
Ymafiodd mewn dyn ar y llawr,
Fe'i dygodd â'r Duwdod yn un;
A'r pellder oedd rhyngddynt mor fawr
A lanwodd â'i haeddiant ei hun.

**187.** *Ar y Sulgwyn.* M. H.

1 EIN mawl a dreiddio entrych nen,
Ein Harglwydd byw a aeth uwch ben,
Sy'n anfon lawr ei Ysbryd Glân,
I buro dyn â'i nefol dân.

2 I'r enaid rhydd o'i ddawn yn rhad
Ail fywyd gwell trwy rin y gwa'd;
A chwyd y meirw caeth i ma's
O feddau cau camweddau cas.

3 Amlygu mae oludoedd Crist
I ddynion tlodion, gweinion, trist;
Yn deml i Dduw gwna enaid dyn,
Ac iddo rhydd ei ddelw ei hun.

4 Tyr'd, Yspryd Glân, o'th breswyl fry,
A'th nefol dân i'n mynwes ni;
O tyr'd, fel nerthol wynt i lawr,
Gwna hwn i ni yn Sulgwyn mawr.

**188.** *Pob peth yn cyfnewid ond Crist.* 11au.

1 FE dderfydd y llysiau sydd aml o ryw,
Y blodau arogledd a llonwedd eu lliw;
Eu tegwch a wywa, diflannant o'u lle,
Ond byth ni chyfnewid Tywysog y ne'.

2 Fel glaswellt y bobl ddarfyddant bob un,
Y trawsion, y cedyrn, a'r tlawd yn gyttûn;
Cyfnewid eu tegwch, a syrthiant o'u lle,
Ond byth ni chyfnewid Tywysog y ne'.

3 Fe bery yn gywir mewn tristwch a thrai,
Yn gyfaill pur ffyddlon pan ballo pob rhai;
Fe bery yn angau, fe'n cymmer i dref,
A byth ni chyfnewid Tywysog y nef.

**189.** *Dyddiau da i ddyfod.* 11au.

Joel 2. 28. Act. 2. 17.

1 FE welir rhyw ddyddiau, fy Arglwydd a'i gŵyr,
Pan darddo goleuni yng nghysgod yr hwyr;
Pan ddelo'r gorllewin, y dwyrain, a'r de',
A'r gogledd, i brofi cafodydd y ne'.

2 Fe gwymp yr addewid ar ddinas a gwlad,
Addewid ffyddlonaf, addewid y Tad;

Tywelltir yr Yspryd fel moroedd didrâi,
Ar lwythau'r holl ddaear yn fwy ac yn llai.

3 O ddyddiau dedwyddaf, prysurwch ym mla'n,
Ymwawriwch yn fuan ar fawr ac ar fân!
O Yspryd yr Arglwydd, anadla'n dy bryd,
Ar bawb sydd yn feirw mewn camwedd trwy'r byd.

**190.** *Gogoniant yr Eglwys.* M. C. D.

FE welir Sïon fel y wawr,
Er gwaeled yw ei gwedd,
Yn dod i'r lan o'r cystudd mawr,
'Nol agor pyrth y bedd;
Heb glaf na chlwyfus yn ei phlith,
Yn ddisglaer fel yr haul,
Yn y cyfiawnder dwyfol byth,
A gaed trwy Adda'r Ail.

**191.** *Ffordd newydd.* M. H.

1 FFORDD newydd wnawd gan Iesu Grist,
I fyned heibio uffern drist;
Wedi'i phalmentu ganddo ef
O ganol byd i ganol nef.

2 Ffordd sanctaidd yw, a mawr ei bri,
Ni cherdd yr halogedig hi;
Ond gwaredigion mwynion cu,
Sy'n teithio i Gaersalem fry.

3 I'r nefoedd aethost, Iesu gwiw,
A thrwyddot fyrdd o Israel Duw;
Rho nerth i ddilyn ôl dy dro'd,
Nes dod i'm cartref uwch y rhod.

## 192. *Dydd Nadolig Crist.* M. H.

Luc 2. 8—14.

1 FY enaid deffro, dyma'r dydd
I weled Crist â golwg ffydd;
A chlywed araeth angel Duw,
Am eni Ceidwad dynol ryw.

2 Ei gennadwri dirion ef
Oedd, "Ewch hyn dro i Bethl'em dref;
Mewn preseb gwael yn faban byw
Cewch weled Ceidwad dynol ryw."

3 Daeth gydag ef angylion lu,
Yn bêr eu cân y bore cu;
Nefolion gaed yn moli Duw,
Am eni Ceidwad dynol ryw.

4 "I Dduw gogoniant fo uwch ben,
Tangnefedd ar y dda'r is nen;
Ewyllys da i bob dyn byw:"
Fe aned Ceidwad dynol ryw.

## 193. *Dïoddefaint Crist.* M. H.

1 FY enaid, edrych fynu fry,
I wel'd yr Oen ar Galfari;
Yn godde'n ddiddig ac yn fwyn,
Ei wneud yn felldith er dy fwyn.

2 Gwel fry ar led ei freichiau pur,
Ac ynddynt lymion hoelion dur;
A gwel fel hoeliwyd fry ei draed,
Heb orchudd drostynt ond ei waed.

3 A gwel y goron bigog, gref,
Yn pwyso ar ei arlais ef;
A'r afon goch lifeiriol fawr.
Yn tarddu tan ei fron i lawr.

4 O Iesu croeshoeliedig gwiw,
Sy'n fôr o ras i ddynol ryw!
Rho nerth i yfed gwaed dy groes,
A phrofi rhin dy farwol loes.

**194.** *Marwolaeth ac Eiriolaeth Crist.* 6. 8.

1 FY nghalon pa'm na's tyr
Yn ddrylliau bob yr awr,
Wrth wel'd fy Mhrynwr pur
A'i waed yn llif i'r llawr;
Gan wylo'n daer ar Dduw ei Dad,
Am faddeu'n rhad fy meiau mawr.

2 Rhyfelodd Crist â'r ddraig,
Trwy angau dirfawr bo'n;
Gorchfygodd Had y Wraig,
I'r orsedd aeth yr O'n;
A throsof fi mae yno'n awr,
F' Eiriolwr mawr, a'm hanwyl Ion.

3 Mae ffordd yn awr yn rhydd
I entrych nefoedd wen;
Gall pob pechadur prudd
Gael lle o fewn i'r llen:
Mae Iesu fry a'i freichiau ar led,
Fy enaid cred, Amen, Amen.

**195.** *Pererindod y Cristion.* M. B. D.

1 FY ngweddi, dos i'r nef,
Yn union at fy Nuw:
A dywed wrtho ef yn daer,
Attolwg, Arglwydd, clyw:
Cwblhâ d' addewid wych,
I'm dwyn i'r nefoedd wen;

Yn Salem fry par'to' fy lle,
Mewn llys o fewn i'r llen.

2 Pererin llesg a llaith,
Dechreuais daith oedd bell,
Trwy lu gelynion mawr eu brad,
Gan geisio gwlad sydd well:
Iachâ bob clwyf a brath
A dail y bywiol bren;
Yn Salem fry par'to' fy lle,
Mewn llys o fewn i'r llen.

---

**196.** *Cynhauaf tymherus.* 8. 7.

1 GOFALA Duw a Thad pob dawn
Yn dyner iawn am danom;
Mae'n tai yn llawn o'i roddion rhad,
O boed ei gariad ynom!

2 Y cynnar wlaw a'r tirion wlith
Ddiferant fendith iraidd;
Y dda'r a rydd ei ffrwythau da,
A'r haul gyfranna'i rinwedd.

3 Ymlawenhâwn o'i flaen yn awr,
Mae'n flwyddyn werthfawr 'leni;
Mae'r gwair a'r gwenith gwych dan gudd,
A'n meusydd wedi'i medi.

4 Am ffrwythau hael y flwyddyn hon,
A'i mawrion drugareddau,
Moliannwn enw Duw bob dydd,
Gan iawn ddefnyddio'n breintiau.

---

**197.** *Am bresennoldeb Duw.* 8. 7.

1 GOSOD babell yng ngwlad Gosen,
Dere, Arglwydd, yno'th hun;

Gostwng o'r uchelder goleu,
Gwna dy drigfan gyd â dyn:
Trig yn Sïon, aros yno,
Lle mae'r llwythau'n dod ynghŷd:
Byth na 'mad oddiwrth dy bobl,
Nes yn ulw'r elo'r byd.

2 Blinais ar afonydd Babel,
Wylo yno sydd o hyd;
Llais telynau hyfryd Sïon
Sydd yn cysson dynnu 'mryd:
Tyr'd â ni yn dorf gariadus
O gaethiwed Babel fawr,
Ac nes bo'm ar fynydd Sïon,
Na'd ni osod glin i lawr.

---

**198.** *Gwledd yr efengyl.* 6. 8.

1 GWNAETH mwyn Dywysog hedd,
A llaw anfeidrol hael,
Frenhinol freiniol wledd,
I dlodion gweinion gwael:
'Doedd dim fath fwrdd yn Eden-ardd,
Na ffrwyth mor hyfryd ac mor hardd.

2 Trugaredd, hedd, a gras,
A hoff gymdeithas Duw,
Yw'r peraidd ymborth bras,
Danteithion goreu eu rhyw:
A thaer yw'r gwawdd trwy'r byd ar g'odd,
A roir i bawb a ddel o'u bodd.

3 Y tlawd, y dall, a'r cloff,
Galarus iawn eich gwedd,

I chwi mae croesaw hoff
I'r orfoleddus wledd:
I fyrdd mae lle ac ymborth llawn,
A gwisgoedd rhad a disglaer iawn.

---

**199.** *Hyder mewn gweddi.* 6. 8.

1 GWRANDEWIR gweddi'r gwael,
Sy'n griddfan ar y llawr;
Mae'r Iesu'n eiriol fry,
Ger bron yr orsedd fawr:
Derbynir ein gwylofus lef,
Trwy rin ei waed yng nghanol nef,

2 Am hynny awn yn hŷ
At orsedd gras yn awr,
Daw'n rhwydd fendithion rhad
Trwy rin y gwaed i lawr:
Daw nerth wrth raid i'r gwanna i gyd,
A buddugoliaeth ar y byd.

2 Tyr'd, Iesu, tyr'd yn awr,
Dihidla lawr dy hedd;
Rho i ni yn dy dŷ
Fwynhâu dy siriol wedd:
Mae'th hyfryd hedd fyrddiynau'n well
Nâ holl drysorau'r India bell.

---

**200.** *Hyfryd laise, ngyl.* 8. 7.

Psalm 89. 15, 16.

1 GWYN fyd y rhai adwaenant gais,
A hyfryd lais efengyl;
Yn llewyrch wyneb Duw fwy-fwy,
Y rhodiant hwy yn gynnil.

2 Gorfoledd gwyd eu henaid cu,
Trwy enw Iesu grasol;
Yn ei gyfiawnder dont i'r lan,
I'r man mae gwynfyd nefol.

---

**201.** *Y meirw yn yr Arglwydd.* 8. 7.
Dat. 14. 13.

1 GWYN fyd y rhai yn marw sydd
Yn ffydd yr Arglwydd Iesu;
Ië, gwyn eu byd y rhai'n i gyd,
O'r glân ddiweddbryd hynny.

2 Fel hyn y d'wed yr Yspryd Glân,
Can's maent yn diddan orphwys
Oddiwrth eu llafur, mewn rhyddhâd
Dedwyddol 'stad paradwys.

---

**202.** *Bedydd Esgob.* 7. 6.
Diar. 3. 13—18.

1 GWYN fyd y sawl a garo
Yr addysg Duw a roes,
A gwir ddoethineb gaffo
Ym more-ddydd ei oes:
Mae'n well nag aur ac arian,
A'r gemmau goreu i gyd;
Rhagorach yw ei hunan
Nâ phob peth yn y byd.

2 Mae einioes hir a mwyniant
Yn ei ddeheulaw hael,
O'i haswy law gogoniant
A chyfoeth sydd i'w cael:
Ei ffyrdd i gyd yn hyfryd,
A'i llwybrau oll yn hedd,
Mae hon yn bren y bywyd
I'r dedwydd ddyn a'i medd.

**203.** *Amser yr efengyl.* M. B. D.

Can. 2. 11, 12.

1 HENFFYCH, gyfeillion da,
Fe ddarfu'r gaua' i gyd;
Yn awr mae llais y durtur lon,
Lân dirion yn y byd:
Fe ddaeth yr hyfryd haf
Yn beraidd iawn i'n tir;
Gogoniant fo i'r Iesu byw,
Fe garodd Duw ni'n wir.

2 Yn awr mae'r adar mân
Ar dân yn moli Duw;
Yn awr mae'r haul ar nefol hin
Ar rai o'r werin wiw:
Fe ddaeth y Jubili,
Ond mawr ein bri a'n braint?
Cawn fyn'd i dre' ar fyr o dro,
I seinio gyd â'r saint.

---

**204.** *Crist yn Arglwydd pawb.* M. H.

1 HENFFYCH i enw'r Iesu gwiw,
Syrthiwch o'i flaen, angylion Duw;
A choron bennaf Brenhin nef
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

2 Chwi seintiau a merthyron glân,
Ger·bron y faingc yn ber eich cân,
Rhowch iddo glod âg uchel lef,
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

3 Chwi saint trwy gyrrau'r byd i gŷd,
A brynwyd ganddo oll mor ddrud,
Cyd-unwch oll â theulu'r nef,
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

4 Doed pob rhyw lwyth, a phob rhyw iaith,
Trwy holl derfynau'r ddaear faith,
I ganu'n llafar iawn eu llef,
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

5 O na chaem gyd â'r nefol gôr,
Fry syrthio lawr wrth draed ein Ior,
Ac uno'n llon â hwy ein llef,
Yn Arglwydd pawb coronwch ef!

**205.** *Emmanuel.* 8. 7.

1 HENFFYCH Iesu'r Duw trag'wyddol,
Gwir a sanctaidd berffaith ddyn,
Dwy ryw natur mewn un Person,
Syndod nefoedd fawr ei hun!
Ti yn unig wyf yn addef
Yn llawn deilwng o fy mryd;
Ti yn unig fyddo gwrthddrych,
Fy serchiadau oll i gyd.

2 Ffynnon wyt o bob tosturi,
Nid oes gwybod faint dy ras;
A'th haelioni sydd yn cynnal
Pob peth dan yr awyr las:
Dan dy aden rasol dyner
Ce's ymgeledd lawer gwaith,
A gobeithiaf yn ddïangol
Hyfryd gyrraedd pen fy nhaith.

**206.** *Y Sabbath.* 8. 7.

1 HWN yw y dydd a drefnodd Duw
I ddynion i'w ddefnyddio,
Yn ei wasanaeth ef yn ddwys,
Gan gyflawn orphwys arno.

2 Ac anrhydeddodd Iesu'r dydd,
Ca'dd ynddo fuddugoliaeth
Ar uffern boeth, ar allu'r bedd,
Maluriodd gledd marwolaeth.

3 Yn unfryd oll cyd-folwn Dduw,
Ei wyneb heddyw ceisiwn;
Gwrandêwn ei air sy'n d'od â hedd,
A mawr orfoledd meddwn.

4 Cawn yma'n bêr ei foli byth,
Cawn ganu 'mhlith angylion;
A threulio hir Sabbathol ddydd,
Ar sanctaidd fynydd Sïon.

**207.** *Wrth ymadael.* M. H.

1 IACHAWDWR seinied nef a llawr,
Iachawdwr gyd â ni sy'n awr;
Ei gariad llawn, a'i rym fel lli',
Orlenwo ein calonnau ni.

2 Ni phery'r ymdrech ddim yn faith,
Mae eraill wedi cefnu'r daith;
Cawn fyw mewn gwlad heb unrhyw glwy',
Heb orfod byth ymadael mwy.

**208.** *Y Drindod.* 6. 8.

1 I DDUW'r anfarwol Dad
Rhown fawl â llafar lef,
Am oll fwynhâwn yn awr,
A'n gobaith am y nef:
Anfonodd ef ei Fab ei hun,
I farw dros bechodau dyn.

2 I Dduw'r trag'wyddol Fab
Boed moliant byth heb drai;
Fe'n prynodd ni â'i waed,
Fe'n ceidw ni rhag gwae:
Ar orsedd nef teyrnasa'n awr,
Gan weled ffrwyth ei lafur mawr.

3 I Dduw yr Ysbryd Glân,
Rhown oll ogoniant gwiw;
O'i allu mawr a'i ras,
Gwna'r enaid marw'n fyw:
Cwblhâu mae'r gwaith ddechreuodd Crist,
Ac estyn hedd i'r enaid trist.

4 Rhoer byth trwy'r dda'r a'r nen
Anfarwol fawl i ti,
Dad, Mab, ac Ysbryd Glân
Drag'wyddol UN a Thri;
Sef Duw ein iachawdwriaeth gref,
A'n dwg o'r byd i deyrnas nef.

---

**209.** *Ffoi at Grist am noddfa.* 7au.

1 IESU, câr fy enaid cu,
I dy fynwes gad fi ffoi,
Tra y gwynt yn uchel fry,
Tra y môr yn ymgyffrôi.

2 Cudd fi, O fy Arglwydd byw,
Nes el heibio'r ystorm gref;
Tywys fi i'r porthladd gwiw,
Arwain fi i deyrnas nef.

3 Noddfa arall gwn nad oes
Ond dy hun i'm henaid gwan;
Grym o hyd i eiddil moes,
Dd'od o'r dyrus fyd i'r lan.

4 Ynot ti fy ngobaith mae,
Yn dy ras fy nghymmorth gwiw;
Nerth rho i mi i barhâu,
Nes dod adref at fy Nuw.

**210.** *Ymhyfrydu yng Ngrist.* M. C.

1 IESU, difyrrwch f' enaid drud
Yw edrych ar dy wedd;
Ac mae llyth'renau'th enw pur
Yn fywyd ac yn hedd.

2 A than dy aden dawel bur
'Rwyf yn dymuno byw;
Heb ymhyfrydu byth mewn dim,
Ond cariad at fy Nuw.

3 'Does gennyf ond dy allu mawr,
I'm nerthu fyn'd ym mla'n;
Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,
Fy ymffrost a fy nghân.

4 Melusach nag yw'r diliau mel
Yw munud o'th fwynhâu;
Ac nid oes gennyf fwyniant sydd
Ond hwnnw yn parhâu.

**211.** *Mawl i Grist.* 8. 7.

1 IESU, Ffynnon pob bendithion,
Dysg fi 'seinio'th foliant glân;
Ffrydiau diball o drugaredd
Alwant am soniarus gân:
Dysg fi ryw felusgerdd genir
Gan dafodau tanllyd fry;
Llanw'm calon â chysurom,
Tra bwy'n canu'th gariad cu.

2 Ti a'm ceisiaist pan o'wn estron,
Crwydryn pell o gorlan Duw;
Ac i'm hachub ti gyfryngaist
Werthfawr waed dy galon friw:
I dy ras rhyw fawr ddyledwr,
Er fy mai, y bum erio'd;
A gobeithiaf, trwy'th dynerwch,
Dd'od i'm cartref uwch y rhod.

---

**212.** *Crist yn ddigon.* 8. 7. 4.

1 IESU, Iesu, 'r wyt ti'n ddigon,
'Rwyt ti'n llawer mwy nâ'r byd;
Mwy trysorau sy'n dy enw
Nâ thrysorau'r India i gyd:
Oll yn gyfan,
Gaf i'm meddiant gyd â'm Duw.

2 Y mae gwedd dy wyneb grasol
Yn rhagori llawer iawn,
Ar bob peth a welodd llygad,
Ar hyd wyneb daear lawn:
Rhosyn Saron,
Ti yw tegwch nef y nef.

3 Tarian gadarn yw dy enw,
Pan bo'r gelyn yn nesâu;
Angau'i hunan sydd yn ofni,
Angau sydd yn llwfrhâu:
Ti orchfygaist,
'Does ond canu'n awr i mi.

---

**213.** *Mawl i Grist.* 8. 7.

1 IESU'r brawd a aned ini
Erbyn pob caledi mwy;
Ffyddlon ydwyt, llawn tosturi,
Haeddit gael dy foli'n fwy:

Ti yw'r Person a ddioddefodd
Yn ein lle ddigofaint llawn;
Nes i'r Tad i weiddi, Gollwng
Ef yn rhydd, mi gefais iawn.

2 Ti wyt borth i bob anghenog,
Er dy fwyn â gweddi'r gwan,
Ac o'chneidiau'r carcharorion,
O'r pydewau mawr i'r lan:
D' enw sydd yn perarogli
Gweddi'r tlawd ger bron y Tad;
Ti wyt deilwng o'r gogoniant
Byth am faith rinweddau'th wa'd.

---

**214.** *Crist, ffynnon y bywyd.* 8. 7.

1 IESU, ti wyt ffynnon bywyd,
Bywyd dedwydd i barhâu;
Pob cysuron is y nefoedd
Ynot ti dy hun y mae:
Nis gall croes, na gwae, na chystudd,
Wneuthur niweid iddynt hwy,
Gawsant nerth i wneud eu noddfa
Yn dy ddwyfol farwol glwy'.

2 Dyna'r man na ddaw euogrwydd,
Dyfais Satan byth, na chwant;
Awel nef sydd yno'n cadw
Pob rhyw ddrygau oll i bant:
Mi gaf yno dan bob blinder
Hyfryd dreulio'm dyddiau i ma's;
Heb gael briw, na chlais, nac archoll,
Gan fy holl elynion cas.

**215.** *Crist yn arweinydd.* M. B. D.

1 I'R Iesu boed y clod,
Tra fyddo bod a byd;
Efe oedd cyn bod nef a llawr,
Efe sy'n awr o hyd,
Yn gyfaill ac yn Dduw
Pob llwythau, rhyw, ac iaith;
Efe a'n harwain ni uwch nen,
I gyd i ben ein taith.

2 O fore llawn o hedd!
Bydd yno wledd o fri,
Pan y cyhoeddir Jubil lawn
Yn hyfryd iawn i ni;
Pan fyddo'r udgorn glas,
Yn rhoddi ma's y sain,
Fod iachawdwriaeth gyflawn gun
I'r gwaelaf un o'r rhai'n.

---

**216.** *Iechyd Duw yn agos.* 6. 8.

Psalm 85, 9, 10, 12.

1 I'R rhai sy'n ofni Duw
Mae iechyd agos mawr,
Iachawdwr dynol ryw
O'r nef a ddaeth i lawr;
A holl ogoniant Duw ei hun
A drig ym Mherson Mab y Dyn.

2 Yng Nghrist cyfarfod wna
Trugaredd Duw dilŷth,
A'i bur wirionedd da,
Heb ofni ysgar byth:
Cyfiawnder glân a heddwch llon
A ymgusanant dan ei fron.

3 Ei fendith ar ein gwlad
A dywallt Duw dilŷth,
Ac ar ei air ei rad
A ddisgyn fel y gwlith:
Ar fryn a bro mae ffrwythau per,
Can's Crist ein Brenhin yw a'n Ner.

---

**217.** *Buddugoliaeth Crist.* 5. 6.

1 LLAIS hyfryd rhad ras
Sy'n gwaeddi dïangfa,
Yng nghlwyfau Mab Duw,
Bechadur, mae noddfa;
I olchi aflendid,
A phechod yn hollol,
Fe redodd ei waed
Yn ffrydiau iachusol.

2 Ar angau a'r bedd
Ca'dd lawn fuddugoliaeth,
Yspeiliodd holl rym
Y fagddu ar unwaith;
Holl filwyr ei groes
Gânt ynddo dangnefedd,
Fe'u harwain yn lân
I berffaith orfoledd.

GYD-GAN.

Haleliwia i'r Oen,
Ynnillodd faddeuant,
'Nol croesi'r Iorddonen,
Drachefn rhown foliant.

**218.** *Ac etto y mae lle.* M. H.

1 LLEFWCH, genhadon Duw, o hyd,
O wele waed Iachawdwr byd!
Cymhellwch bawb dd'od atto fe,
Mae'r Iesu'n dweyd fod etto le.

2 Chwi rai newynog, tlawd, nesêwch,
O amgylch bwrdd Messïa de'wch;
Gwrandewch ei lais a'i alwad E',
Mae'r Iesu'n d'weyd fod etto le.

3 O de'wch i wledd yr Iesu gwiw,
A phrofwch pa mor hawddgar yw;
Chwi gewch eich croesaw ganddo fe,
Mae'r Iesu'n d'weyd fod etto le.

---

**219.** *Llwyddiant yr efengyl.* M. C.

1 LLEWYRCHED gwir oleuni'n glau,
Trwy gyrrau'r ddaear gron;
Aed gras efengyl Iesu gwiw
At bob rhyw lwyth o'r bron.

2 Diflanned rhagrith, crefydd gau,
Pob pechod, bai, a chas;
A gwir dduwioldeb yn ei grym
A lanwo'r ddaear las.

3 Gorllewin, dwyrain, gogledd, de',
Fo'n ceisio'r nef ynghŷd;
Gan ganu'n llon o gylch y llawr
I Brynwr mawr y byd.

CYD-GAN.

Aed ei air i blith y werin,
Yn y dwyrain a'r gorllewin,
Yn y de' a'r gogledd gerwin,
Caner iddo, caner iddo,
Haleliwia gylch y byd.

**220.** *Duw yn angnyffredadwy.* M. B. D.

1 LLON'D nef a bydoedd maith,
Llon'd uffern hefyd yw;
Fel trag'wyddoldeb mawr ei hun,
Diderfyn ydyw Duw:
Yn llanw pob rhyw le,
Ei air a'i allu'n un;
Anfeidrol, annherfynol Fod,
A'i hanfod ynddo'i hun.

2 Un hunanfodol oedd,
Cyn llunio nef a llawr;
Yn nhrag'wyddoldeb maith yn ol,
Yn Dduw anfeidrol fawr:
Heb ddechreu iddo'n bod,
Na diwedd einioes chwaith;
Yn Drindod bur mewn Undod bydd
I drag'wyddoldeb maith.

---

**221.** *Hiraethu am burdeb.* 8. 7. 4.

1 MAE fy natur wedi 'i llygru
Trwyddi oll gan bechod cas;
Arglwydd, dyro galon newydd,
Adnewydda fi â'th ras:
Rho dy gyfraith,
Yn fy meddwl, O fy Nuw!

2 Yspryd Crist yn trigo ynof,
Er mor waeled yw fy llun,
A gyfnewid f' enaid aflan
Ar ei ddelw ef ei hun:
'Rwy'n hiraethu,
Am gael bod yn sanctaidd lân.

**222.** *Einioes dyn yn brysio i ben.* 8.7.4.

1 MAE fy nyddiau i ben yn brysio,
Ac nid ŷnt i'w cyfrif ddim;
Maent yn diangc beunydd arnaf,
Fel yr awel deneu lym:
Darfod, darfod,
Mae fy oes bob munud awr.

2 Tyn yr ofn hen o farw
Sydd yn llechu dan fy mron;
Rho i mi heddwch a chysuron,
Tra bwyf ar y ddaear hon:
Na therfysged,
F' enaid gwan yng ngrym y dw'r.

**223.** *Iachawdwriaeth Crist.* M. H.

1 MAE iachawdwriaeth berffaith fawr
I'r gwaelaf rai ar wyneb llawr;
Cân saint dirif, mewn nefol iaith,
Am dani'i drag'wyddoldeb maith.

2 O dyma'r ffynnon sy'n iachâu,
A'r afon loyw sy'n glanhâu;
A thyma'r balm yn Gilead sydd,
I wella'r archolledig prudd!

3 Physygwr mwyn pawb attat ddaw,
A meddyginiaeth yn dy law;
Iachâ fy nghlwyf, druanaf ddyn,
Nad all ei wella ond dy hun.

**224.** *Gobaith am y nef.* M. B. D.

1 MAE'm gobaith, er yn wan,
Gael d'od i'r lan ryw bryd,
At Iesu fry i Sïon fryn,
A'm gwisg yn wyn i gyd;

I blith y dyrfa fawr,
Ger bron gorseddfaingc Ion,
I foli Duw am gariad rhad,
A gwerthfawr wa'd yr O'n.

2 'Nol treulio yn y gwaith
Ryw oesoedd maith ym mla'n,
Ni fydd dim blino yn eu plith,
Melusach byth eu cân :
Cân newydd fydd o hyd,
Mewn bywyd pur di-boen,
Yn moli Duw am gariad rhad,
A gwerthfawr wa'd yr Oen.

---

**225.** *Myned at orsedd gras.* M. C.

1 MAE pyrth y nef o led y pen,
Mi welaf dd'wr a gwa'd ;
Lle gallaf fi, druenus ddyn,
Yn hollol gael iachâd.

2 Mae'r orsedd fawr yn awr yn rhydd,
Gwrandewir llais y gwan ;
Wel, cyfod bellach, f'enaid prudd,
Anadla tu a'r lan.

3 Wel, anfon eirchion aml rif,
I mewn i byrth y nef ;
Gwrandewir pob ymddifad gri
Yn union ganddo ef.

4 Myfi anturia'n awr ym mlaen,
Heb alwad is y ne',
Ond bod perffeithrwydd mawr y groes
Yn atteb yn fy lle.

**226.** *Bedydd Babanod.* 7. 6.
Marc 10. 13—16.

1 MAE'r Ceidwad mwyn yn galw
Ein plant i'w fynwes glyd;
Fe'u cymmer yn ei freichiau,
Ac a'u bendithia i gyd:
Gadêwch i blant dd'od attaf,
Ei hoff orchymmyn yw;
Oblegid eiddo'r cyfryw
Yw nefol deyrnas Dduw.

2 Yn llawen, Arglwydd grasol,
Y dygwn hwynt i ti:
Gan erfyn, Gwna ein heppil
Yn eiddot, fel nyni:
Taenella waed y cymmod,
Sancteiddia ddw'r pryd hyn,
I ddirgel olchi pechod,
A channu'r du yn wyn.

---

**227.** *Iachawdwriaeth ddigonol.* M. C.

1 MAE'r iachawdwriaeth fel y môr,
Yn chwyddo byth i'r lan;
Mae ynddi ddigon, digon byth,
I'r truan ac i'r gwan.

2 Mae'n fôr diderfyn a didrâi,
O haeddiant ac o ras,
Na's gall trigolion nefol fyd,
Ei chwilio byth i ma's.

CYD-GAN.

De'wch ac yfwch o'r bendithion,
Sydd yn llifo fel yr afon,
O Galfaria 'maes yn gysson,
Maith gyfiawnder, maith gyfiawnder,
Heb na therfyn byth na thrai.

**228.** *Meddwl am y nef.* M. B. D.

1 MAE'r manna gwedi'i gael
Mewn dyrus anial dir;
Ymborthi caf, ond myn'd ym mla'n,
Ar ffrwythau'r Ganaan bur:
Mae yno sypiau grawn
Yn llawn o fewn i'r lle;
O Gâr troseddwyr, moes dy law,
A thyn fi draw i dre'.

2 Wrth feddwl am y wlad
A ragbar'tow'd i'r plant,
A chyflawn degwch tŷ fy Nhad,
Mae ar fy nghalon chwant
I dirio uwch y nen,
Tu draw'r Iorddonen gref:
O Gâr troseddwyr, moes dy law,
A thyn fi draw i dref.

---

**229.** *Salem heb ei llanw.* 7. 6.

1 MAE Salem heb ei llanw,
Rhaid cael y llwythau ynghŷd,
O bob rhyw iaith a chenedl,
O bedwar gwynt y byd:
Daw tlodion ac efryddion,
A gwywedigion gwan,
Yn filoedd heb eu rhifo,
I Sïon yn y man.

2 O enau plant anenwog,
Na feddant rwysg na rhod,
Ar fyrder iawn o amser,
Perffeithia Duw ei glod:

Ei enw gaiff ogoniant,
Mawr fydd ei deyrnas E',
O'r gogledd i'r gorllewin,
O'r dwyrain hyd y de'.

---

**230.** *Hiraeth Sïon am y wawr.* 10au.

1 MAE Sïon wan, yn griddfan am y wawr,
Bydd yn y man, yn fam i dyrfa fawr;
Mae'r arfaeth rad, a gwerthfawr waed yn un,
A gair y llw, i gyd am gadw dyn.

2 Haul ydyw Crist, rydd lewyrch gras ar led,
Ei gylch a'i wres, trwy'r anial dir a red:
Cenhedloedd pell, wynebant ar y nef,
Dan lawenhâu, pan ymddangoso ef.

3 Daw Israel Duw, er gwaeled yw eu gwawr,
Yn hardd eu lliw, i'r lan o'r cystudd mawr;
Gorchfygu wnant, bob gelyn cyndyn cas,
A chanu gânt, dros byth am ddwyfol ras.

---

**231.** *Crist yr unig Iawn.* 8. 7.

1 MANNA nefol s' arnaf eisiau,
Dw'r rhedegog gloyw byw,
Sydd yn tarddu o tan riniog
Teml sanctaidd tŷ fy Nuw:
Golchi'r aflan, cannu'r Ethiop,
Gwneud yr euog brwnt yn lân;
Bythol glod am hyn gaiff Iesu,
'Nol i'r ddaear fyn'd yn dân.

2 Fyth ni all'sai poeth-offrymau,
Fyth ni all'sai ffrwyth y bru

Mil o nentydd maith o olew,
  Roddi iawn dros bechod du:
Dengmil hyfryd o feheryn,
  Neu'r holl bераroglau mân,
Nag un dim ond gwaed fy Mhrynwr,
  All'sai olchi'r brwnt yn lân.

---

**232.** *Am lwyddiant Crist.* 8. 7.

1 MARCHOG', Iesu, yn llwyddiannus,
  Gwisg dy gledd yng ngwâsg dy glun;
Ni all daear dy wrth'nebu,
  Na holl uffern fawr ei hun:
Mae dy arswyd trwy'r gre'digaeth,
  Pob rhyw elyn gilia draw;
Mae dy enw mor ardderchog,
  Pawb ddel attat maes o law.

2 Minnau bellach orfoleddaf
  Fod y Jubil fawr yn d'od,
Pan gyflawner pob addewid,
  Roddodd Iesu mawr erio'd:
Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,
  Ddaw o eithaf tywyll fyd,
Gyd â llais yr udgorn seinfawr
  Mewn i Salem bur ynghŷd.

---

**233.** *Emyn brydnhawnol.* M. H.

1 MAWL, mawl i Dduw a'm oleu'r dydd,
  A'i holl fendithion, rhoddion rhydd;
Duw'r duwiau, dïogela fi
Dan gysgod dy adenydd di.

2 Fy meiau'r dydd aeth heibio, Dad,
Maddeua'n rhwydd er d'un Fab rhad;
Fel gallwyf huno'n dawel glyd,
Mewn hedd â thi, fy hun, a'r byd.

3 Dysg fi i fyw fel na bwyf dan
Ofn angeu'n fwy na'm gorwedd-fan;
Dysg i mi farw, fel o'r bedd,
Y codwy'n ddisglair ar dy wêdd.

4 Selied f' amrantau melus hûn,
Gorphwysed f'enaid ar Dduw Cûn;
Fel gallwyf ddeffro'r bore'n bêr
A newydd nerth i foli'r Nêr.

**234.** *Mawredd Crist.* 8. 7. 3.

1 MAWR oedd Iesu'n nhrag'wyddoldeb,
Mawr yn gwisgo natur dyn,
Mawr yn marw ar Galfaria,
Mawr yn maeddu angau'i hun:
Hynod fawr yw E'n awr,
Brenhin nef a daear lawr.

2 Mawr yw Iesu yn ei Berson,
Mawr fel Dyn, a mawr fel Duw,
Mawr ei degwch a'i hawddgarwch,
Mawr ei ras i ddynol ryw;
Mawr yw ef yn y nef,
Ar ei orsedd gadarn gref.

3 Mawr yw Iesu yn ei swyddau,
Mawr fel Arch-offeiriad glân;
Mawr fel Prophwyd, mawr fel Brenhin,
Mawr fel Bugail o fy mla'n:
Mawr ei waith, ar ei daith,
Mawrglod gaiff trwy'r nefoedd faith.

**235.** *Golwg ar y nef.* 8. 7.

1 MELUS mewn anialwch dyrus
Ambell drem ar fro y wlad,
Roddwyd i mi gan fy Ngheidwad
Yn drag'wyddol annedd rad:
Adsain bêr y gân ddiddarfod,
Golwg ar y bryniau draw,
Wna fy enaid llesg yn llawen,
Erlid ymaith bob rhyw fraw.

2 Draw i afon donnog angau,
Gwelaf gyrrau'r nefol dir;
Clywaf sain ei delynorion,
Araf swn afonydd pur:
Yno gofid a ddiflanna,
Drygau hefyd o bob rhyw;
O am ddod i'r ardal hyfryd,
Lle nad oes na phoen na briw!

---

**236.** *Prynu'r amser.* M. H.
Preg. 9. 10.

1 MEWN bywyd mae gwas'naethu Duw,
Dydd gras ac iachawdwriaeth yw;
Tra paro'r lamp i losgi 'ma's,
Yr enaid euog all gael gras.

2 Bywyd yw'r amser roddes ef,
I ochel uffern, ffoi i'r nef;
Pryd yw gall dynion euog gwael
Fendithion i'w heneidiau gael.

3 Am hynny'r hyn sydd yn fy mryd,
Boed im' ei wneud a'm hegni 'gyd;
Gan nad oes dyfais, gwaith, na hedd,
Na ffydd, na gobaith, yn y bedd.

**237.** *Cyffes Job.* S. 7.

Job 19. 25—27.

1 MI wn, medd Job, o'r cynfyd cudd,
Mai byw'm Gwaredydd hawddgar;
Mi wn y daw fy Mhrynwr drud
Ar ddiwedd byd i'r ddaear:

2 Ac er fy mod i'n awr mewn poen,
Ac wedi 'nghroen i'r pryfed
Ddifetha hefyd y corph hwn,
Er hynny gwn caf weled

3 Y Duw anfeidrol yn fy nghnawd,
Ar ddydd gollyngdawd seintiau;
A'm llygaid i fy hun a'i gwel
Ar dirion uchelderau.

---

**238.** *Ymhyfrydu yn nhy Dduw.* M.H.

1 MOR hyfryd gwel'd cyn'lleidfa fyw
O fewn ei dŷ'n addoli Duw,
Mewn mawl a gweddi'n uno i gyd,
A dysgu'r ffordd i'r nefol fyd!

2 Mi fum, mi af i'r babell wen,
Mae fel rhyw nefoedd fach is nen;
Na foed a rydd y byd i'm rhan
Fy nghadw fyth o'r hyfryd fan!

3 Athrawiaeth lân efengyl lon
Bob gair argrapha dan fy mron;
Na thorrwyf mwy dy ddeddfau mad,
Ond carwyf di, fy nefol Dad.

4 Meddyliau mawr am Brynwr byd
A lanwo 'nghalon trwyddi 'gyd;
A moes i mi, sy 'mron fy medd,
Trwy rin ei waed, dy hyfryd hedd.

**239.** *Crist, yr adgyfodiad a'r bywyd.* 8. 7.

Ioan 11. 25, 26.

1 MYFI yw'r Adgyfodiad mawr,
Myfi yw Gwawr y bywyd;
Caiff pawb a'm cred, medd f' Arglwydd Dduw,
Er trengu, fyw mewn eilfyd.

2 A'r sawl sy'n byw mewn ufudd gred
I mi, caiff drwydded nefol;
Na allo'r angau, brenhin braw,
Ddrwg iddaw yn drag'wyddol.

**240.** *Y Bugail da.* M. H.

Can. 1. 7, 8.

1 MYNEGA im', fy Mugail mwyn,
Pa le bugeili di dy ŵyn?
Pa le y gwnai, ar ganol dydd,
I'th braidd i orwedd yn y cudd?

2 Paham, fy Arglwydd, y caf fi
Fyn'd heibio i'th ddïadell di?
O gad i'm henaid bellach fod
Yn eiddo Crist, yn dwyn ei nod!

3 Yn ôl dy braidd dilynaf mwy,
Nes cael eu pêr borfëydd hwy;
Gwledd o ddanteithion yno sydd,
Un lawn a lonna'm henaid prudd.

**241.** *Am garu Duw uwch pob peth.* 11au.

1 NA ad i mi garu, O Dduw, yn dy le,
Un gwrth'rych a welir o'r ddaear i'r ne';
Mae ynot dy hunan bob tegwch ynghŷd
O uchder y nefoedd i ddyfnder y byd.

2 Yn felus i'm henaid bob amser y boed
Bob gair a ddaeth allan o'th enau erioed;
Par i mi eu caru a'u perchi o hyd
Yn fwy nâ choeth eiriau holl ddoethion y byd.

3 Na fydded meluswedd dan wybren y sy
I guddio dy wyneb sydd gennyf mor gu;
Nag un rhyw eilunod o'r dwyrain i'r de',
I godi un cwmmwl fyth rhyngof a'r ne'.

4 Na fydded llawenydd trangcedig y ffol
I dwyllo fy enaid un awr ar ei ol;
Dy ras, dy drugaredd, dy gariad, dy hedd,
Fo'm gwleddoedd gwastadol nes elwyf i'r bedd.

---

**242.** *Y meirw yng Nghrist.* 8. 7.
1 Thes. 4. 13, 14.

1 NA fyddwn anobeithiol drist
Am neb yng Nghrist a hunant;
Allan o'r corph, maent gyd âg ef,
Yng ngartref y gogoniant.

2 Os credu'r ŷm yng Nghrist ein Pen,
A aeth i'r nen yn ddïau,
Mewn ennyd bach fe ddaw ei hun,
I'n dwyn i'r un trigfannau.

---

**243** *Edifeirwch.* 8. 7.

1 NA thro dy wyneb, Arglwydd glân,
Odddiwrth un truan agwedd,
Y sydd o flaen dy borth yn awr,
Yn adde'i fawr anwiredd.

2 Na alw mo'nof ger dy fron,
I roddi union gyfrif;

Cydnabod wyf, O Arglwydd hael,
  Y bywyd gwael oedd gennyf.

3 Y peth a geisiaf sy rodd wych,
  Nid rhaid mo'i mynych enwi;
Tydi a'i gwyddost, Arglwydd, cyn
  Im' ddechreu gofyn iti.

4 Trugaredd, Arglwydd, heb ddim mwy,
  Yw'r cwbl 'rwy'n ei geisio;
Trugaredd yw fy newis lwydd,
  Trugaredd, Arglwydd, dyro.

---

**244.** *Dydd y farn.* 7. 6

1 NESAU, er gwae'r annuwiol,
  Mae'r dydd diweddaf mawr;
Nesâu, er gwynfyd bythol
  I'r cyfiawn, mae bob awr;
I'r naill yn gyfiawn Farnwr,
  Pan ddelo'r tanllyd ddydd;
I'r lleill yn llon Waredwr,
  Yr Oen fu farw fydd.

2 O Iesu, gwrando'n gweddi,
  Tra paro dydd dy ras;
Rho'th wir adnabod ini,
  Cyn llosgo'n lamp i ma's;
Rho lwyr faddeuant pechod,
  Dy Yspryd a dy hedd;
Fel codom i'th gyfarfod
  Yn llawen iawn o'r bedd.

---

**245.** *Newyddion da o wlad bell.* M. H.

1 NEWYDDION da a ddaeth i'n bro,
  Hwy haeddent gael eu dwyn ar go';

Ynnillodd Iesu mawr y dydd,
Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.

2 Mae Iesu Grist o'n hochr ni,
Fe gollodd ef ei waed yn lli';
Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach
I'r ochr draw, 'mhen gronyn bach.

3 Wel, f' enaid, weithian cod dy ben,
Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen;
A'n holl elynion sydd yn awr
Mewn cadwyn gan y Brenhin mawr.

---

**246.** *Ceisio gras gan Grist.* M. C.

1 NID af i 'mofyn haeddiant mwy,
Diddanwch, nerth, na hedd,
Ond ynddo ef a gwyd fy llwch
Yn fyw o byrth y bedd.

2 Mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,
Ar orsedd fawr y nef,
Ac mae y cyfan sydd mewn bod
Dan ei awdurdod ef.

3 O Iesu, cynnal fi â'th law,
Fel mynnost gad fi fod;
A gwna fi dreulio bob yr awr
Yn hollol i dy glod.

---

**247.** *Am arweiniad ysprydol.* 8. 7.

1 NID oes gennyf ond dy hunan
Yn arweinydd ffyddlon im';
Dan dy gysgod gwna fy noddfa,
Yn y stormydd mwya'u grym:

Cadw'm golwg at y porthladd,
Lle bo'm tynfa doed a ddel;
Tiroedd hyfryd yr addewid,
Gwlad yn llifo o laeth a mel.

2 Gad i lusern fawr y bywyd
Fyth i gerdded o fy mla'n,
Ganol dydd yn gwmmwl goleu,
Ganol nos yn golofn dân:
Dwg fi 'mlaen i'r ardal hyfryd,
Maes o'r anial maith ei hyd;
Ti gai'r clod a'r holl ogoniant,
Pan yn ulw'r elo'r byd.

---

**248.** *Gras Crist.* M C.

1 NI feddaf ar y ddaear lawr,
Ni feddaf yn y ne',
A beri i mi'n ffyddlon byth,
Yn unig ond efe.

2 Mae ynddo'i hunan drysor mwy
Nâ fedd yr India lawn,
A phrynodd i mi fwy nâ'r byd
Ar groesbren boenus iawn.

3 Fe brynodd i mi euraidd wisg,
A guddia'm gwarth tra bwy';
Maddeuol ras, trag'wyddol hedd!
A llawer, llawer mwy.

4 Chwennychwn rodio er ei glod,
Ac iddo bellach fyw,
A phob anadliad fyn'd i ma's,
I ganmol gras fy Nuw.

**249.** *Daioni Duw i'w bobl.* 8. 7. 4.

Esay 64. 4, 5.

1 NI fu clust erioed a glywodd,
Ac ni welodd llygad dyn,
Beth ddarparodd Duw i'r rhei'ny
Garant ddisgwyl wrtho'i hun:
Gyd â'r cyfryw,
Boed ein cyfran bob yr un.

2 Caiff yr hwn a wna gyfiawnder,
Arglwydd, wel'd dy siriol wedd;
Yn dy ffyrdd, y rhai a'th gofiant,
A gant brofi'th hyfryd hedd:
Hyn fo'n profiad,
A'n hymddygiad hyd y bedd.

---

**250.** *Cariad Crist.* 11au.

1 NI ganwn am gariad Creawdwr yn ddyn,
Ennynodd cyn oesoedd o fewn iddo'i hun;
Na chwilia na cherub, na seraph, na saint,
Ei ddyfnder, na'i uchder, na mawredd ei faint.

2 O gwelwch ei gariad yn fyw ar y pren,
Ac uffern yn methu darostwng ei ben!
Er marw o'r Iesu dan boenau a briw,
Fe barodd ei gariad trwy angau yn fyw.

3 O gyfoeth diderfyn o gariad a gras,
A redodd fel afon lifeiriol i ma's!
A thrwyddo fe godir myrddiynau i'r ne',
O'r gogledd a'r dwyrain, gorllewin a'r de'

**251.** *Meddwl am y groes.* M.C.

1 NIS gall angylion pur y nef,
A'u dawn rhagorol hwy,
Fynegi byth anfeidrol werth
Ei ddwyfol farwol glwy'.

2 Am oddef poenau angau'r groes,
Fe'i molir tra fo'r nef:
Fy nerth, fy nghyfoeth, a fy Nuw,
A'm noddfa dda yw ef.

3 Na foed un rhan o'm bywyd mwy
Yn eiddo im' fy hun,
Ond treulier fy munudau oll
Er clod i'm Harglwydd cun.

4 A gad im' brofi nefol hedd
Mewn mynwes bur trw'i byw;
Ac yna fyn'd o'r byd i'r bedd
Mewn hedd a thi, O Dduw.

---

**252.** *Yr unig Iawn dros bechod.* M.B.

1 NIS gallai'r ebyrth gynt,
A'u gwaed a'u gwerth i gyd,
Byth olchi bai, na rhoddi hedd
I'r euog un rhyw bryd.

2 Ond Crist, y nefol Oen,
A ylch bob bai yn rhad;
Mae'n aberth gwir, o enw gwell,
Ac o ragorach gwa'd.

3 Fy ffydd a fynnai roi
Ei dwylaw ar dy ben,
Gan addef yno 'meiau mawr,
Aneirif, is y nen.

4 Fy enaid dro yn ol
Ei olwg ar dy loes,
Mewn gobaith i ti ddwyn ei gosp
Yn gyfan ar dy groes.

5 Wrth wel'd trwy ffydd yn ffoi
Y felldith fawr o'i fla'n,
Ein melus waith yw moli'r Oen,
A'r gwaed a'n gylch yn lân.

**253.** *Adgyfodiad Crist.* 6. 8.

1 'NOL marw Brenhin hedd,
A'i blant i gyd yn brudd,
Fe'i rhowd mewn newydd fedd,
Ond codai'r trydydd dydd:
Boed hyn mewn cof er clod i Ddnw,
Mae'r Oen fu farw etto'n fyw.

2 Pan godai Mab y dyn,
Trwy rym anfeidrol fawr,
Y ceidwaid bob yr un
Fel meirw gwympent lawr;
Er llid gelynion o bob rhyw,
Mae'r Oen fu farw etto'n fyw.

3 Y Meichiau roed yn rhydd,
'Nol rhoddi taliad llawn;
A Duw'n cyhoeddi sydd,
Yn hwn mi gefais iawn:
Gwnaeth ffordd yn rhydd i fyn'd at Dduw,
Mae'r Oen fu farw etto'n fyw.

**254.** *Am fod yn un o'r defaid.* 8. 8. 8. 6.

O ADDFWYN Iesu, gad im' fod
O fewn dy gorlan, dan dy nod,
A phob rhyw bechod dan fy nhro'd,
Yn gyflawn o dy hedd;

Fy iachawdwriaeth fawr ei bri,
A'm hunig obaith ydwyt ti,
Ar arall mwy na phwyswyf fi,
Nes gorwedd yn y bedd.

**255.** *Duw a digon.* 8. 7.

1 O AM nerth i dreulio'm dyddiau,
Yng nghynteddau tŷ fy Nhad;
Byw yng nghanol y goleuni,
T'wyllwch obry tan fy nhra'd;
Byw heb fachlud haul un amser,
Byw heb gwmmwl, byw heb boen;
Byw ar gariad anorchfygol,
Pur, y croeshoeliedig Oen.

2 Dyro olwg ar dy haeddiant,
Golwg ar dy deyrnas rad,
Brynwyd i mi ac a seliwyd,
Seliwyd i mi â dy wa'd:
Rho i mi gyrchu tuag atti,
Peidio fyth a llwfrhâu:
Ar fy nhaith ni cheisiaf gennyt
Ond yn unig dy fwynhâu.

**256.** *O flaen Pregeth.* 7. 6.

1 O ARGLWYDD Dduw Jehofa,
Tro yma'th wyneb llon,
A doed griddfannau'n hyspryd
I'th glustiau'r odfa hon:
Doed dwyfol ras o'r nefoedd
I'n calon ninnau lawr,
A gwna ni'n gyd-addolwyr
A'r nefol dyrfa fawr.

2 Dy hyfryd bresennoldeb,
Disgleiried yma'n awr;
Rho nerth i eiddil egwan
Lefaru'th eiriau mawr:
Dy Yspryd di wna gynnwrf
Ym mysg yr esgyrn sych;
Cyrhaedded glust a chalon,
Fel sain yr arian glych.

3 Duw, todda'r galon galed,
A dryllia'r muriau pres;
Cyfoded Haul Cyfiawnder
Yn hyfryd yn ei wres:
A nertha'r enaid ofnus,
Sy'n methu dod i'r lan;
Cysura'r rhai galarus,
Diddana'r meddwl gwan.

---

**257.** *Am nerth ysprydol.* M.H.

1 O ARGLWYDD, gwel fi'n llesg a gwan,
Yn ffaelu dringo'r byd i'r lan;
Am fyn'd yn lew i'r Ganaan lân,
Heb allu symmud fawr ym mla'n.

2 Y gwannaf wyf, a'r rheita'i ddwyn,
O'r defaid gwirion ac o'r ŵyn;
A diau yw y triga i'n ol,
On' chwyd y Bugail fi'n ei go'l.

3 O cymmer fi i'th fynwes glyd,
Tra fwy'n niffaethwch hyn o fyd;
A nerthed fi'th ddeheulaw gref
I redeg beunydd tua'r nef.

**258.** *Emyn Forëol.* M. H.

1 O DEFFRO, gyd â'r haulwen rhed,
Fy enaid, ddyddiol daith dy dd'led;
Ymwâd â syrthni, 'n ebrwydd cod,
Tal aberth o forëol glod.

2 Cais brynu'r amser gwerthfawr, bydd
Fyw heddyw fel dy olaf ddydd;
Defnyddia'th dalent, bydd bob awr
Yn barod erbyn y dydd mawr.

3 Dy rodiad boed yn un â'r gwir,
Dy galon fel y goleu'n 'glur;
Mae llygad holl-weledig Duw
Yn gwel'd dirgelion pob dyn byw.

4 O deffro, cyfod, f'enaid, cân
Yn un-gôr â'r angylion glân;
Y rhai trwy gydol nos, heb boen,
Sy'n canu mawl i Dduw a'r Oen.

---

**259.** *Meddwl am y nef.* 8.7.

1 O FUGAIL Israel, dwg fi 'mla'n
I'r dawel lân orphwysfa,
I'th nefol lys, o'm poen a'm pla,
I ganu Haleliwia:

2 I Sïon wych, Paradwys wiw,
Lle mae fy Nuw'n cartrefu:
Gael rhoddi 'mhwys, a chuddio 'mhen,
Ym mynwes wen yr Iesu:

3 Lle na ddaw pechod, byd, na chnawd,
Na gwŷn, na gwawd, na thristwch;
Ond perffaith hedd a chariad pur,
A nefol wir ddiddanwch.

**260.** *Y Cenhedloedd yn erfyn cymmorth.* 7.6.

1 O GREENLAND oer ogleddig,
O India wresog faith,
Lle hwylia dyfroedd Affrig
Dros dywod aur eu taith;
O lawer oesol afon,
A bröydd hyfryd wyrdd,
Hwy'n galwant i'w rhoi'n rhyddion
O'u coel-grefyddau fyrdd.

2 'Gawn ni, a maint ein breintiau,
Naccâu i'r pagan pell,
Sy'n gŵyro o eisiau goleu,
Roi gwawl y bywyd gwell?
Achubiaeth ! O achubiaeth !
Am dani bydded sôn,
Nes dysgo'r holl gre'digaeth
Wiw enw'r addfwyn Oen.

3 Chwyth, chwyth, ti wynt, ei hanes,
Ef treiglwch, ddeifr i gyd,
Nes rhed, fel môr, er mawrles,
O gylch pegynau'r byd;
Nes bo i'r Oen, i'n prynu,
A laddwyd yn ein lle,
Mewn gwynfyd llawn deyrnasu
Ar bawb o dan y ne'.

---

**261.** *Am ras a nerth.* M. C.

1 O GWEL bechadur euog, gwan,
Yn griddfan dan ei boen,
Ac am gael dod i ffynnon rad
Sancteiddiaf wa'd yr Oen.

2 Duw! saif yn gadarn ar fy rhan,
Mae'n gyfan ar dy law,
I'm cadw rhag pob drwg a phla,
Tu yma neu tu draw.

3 Ni saif fy mhechod, er ei rym,
Ni rua ddim o'm chwant,
Pan dynnech di â dwyfol ras
Ei wenwyn cas i bant.

4 Dy ddwyfol ras y porphor wna,
A'r 'scarlad cocha'i ryw,
Fel eira glân ar ben y bryn,
A'r lliain gwyn ei liw.

---

**262.** *Duw yn ddigon yn angau.* 8.7.

1 O IACHAWDWR pechaduriaid,
Sydd â'r gallu yn dy law!
Rho oleuni, hwylia'm henaid
Dros y ce'nfor garw draw:
Gad y wawr fod o fy wyneb,
Rho fy enaid llesg yn rhydd;
Nes i'r haulwen ddisglair godi,
Tywys fi wrth y seren ddydd.

2 A oes neb o'm hen gyfeillion
A ddaw'n ddiddig gyd â mi,
Ac a orwedd wrth fy ochr,
Obry yn y ddaear ddu?
A yw cyfaill ddim ond hynny,
Colli dagrau, newid gwedd,
Pan bo'r pridd, a'r clai, a'r cerrig,
Arna'i 'n cwympo yn y bedd?

3 O ynfydrwydd! O ffolineb!
I mi erioed i roddi 'mryd,
Ar un tegwch neu ddigrifwch
Welais etto yn y byd:
Mae y byd yn myned heibio,
A'i deganau o bob rhyw;
Tan y nef ni thâl ei garu
Wrth'rych arall ond fy Nuw.

**263.** *Gweddi.* M. H.

1 O IESU mawr, y Meddyg gwell,
Gobaith yr holl ynysoedd pell!
Dysg fi i seinio 'maes dy glod,
Mai digyfnewid wyt erio'd.

2 O hoelia 'meddwl, ddydd a nos,
Crwydredig, wrth dy nefol gro's;
A phlanna'm hyspryd yn y tir,
Sy'n llifo o lawenydd pur.

3 Fel bo fy 'nwydau drwg yn lân
Yn cael eu difa â'r nefol dân;
A chariad yn melysu'r groes,
Trwy olwg ar dy farwol loes.

**264.** *Am wresogrwydd yspryd.* 8. 7.

1 O IESU, pen yr eglwys deg,
Ei sail a'i hatteg beunydd;
O'th lawnder dwyfol daw i lawr
Ei gras, bob awr, a'i chynnydd.

2 Ennyna dân, nefolaidd, Ior,
Ar aelwyd o'r ein mynwes;
A gwres dy gariad nefol di,
A'i cadwo hi yn gynnes.

3 Rho yspryd gwresog at dy waith,
A'th gyfraith yn ein c'lonnau;
Fel na ddiffygiom yn dy ffyrdd,
Er cwrdd â myrdd o rwystrau.

3 Dy wasanaethu, Arglwydd da,
Fo'n hymgais a'n hyfrydwch,
Tra paro'n dyddiau ar y llawr,
A fry ein mawr ddedwyddwch.

---

**265.** *Sylfaen safadwy.* 8. 7. 3.

1 ONA ad fi adeiladu
Ar un sylfaen is y ne',
Nag i roddi pwys fy enaid,
Ar ddim arall yn dy le!
Ti fy Nuw, tra fwy' byw,
Fo fy unig sylfaen wiw.

2 Dyma sylfaen wir safadwy,
Dyma faen profedig pur,
Gloddiwyd allan yn y bryniau,
Bryniau trag'wyddoldeb dir:
Nid oes le, is y ne',
Ddal fy enaid ond efe.

3 Arno'i hunan, O fy enaid,
Dod o'r diwedd lawr dy droed;
Trig ar gadarn Graig yr oesoedd,
Craig gadarnaf fu erioed:
Ceidw hon, fi yn llon,
Ofnau ffwrdd o dan fy mron.

---

**266.** *Swpper yr Arglwydd.* 8. 7.

1 O'R fath gariad ŷm yn gofio
Wrth y bwrdd sy'n awr o'n bla'n!

O'r fath werthfawr waed fu'n llifo
Ar y groes, i'n golchi'n lân!
Cariad yw a gwyd y gwaelaf
Fynu'n lân i Sïon fryn;
Gwaed a ylch y rhai aflanaf
Fel yr eira'n hyfryd wyn.

2 Llifed edifeirwch duwiol
'Nawr yn gryf fel gwaed y groes;
Ac ennyned cariad dwyfol
Ynom oll hyd derfyn oes:
Ti'n Gwaredwr mwyn caredig
Wyt yn haeddu'n serch i gyd;
Boed i'th enw bendigedig
Foliant byth hyd ddiwedd byd.

---

**267.** *Y Diddanydd.* 8. 8. 8.

1 O'R Graig y mae'n dylifo ma's,
Yn afon ddisglair loyw las,
Sef Craig yr Oesoedd, Yspryd Duw;
A thyma'r man y gwnaf fy lle,
Dan gysgod tawel furiau'r ne',
I gael diddanwch tra fwy' byw.

2 'Rwy'n cofio gair fy Iesu mawr,
Y deu'r Diddanydd atta'i lawr,
O dristwch na chawn farw mwy:
O Dduw, cyflawna'th air i ben,
Rho im' Arweinydd is y nen,
Ddangoso'r ffordd, iachao'm clwy'.

3 Os rhaid i gystudd garw'r gro's
I flino f' yspryd ddydd a nos,
Gwna fi er hyn yn foddlon iawn;

Dan ganu gwna fi fyn'd ym mla'n,
Sef canu yn y dw'r a'r tân,
O fore mywyd hyd brydnhâwn.

---

**268.** *Iachawdwriaeth Crist.* M. H.

1 O'R iachawdwriaeth fawr yng Nghrist!
Swn melus hyfryd yw i'm clust;
Balm cryf i'm clwyfau o bob rhyw,
A chysur im' rhág ofnau yw.

2 Mewn bedd o bechod gorwedd bu
Ein henaid wrth ddrws uffern ddu;
Ond codi'r ŷm, trwy ras ein Duw,
I weled nefol ddydd a byw.

2 Aed swn yr iachawdwriaeth fawr
O ddeutu'r ddaear faith yn awr;
A boed i'r nef a'i lluoedd llon
Gyfodi'u llef i seinio hon.

---

**269.** *Am ffrwythau marwolaeth Crist.* 8. 7.

1 OS am bechod y'th drywanwyd
Ar y groes â gwayw-ffon,
Nes gwneud archoll nid anghofir
Tra fo nefoedd tan dy fron;
Gad i mi gael ffrwyth dy glwyfau,
Gad i mi gael rhin dy wa'd;
Maddeu, maddeu fy mhechodau,
O fy Mhrynwr mawr, yn rhad.

2 Golch fy enaid yn yr afon,
Gwna yr euog brwnt yn lân;
Llanw 'nghalon oer ddigariad
A dy nefol hyfryd dân:

Dyro ran o bob rhinweddau
Ag sydd ynot ti dy hun;
Fel y byddwyf, gynt yn aflan,
'Nawr yn sanctaidd, ar dy lun.

---

**270.** *Crist yn well na phawb.* M. C.

1 OS edrych wnaf i'r dwyrain draw,
Os edrych wnaf i'r de',
Ym mhlith y fu, neu ynte ddaw,
'Does debyg iddo fe.

2 Fe rodd ei ddwylaw pur ar led,
Fe wisgodd goron ddrain,
Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn,
Fel hyfryd liain main.

3 Esgynnodd fry i entrych nef,
I eiriol dros y gwan,
Ac yno gwrendy'n rhyfedd fwyn,
Pan elo'n cwyn i'r lan.

4 Drachefn fe ddaw o'r nef ryw bryd,
Pan elo'r byd ar dân,
A gweled gawn ei hyfryd wedd,
Mil harddach nag o'r bla'n.

---

**271.** *Byr ysgafn gystudd.* 8. 7.
2 Cor. 4. 17.

1 OS yw'n gofidiau yn y byd
I bara hyd y diwedd;
O fewn i'r nef fe dderfydd hyn,
Troir tristwch yn orfoledd.

2 Pa fwyaf gawn o wres y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant;
Cawn, yn lle'n cystudd byr a'n crwys,
Drag'wyddol bwys gogoniant.

3 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron,
Holl chwerwon ddyfroedd Mara;
Pryd hyn y try pob chwerw nant
Yn win i blant Jehofa.

**272.** *Am gafodydd bywiol.* 6. 4.

1 O TYRED, Arglwydd mawr,
Dihidla o'r nef i lawr
Gafodydd pur;
Fel byddo'r egin grawn
Foreuddydd a phrydnhâwn,
I darddu'n beraidd iawn,
O'r anial dir.

2 O dere, fywiol Air,
'Does elyn oll a gair,
Wrthsâif dy ras;
Yr hyn fo yn dy fryd,
A ddaw i ben i gyd,
Pe uffern fawr a'r byd
A safent 'ma's.

3 Ysbryd sancteiddiol rhad,
Cymhwysa rin y gwa'd,
At aflan ddyn;
Gwna'r euog enaid hyn,
Fel cannaid eira gwyn,
Gorchfyga'i feiau'n llyn,
A'th ras dy hun.

**273.** *Am oleuni'r Yspryd Glân.* M. B.

1 O TYRED, Yspryd Glân,
A'r gwir oleuni lawr!
Ein tristwch tro yn hyfryd hedd,
A'n nos yn oleu wawr,

2 Par i ni deimlo'n bai,
Ac arwain ni at Grist,
A dangos drugareddau'th air
I'n henaid truan trist.

3 Ail fywyd moes i'n ffydd,
Symmuda'n hofnau syth,
Ac yn ein calon ennyn fflam
Y cariad bery byth.

4 Preswylia di o'n mewn,
Rho'n meddwl caeth yn rhydd,
A moli'r Tad, y Mab, a Thi,
Ein hyfryd waith a fydd.

---

**274.** *Veni Creator.* M. C.

1 O YSPRYD Glân, i'n calon rho
Y gwir oleuni'n glau;
A gras o hyd i garu Duw,
Tra paro'n bywyd brau.

2 Ein holl elynion gyr ym mhell,
Rho heddwch gwell i ni;
Sef heddwch da â dyn a Duw,
Yr elw goreu sy.

3 Bydd yn arweinydd i ni gyd,
Rhag maglau'r byd a'n cas;
Na lithrom chwaith oddiwrthyt ti,
Rho i ni nerth dy ras.

4 Rho fesur mawr o'th ras, O Dduw,
I'n henaid byw pryd hyn;
Fel caffom di'n y farn a fydd
Yn wir Ddiddanydd in'.

**275.** *Duw yn hoffi maddeu.* 6. 7.

1 PA Dduw ym mhlith y duwiau
Gyff'lybir i'n Duw ni!
Mae'n hoffi maddeu beiau,
Mae'n hoffi gwrando'n cri:
Nid hir y dal eiddigedd,
Gwell ganddo drugarhâu;
Yng nghanol byd o drallod,
Gwnawn ynddo lawenhâu.

2 Fe faddeu'r pum' can' ceiniog,
Fe faddeu'r hanner cant,
Gwnaeth leidr edifeiriol,
O'i ddwyfol ras, yn sant:
Pechodau fel ysgarlad,
Neu borphor uchel liw,
A ânt fel gwlan ac eira,
Trwy ras maddeuol Duw.

---

**276.** *Esgyniad Crist.* M. H.
Psalm 68. 17—19.

1 PAN aethost Arglwydd, fry i'r ne',
Angylion ddengmil lanwai'r lle;
O'th gylch oedd nefol geidwaid lu,
I'th warchod fel cerbydau fry.

2 Pwy draetha faint gorfoledd fu
Gwel'd holl alluoedd uffern du,
A wnaent eneidiau'n gaethion trist,
Mewn cryf gadwynau'n gaeth gan Grist!

3 Dyrchafodd Crist i'w orsedd fawr,
A'r Yspryd Glân anfonodd lawr:
A rhoddion rhad i gyndyn ryw,
Fel gyd â ni y trigai Duw.

4 Bendigaid fyddo Duw o hyd,
Sef Duw ein iachawdwriaeth ddrud;
Ein llwytho mae bob munud awr
A doniau ei ddaioni mawr.

---

**277.** *Marwolaeth plant.* 8. 7.

1 PAN bo angeu yn cymmeryd
Plant i ffwrdd o dir y byw,
Wylo heilltion ddagrau tristyd
Ar eu hol, anghymmwys yw:
O dywyllwch dyffryn galar
Aethant adre' atto Ef,
A ddywedodd ar y ddaear,
Mai eu rhan yw teyrnas nef.

2 Plant oedd anwyl gan yr Iesu
Tra bu'n rhodio'r ddaear hon;
Yn y nefoedd cânt ei garu,
Ar ei wyneb wenu'n llon:
Addas ŷnt i gymdeithasu
A thrigolion pur y wlad
Lle mae heddwch yn teyrnasu,
Yn ddiddiwedd ei barhâd.

---

**278.** *Wrth ymadael.* M. C.

1 PAN gesglir perlau Crist ynghŷd,
Ar ddiwedd byd, i'w dŷ,
Fel disglair ser llewyrcha'r saint,
Mewn nefol fraint sy fry.

2 I'r sawl yn caru'r Arglwydd sydd,
Mae dydd, mae dydd yn dod,
I gael mwynhâu trag'wyddol hedd,
Byd rhyfedd uwch y rhod.

**279.** *Golwg ar y groes.* 8. 7. 4.

1 PAN y bo'm yn athrist gwynfan
Dan euogrwydd pechod cas,
Ac anobaith yn ein curo
Bron yn farw ar y ma's;
Hoff yw gennym,
Droi ein golwg tu a'r groes.

2 Yno gwelwn rad drugaredd
Yn dylifo fel y môr,
Pechaduriaid yn cael cymmod,
Gwenau ar wynebpryd Ior:
Gwelwn ddigon,
Byth i gadw euog ddyn.

---

**280.** *Am ran yn Eirioloeth Crist.* M. H.

1 PECHADUR wyf, da gŵyr fy Nuw,
Llawn o archollion o bob rhyw;
Yn byw mewn eisiau gwaed y gro's,
Bob munud awr o'r dydd a'r nos.

2 O cofia fi ger bron y Tad,
A dangos iddo werth dy wa'd!
Iè, cadw fi'n dy gof bob awr,
Wrth eiriol yn y nefoedd fawr.

3 Tra byddwyf yma ar fy nhaith,
Rho nerth i lynu wrth dy waith;
Diddana fi mewn anial le,
Ac arwain fi bob cam i dre'.

---

**281.** *Am faddeuant a nerth.* 6. 8.

1 PECHADUR wyf erio'd,
O halogedig ryw;
Gwrth'nebwr fynnai fod
Yn erbyn gras fy Nuw;

Fy meiau mawr, O maddeu'n rhad,
Ar gyfrif gwa'd f' Anwylyd gwiw!

2 Mae rhwystrau o fy mla'n
I'r etifeddiaeth rad;
Mae dyfroedd mawr a thân
Oddi yma i dŷ fy Nhad:
O Arglwydd, gwel fi'n llesg a gwan,
A dwg fi i'r lan i'r nefol wlad.

---

**282.** *Dilyn y praidd.* M. B.D.

1 PERERIN wy'n y byd,
Ac alldud ar fy hynt,
Yn ceisio dilyn ôl y praidd,
Y tadau sanctaidd gynt,
I 'mofyn gwlad sydd well;
Er 'mod i 'mhell yn ol,
Trwy gymmorth gras, ym mlaen mi af,
Dilynaf mwy eu hol.

2 Os rhaid ymdrechu dro,
Milwrio a dwyn y groes,
A myn'd dan wg a gwawd y byd,
Dros ennyd fyr o'm hoes;
Caf goron gyd â'r saint,
Trag'wyddol fraint sy'n ol;
Trwy gymmorth gras ym mlaen mi af,
Dilynaf mwy eu hôl.

---

**283.** *Wrth ymadael.* M. H.

1 PER fawl i Grist am foddion gras,
Am ddw'r o'r Graig mewn anial cras;
Am fanna da mewn diffaith dir,
Am Yspryd gras, a geiriau gwir.

2 Y gair a glywsom, Iesu, 'n awr,
Dihidla fendith arno i lawr;
A gad i ni sydd yma yngh ŷd,
Gael trigo fyth mewn nefol fyd.

**284.** *Swpper yr Arglwydd.* 8. 7.

1 PORTHA ni, O fugail Israel,
Tywys ni trwy hyn o fyd,
Gerllaw'r dyfroedd araf tawel,
Gerir gan dy braidd i gyd:
O mor hyfryd a chysurus,
Yw cael bwrdd mewn anial le,
Bwrdd yn llawn danteithion melus
I droseddwyr deddf y ne'.

2 Tra yn profi dy haelioni,
Cyssegredig fara a gwin;
Dyro ffydd i wir ymborthi
Ar dy gnawd a'th waed dy hun:
Yn dy gorph briwedig gwirion,
Yn dy waed dywalltwyd fry,
Gwystl cryf, ac arwydd graslon,
Gawn o'th nefol ras i ni.

**285.** *Gras yn dechreu yn Jerusalem.* 8. 7.

1 PRIOD y trag'wyddol Hanfod
Wela'i 'n hongian ar y pren,
Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo
Yno'n crymmu lawr ei ben;
Gwelaf etto fwy rhyfeddod,
Yn ei wyneb angau loes;
Hedd yn rhedeg dros Galfaria,
Fel yr afon tan y groes.

2 Er mai bychan yw ei dechreu,
Mae'n cynnyddu fyth i'r lan,
Cododd eisioes cuwch â'r fferau,
At y gwddf daw yn y man:
Cod nes ffaelu'n lân a'i rhydio,
Yna lleinw'r ddaear gron;
Llawn o bysgod mawr a bychain;
Gwir efengyl hedd yw hon.

**286.** *Bendithion y groes.* 7. 6.

1 PWY ddyry im' falm o Gilead,
Maddeuant pur a hedd,
Nes gwneud i'm hyspryd edrych
Yn ëon ar y bedd;
A diangc ar wasgfeuon,
Euogrwydd creulon cry'?
'Does neb ond ef a hoeliwyd
Ar fynydd Calfari.

2 Bendithion ar fendithion,
Trysorau angau loes,
A ddaw i wael bechadur,
Trwy haeddiant gwaed ei groes:
Yr afon goch lifeiriol
A darddodd dan ei fron,
Mae miloedd yn myn'd adref
Yng ngrym yr afon hon.

**287.** *Buddugoliaeth Crist.* Sau

1 PWY welaf o Edom yn dod,
Mil harddach nâ thorriad y wawr,

Yn sathru dan wadn ei dro'd,
  Elynion yn lluoedd i'r llawr;
Ei wisg wedi ei lliwio gan wa'd,
  Ei saethau a'i gleddyf yn llym,
Ei harddwch yn llanw'r holl wlad,
  Yn ymdaith yn amlder ei rym?

2 Myfi'r hwn wyf Alpha cyn byd,
  Wyf gadarn i ladd a iachâu;
Fy ngeiriau a safant i gyd,
  Pan ballo ffyddlondeb pob rhai.
Ond pa'm mae dy wisgoedd yn waed,
  A'th gleddyf cyn goched ei fin,
Fel un a fu'n sathru dan draed
  Y gwinwryf yng ngwinllan y gwin?

3 Wrth weled y fyddin mor fawr,
  Dan arfau, yn berwi gan lid,
Yn llanw holl gyrrau y llawr,
  Y bobl a giliodd i gyd;
Ac yna mi godais fy llaw,
  Ymleddais, gorchfygais fy hun,
Fy holl waredigion a ddaw
  I maes o'u caethiwed bob un.

4 Pa feddwl, pa 'madrodd, pa ddawn,
  Pa dafod all osod i ma's,
Mor felus, mor helaeth, mor llawn,
  Mor gryfed ei gariad a'i ras!
Hwy redant fel moroedd mor gryf,
  Na's dichon i bechod na bai,
Wrthsefyll yn erbyn eu llif,
  A'u llanw ardderchog didrâi.

## 288. *Swpper yr Arglwydd.* M. H.

1 RHYFEDDOL yw effeithiol rin
Y moddion drefnaist ti dy hun;
Dy gnawd yw bara'r enaid byw,
Dy waed ei hyfryd win ef yw.

2 O gwna fi bwyso, ddydd a nos,
Ar haeddedigaeth gwaed dy gro's!
A dal fi, fel na phechwyf mwy,
Gan gofio byth dy farwol glwy'!

---

## 289. *Y morwr ysprydol.* M. C.

1 'RWY'n morio tu a gartre'm Ner,
Rhwng tonnau maith yn byw,
A'm neges bennaf dan y ser
Yw 'mofyn am fy Nuw.

2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro'n ol,
A minnau 'dwyf ond gwan;
O cymmer, Iesu, fi'n dy go'l,
Yn fuan dwg fi'r lan.

3 N'ad fi ar aswy nac ar dde'
I redeg o dy fla'n,
Ond dilyn llwybrau Brenhin ne',
Trwy ddyfnder dw'r a thân.

4 O gwna fy nghalon redeg trwy
Oll attat ti dy hun!
Na bo difyrrwch gennyf mwy
Mewn daear, da, na dyn.

**290.** *Disgwyl wrth yr Arglwydd.* M. H.

1 'RYM yn dy erfyn, Arglwydd mawr,
Disgyn o entrych nef i lawr,
'Rhyd ysgol faith Jehofa'n ddyn,
'Roi bendith Jacob i bob un.

2 Boed dy ogoniant glân dilŷth
Yn nod a diben i ni byth;
Dy fywyd hardd, a'th eiriau gwir,
Yn wastad i ni'n rheol bur.

3 Doed gogledd, de', a dwyrain bell,
I glywed y newyddion gwell;
Aed swn efengyl Iesu i ma's
Yn gylch o ddeutu'r ddaear las.

---

**291.** *Am ryddhad oddiwrth bechod.* 8. 7.

1 TAN fy maich yr wyf yn griddfan,
Disgwyl amser o ryddhâu;
Disgwyl fy mhechodau i dreulio,
Etto 'mhechod yn parhâu:
O na ddeuai nerth i waered,
Fel llifeiriant mawr ei rym!
Fel na allai'm 'nwydau pennaf,
Bellach ei wrthsefyll ddim.

2 Tor y rhwydau sydd gan Satan,
Llosg gadwynau yn y tân:
Tyred, argyhoeddiad nerthol,
Difa'm pechod o dy fla'n;
Deued peraidd heddwch yntau,
Nes gorchfygu melus chwant;
Nes bo'm bai trwy bob rhyw foddion
Yn diflannu oll i bant.

**292.** *Mawl i'r Oen.* M. H.

1 TEILWNG yw ef, Tywysog hedd,
Ga'dd gynt ei ladd, a'i roi mewn bedd,
Teilwng i ddod o'r bedd, a byw,
Ac eistedd ar ddeheulaw Duw.

2 Bendithion byth ar ben yr Oen,
A ddug ein cosp trwy ddirfawr boen;
Cyd-foler ef gan deulu'r nen,
Ac yma d'weded pawb, Amen.

---

**293.** *O flaen Pregeth.* 8. 7.

1 TI sy'n gyrru'r mellt i hedeg,
Ac yn rhodio brig y don,
Ac yn mesur holl ddyfnderau
Aml gystuddiau'r ddaear hon:
Ti sy'n drech nâ'r gwynt a'r dymmestl,
Hwylia eiddil llesg ym mlaen,
Gyd â'r awel deneu effro,
O Galfaria, fel o'r blaen.

2 Hen agorwr beddau llygredd,
Codwr meirw, tyr'd i lawr;
Chwytha yn yr udgorn arian,
Trwy'r efengyl llwydda'n awr:
Mae rhyw nerthoedd yn dy enw,
Mae i'th Yspryd ddwyfol rym;
Cymmer d' allu anorchfygol,
Noetha etto'th gleddyf llym.

---

**294.** *Mawl i Grist.* 7au

Rhan o Gân Sant Ambros.

1 TI yw Brenhin nefol wlad,
Crist, trag'wyddol Fab y Tad;

Ni ddirmygwyd gennyt ti
Fru y wyryf, erom ni.

2 Sethraist angau, rhoist ar led
Byrth y nef i bawb a'th gred;
Eiste'r wyt ar ddehau Duw,
Yn ei holl ogoniant gwiw.

3 Credu'r ŷm mai ti a fydd
Barnwr pawb yr olaf ddydd;
Rho i'r rhei'ny gymmorth rhad,
Gynt a brynaist ti â'th wa'd.

4 Moes i ni'r anfeidrol fraint
Gael ein cyfrif gyd â'th saint,
Yma'n awr, a thraw i'r bedd,
Mewn gogoniant byth a hedd.

---

**295.** *Tragywyddoldeb yn nesâu.* 8. 7.

1 TRAG'WYDDOLDEB, mawr yw'th [enw!
Ti yn sicr yw fy lle;
Huriwr un diwrnod ydwyf,
Buan iawn yr af i dre':
Mae'm diwrnod bron a'i orphen,
Mae fy haul bron myn'd i lawr,
Mae pob awel yn fy chwythu
Tua'r trag'wyddoldeb mawr.

Gwna fi'n foddlon iawn i 'madael,
Trefna'r awr, a threfna'r fan,
Ond yn ymchwydd yr Iorddonen
Dal fy yspryd llesg i'r lan:
Na'd fi soddi dan y tonnau,
Pan bo angau'n fawr ei rym:
Dal fi yn dy dirion freichiau,
Na'd i'm henaid ofni dim.

3 Mae 'nghyfeillion wedi myned
Draw yn lluoedd o fy mla'n;
'Rhai fu'n teithio dyffryn Bacha
Gyd â mi i Salem lân:
Yn y dyffryn tywyll garw
Ffydd i'r lan a'u daliodd hwy;
Mae'r addewid lawn i minnau,
Pa'm yr ofna'm henaïd mwy?

---

**296.** *Buddugoliaeth yn amser rhyfel.* M.H.

1 TRA mae teyrnasoedd dig y byd
I ryfel brwd yn brysio 'nghyd,
Y Duw deyrnasa yn y nen
Ei ddiben da a ddwg i ben.

2 Y Duw gorûwch y duwiau sydd
Ein tarian fu'r peryglus ddydd;
Duw mawr y rhyfel drosom ro'dd
Ei faner mewn buddugol fodd.

3 O boed i'w gariad rwymo'n gwlad,
Hyd yma gadwyd gan ei rad,
I ddwyn ei threth o fawl yn awr
I'n Prynwr mwyn a'n Brenhin mawr.

4 Ein temlau gadwyd rhag y tân
Ddadseiniont glod i'w enw glân;
A chaed y tai lle 'r ŷm yn byw
Eu gwneud yn bebyll oll i Dduw.

---

**297.** *Ar ddiwedd blwyddyn.* M. H.

1 TRA 'r ŷm yn teithio yma ar hyd
Anialwch dyrus hyn o fyd,
Ei roddion didawl, gwerthfawr, gwiw,
A haeddant gysson gân Dduw.

2 Y flwyddyn hon a wnaeth yn llawn
O drugareddau helaeth iawn;
Parhaodd hefyd yn ein plith
Holl foddion gras, clod iddo byth.

3 Pechodau'r flwyddyn hon, O Dad,
Dilëa'n rhwydd, a maddeu'n rhad;
A dysg ni mwy i fyw trwy ffydd,
A rhodio oll fel plant y dydd.

4 A phan ddel angau llym â'i gledd
I'n torri lawr, a'n dwyn i'r bedd;
O saif pryd hyn yn wir o'n tu,
A dwg ni'n iach i'r nefoedd fry.

---

**298.** *Erfyn am arweiniad Duw.* M. B. D.

1 TYDI fy Nuw ei hun,
  Anfeidrol berffaith Fod,
Sy'n trefnu daear, da, a dyn,
  O hyd i'th ddwyfol glod;
  Cyf'rwydda'm henaid gwan
  Trwy'r anial ddod ym mla'n,
Ac arwain fi 'mhob dyrus fan
  A'th niwl a'th golofn dân.

2 Dy Yspryd sanctaidd di,
  Dywysodd fyrdd o saint,
O'i brofi moes bob dydd i mi
  Y fawr anfeidrol fraint;
  Fel dyfroedd gloyw pur,
  I lonni'r llesg a'r gwan,
Diddanydd yn yr anial dir,
  I'm dal â'i ras i'r lan.

## 299. *Veni Creator.* 8. 7.

1 TYR'D, Yspryd Glân, i'n c'lonnau ni,
A dod dy oleuni nefol;
Tydi wyt Yspryd Crist, dy ddawn
Sydd fawr iawn a rhagorol.

2 Llawenydd, bywyd, cariad pur,
Ydynt dy eglur ddoniau;
Dod eli i'n llygaid, fel i'th saint,
Ac ennaint i'n hwynebau.

3 Gwasgara di'n gelynion trwch,
A heddwch dyro ini;
Os T'wysog i ni fydd Duw Ner,
Pob peth fydd er daioni.

4 O Yspryd Glân, i'n c'lonnau ni
Y gwir oleuni danfon;
A gwna ni'n wresog tra fom byw,
I garu Duw yn ffyddlon.

---

## 300. *Wrth ymadael.* 8. 7. 4.

1 TYRED, Ffynnon bêr y bywyd,
Llanw'n hyspryd â dy hedd,
Gad i'n mynwes gael dy gariad,
O'n 'madawiad hyd y bedd:
O dyfrhâ ni,
Ar ein ffordd trwy'r anial fyd.

2 'Nawr am lais efengyl hyfryd
Rhown yn unfryd glod i ti;
Yn ein calon, yn ein buchedd,
Caed ei pheraidd ffrwythau hi,
Bydd dy hunan,
Byth ym mhob man gyd â ni

**301.** *Jubili.* 6. 8.

1 UDGENWCH, weision Duw,
Mewn udgorn melus mawr ;
Gan ddwyn i ddynol ryw
Ragorol newydd 'nawr:
Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
A rhydd-did cu i'r enaid caeth.

2 Mae gwaredigaeth hael
Trwy rinwedd gwaed yr Oen,
I gaethion gweinion gwael,
Sy'n byw dan ddirfawr boen :
Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
A rhydd-did cu i'r enaid caeth.

3 Trowch, bechaduriaid trist,
Wrth lais efengyl fwyn,
O'ch cyflwr caeth at Grist,
Eich câr a wrendy'ch cwyn:
Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
A rhydd-did cu i'r enaid caeth.

---

**302.** *Myned at orsedd gras.* 8. 7.

1 UNWAITH etto mi ddyrchafaf
Un ochenaid tu a'r nef,
Ac a lefaf wrth yr orsedd
Am ei bresennoldeb ef:
Pwy a ŵyr na wrendy clustiau
'Rhwn a greodd dda'r a nen,
Ac na ddaw fy nymuniadau
Trist hiraethlon oll i ben.

2 Myrdd weddïau a wrandawodd,
O mor barod yw ei ras!
Yn y funud gynta'u lluniwyd,
Cyn eu dod o'r genau 'ma's :

Mae ei glustiau yn agored
I bob rhyw ddrylliedig lef;
Ac mae'r drom ochenaid glwyfus
Yn cyrhaeddyd atto ef.

**303.** *Llyn Bethesda.* 7. 6.

Ioan 5. 2—9.

1 UN wyf o'r lliaws afiach
A orwedd wrth y llyn,
Gan ddisgwyl am yr Angel
Gynhyrfu'r dyfroedd hyn:
A raid i'm henaid farw,
'Nol aros yma cy'd?
O'm blaen a fydd i eraill
I gael iachâd o hyd?

2 Disgwyliaf wrtho etto,
Pwy ŵyr, 'mhen gronyn bach,
Na ddaw y Meddyg yma,
I'm gwneuthur innau'n iach?
Ac os bydd iddo'm gwella'
O'm nychdod ac o'm briw,
Fe gaiff yr holl ogoniant,
A'r moliant, tra fwy' byw.

**304.** *Cariad Duw.* M. C.

1 UWCH pob rhyw gariad is y nef
Yw cariad pur fy Nuw;
Anfeidrol foroedd dyfnion maith,
Heb fesur arno yw.

Dechreuodd draw cyn creu y byd,
Fe bery byth ym mla'n,
Heb un cyfnewid, ac heb drai,
Pan elo'r byd yn dân.

3 O de'wch, a gwelwch, chwiliwch ef,
Anfeidrol gariad mawr,
Ag sydd yn maddeu miloedd myrdd
O feiau yn yr awr.

4 Yn parha'n ffyddlon byth heb drai,
P'odd bynnag troddo'r byd;
A phe cymmysgai'r tir a'r môr,
Yr un yw'm Duw o hyd.

**305.** *Golwg ar y nef.* M. B.

1 WEL, daccw'r hyfryd fan
Mewn golwg gan ein ffydd!
Ac fel mae'r gwyntoedd yn cryfhâu,
Mae yn nesâu bob dydd.

2 Fe arwain Yspryd gras
Ni'n gywir maes o law,
Trwy ganol maith sychedig dir,
I'r Ganaan bur sy draw.

3 Y dyfroedd gloyw'n lli'
O'r Graig i ni sy'n dod,
A'n nertha ni, rai llesg a gwan,
Gael pechod dan ein tro'd.

4 'Nol addewidion gras,
Cawn dderbyn ma's o law,
Drysorau gwell tu draw i'r bedd,
Na fedd yr India draw.

**306.** *Cariad Crist.* M. C.

1 WEL, dyma gyfoeth gwerthfawr, llawn,
Uwch holl drysorau'r llawr,
Yng nghadw i ni oll ynghŷd,
Yn haeddiant Iesu mawr.

2 Ei gariad lifodd ar y bryn,
Fel moroedd mawr didrâi;
Ac fe bwrcasodd yno hedd
Trag'wyddol i barhâu.

3 Ei gariad bery pan fo'r byd,
A'r haulwen fawr yn ddim;
Ac nid oes gariad yn y byd
Gyffelyb sy mewn grym.

CYD-GAN.

Boed trag'wyddol barch a moliant,
Byth i Frenhin y gogoniant;
I'w efengyl wen boed llwyddiant,
I ddwyn heddwch, i ddwyn heddwch,
I derfynau eitha'r byd.

---

**307.** *Brenhin Sïon.* 8. 7. 4.

Esay 32. 1, 2.

1 WELE, Brenhin a deyrnasa
Mewn cyfiawnder perffaith byth;
Dan ei hoff lywodraeth meddir
Ryw fendithion rif y gwlith:
Wrth yr orsedd,
Glynwyf bellach tra fwy' byw.

2 Mae y Gwr rhyfeddol yma
Yn ymguddfa rhag y gwynt,
Ac yn lloches rhag y dymmestl,
I'r ffyddloniaid ar eu hynt:
Ni chaiff pechod,
Byd, na satan, ladd y rhai'n.

3 Mae yr Iesu fel afonydd
Dyfroedd lawer mewn sych dir,

Ac fel cysgod craig ragorol,
  Pan fo'r gwres yn parha'n hir:
Wrth y dyfroedd,
  Dan ei gysgod, trigwyf mwy.

---

**308.** *Cawsom y Messïah.* 8. 7. 3.

1 WELE, cawsom y Messïa,
  Cyfaill gwerthfawrocca' erio'd,
Ddarfu i Moses a'r prophwydi
  Ddwe'yd am dano cyn ei ddod:
Iesu yw, gwir Fab Duw,
Câr a Phrynwr dynol ryw.

2 Hwn yw'r Oen ar ben Calfaria
  Aeth i'r lladdfa yn ein lle;
Swm y ddyled fawr a dalodd,
  Ac a groesodd lyfrau'r ne':
Trwy ei wa'd, i ni ca'd,
Fythol heddwch a rhyddhâd.

---

**309.** *Cadernid a harddwch yr Eglwys.* 8. 7.

1 WELE, gadarn sylfaen Sïon
  Ar y Graig drag'wyddol gref
Pan falurio'r bryniau mawrion,
  Saif preswylfa Brenhin nef:
Ar yr amryw wych ddinasoedd,
  Mawr ragora Sïon gu;
Duw ei hun a adeiladodd
  Yno'i deg frenhinol dŷ.

2 Hoffi mae ei phyrth hyfrydlon,
  Lle daw'r llwythau llon ynghŷd;
Lle ymgynnull ei chantorion,
  A'i cherddorion o un fryd:

O mor hyfryd eu cyfarfod!
O'r fath orfoleddus lu!
Pêr ddadseinia'r ddinas hynod
Wrth foliannu'r Brenhin cu

---

**310.** *Ar ddydd Gwyl Ystwyll.* 8. 7. 4.

1 WELE, ganwyd y Messïa,
Daeth yn wir yr hyfryd ddydd;
Awn i Bethle'm gyd â'r doethion,
Awn yn awr ar aden ffydd;
Ac offrymmwn,
Ein anrhegion iddo ef.

2 Testun cân yr holl brophwydi,
Seren Jacob, Had y Wraig,
Siloh Judah, Gwreiddyn Jesse,
Un ysiga ben y ddraig:
T'wysog heddwch,
Yn y preseb gwelir ef.

3 Gorfoleddwn, a chydganwn
Heddyw beraidd newydd gân;
Canys ganed i ni Geidwad,
Un a gaed trwy'r Yspryd Glân:
Iachawdwriaeth,
I drueiniaid drwyddo ddaeth.

---

**311.** *Buddugoliaeth Crist.* 8.7.

1 WELE, Iesu'r pen rhyfelwr
'Nawr yn dod o Edom wlad!
Coch ei wisg, a'i fraich yn rymmus,
Draig yn glwyfus dan ei dra'd:

Nerthoedd uffern a orchfygodd,
Angau faeddwyd ganddo ef;
Yn oes oesoedd caiff ei foli,
A'i glodfori yn y nef.

2 Clod i'r Iesu yn drag'wyddol,
Am ei ryfedd gariad rhad;
Buddugoliaeth, buddugoliaeth,
Gaed yn berffaith yn ei wa'd:
Am yr hyfryd fuddugoliaeth,
Canaf tra bwyf ar y llawr;
Hyd nes gwawrio'r hyfryd fore,
Cana' i'n nhrag'wyddoldeb mawr.

**312.** *Ail ddyfodiad Crist.* 8. 7. 3.

1 WELE 'n dyfod ar y cwmmwl,
Mawr yw'r enw sy iddo'n awr;
Ar ei fraich, ac ar ei forddwyd,
Ysgrifenwyd ef i lawr:
Haleliwia,
Croesaw, croesaw, addfwyn Oen.

2 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,
O gwmpeini hardd eu gwedd,
Welaf draw yn codi fynu,
I'w gyfarfod ef o'r bedd:
Darfu galar,
Daeth llawenydd yn ei le.

3 Nid oes yno gofio beiau,
Dim ond llawn faddeuant rhad;
Poenau'r groes, a grym y cariad,
A rhinweddau maith y gwa'd:
Darfu ofni,
Dyma iachawdwriaeth lawn.

**313.** *Adgyfodiad Crist.* 8.7.3.

1 WELE 'r ddyled wedi'i thalu!
Daccw'r ddraig a'i phen yn friw!
Meichiau anwyl pechaduriaid
Wedi dod o'r bedd yn fyw!
Digon yw, Iesu gwiw,
Gwelir Sïon dlawd o'i briw.

2 Wele'r ddaear faith yn crynu!
Saint yn dod o'u gwely pridd!
Bedd yn wag, heb ddim ond ll'einiau!
Prawf i'r Iesu ddod yn rhydd:
Brwydr yw, ynnillodd Duw,
Cedwir euog ddyn yn fyw.

3 Wele angau heb ei golyn,
Bore llon y trydydd dydd!
Allwedd bedd wrth wregys Iesu!
Plant marwolaeth dont yn rhydd:
Ni gawn wledd, nefol hedd,
Drylliodd Iesu byrth y bedd.

---

**314.** *Dïoddefaint Crist.* 8au.

1 WRTH gofio'i riddfannau'n yr ardd,
Ei chwŷs fel defnynau o wa'd,
Aredig ar gefn mor hardd,
Ei daro â chleddyf ei Dad;
Ei arwain i Galfari fryn,
A'i hoelio ar groesbren o'i fodd,
Pa dafod all dewi am hyn?
Pa galon mor galed na thodd?

2 Y fendith, a'r gallu, a'r clod,
Y moliant a'r parch yn gyttûn,
O'r nefoedd i'r ddaear gaiff fod
Yn hollol i'n Harglwydd ei hun:

Aed swn ei farwolaeth i ma's
O'r dwyrain lïosog i'r de';
Helaethed terfynau ei ras,
Nes cynnwys a llanw pob lle.

**315.** *Diwedd pob peth yn nesâu.* 8. 7

1 YMAE 'r haulwen wedi blino
Teithio yn yr wybr las,
Daear drom ym mron diffygio
Porthi'r llysiau yn y ma's;
Mae'r planedau'n gwaeddi, Diwedd;
Pob creadur yn ei ryw
Yn o'chneidio am gael gweled
Gwir ddatguddiad Meibion Duw.

2 Mae yr oriau yn fy ngalw,
Ydynt beunydd, i bar'tôi;
Cyn del tân ar ddinas distryw,
Tu a Soar draw i ffoi:
Arglwydd, yn fy llaw ymafael,
Onidê ni ddeuaf byth;
Cyd del tân i losgi Sodom,
Yn y bryniau gwna fy nyth.

**316.** *Pren y bywyd.* 8. 7.

YMA mae fy mwyd a'm diod,
Dan ganghenau gwych y pren,
Sydd a'i wreiddyn ar y ddaear,
Sydd a'i frigau yn y nen:
Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo,
Ffrwythau arno'n tyfu'n llawn;
Cysgod dano i'r ffyddloniaid,
O foreuddydd hyd brydnhâwn.

**317.** *Mawl i'r Oen.* 6. 8.

1 YMGRYMMED pawb i lawr,
I enw'r addfwyn O'n;
Yr enw mwya' mawr
Am dano glywyd son:
Y clod a'r nerth, y parch a'r bri,
Fo byth i enw'n Harglwydd ni.

2 Ein noddfa bob yr un,
Dan bob drylliedig friw,
Dan bwys euogrwydd blin,
Efe yn unig yw:
'Does enw'n bod o dan y nef
Yn werthfawr fel ei enw ef.

---

**318.** *Cyflawnder Crist.* M. C.

1 YM mhlith holl ryfeddodau'r nef,
Hwn yw y mwyaf un,
Sef gwel'd anfeidrol, ddwyfol Fod,
Yn gwisgo natur dyn.

2 Ni chaiff fod eisiau byth na thrai,
Tra seren yn y nef,
Ar neb o'r rhai a ront eu pwys
Ar ei gyflawnder ef.

3 Doed y trueiniaid yma ynghŷd,
Oll yn newynog sy,
Cânt eu diwallu oll yn llawn,
O ras y nefoedd fry.

4 Fe ylch ein beiau ffwrdd â'i waed,
Fe'n canna oll yn wyn;

Fe'n dwg o'r anial maith i ma's,
I ganu ar Sïon fryn.

CYD-GAN.

Medda drysor fel y ce'nfor,
Byth ni cheisiaf ddim yn rhagor,
Hedd a bywyd yw ei ffafr,
Nefoedd yma, nefoedd yma,
Yw mwynhâu ei ddwyfol hedd.

---

**319.** *Buddioldeb yr Ysgrythyrau.* M. H.

1 YM mhob rhyw drallod blin y bwyf,
Ehedeg at fy Nuw yr wyf;
Yn llyfr gras fy nefol Dad
Y caf i'm blinder esmwythâd.

2 Hwn yw datguddiad Duw ei hun,
Uwch rheswm dall a synwyr dyn;
Ac ym mhob dalen bur o'r bron
Y clywaf lais fy Mhrynwr llon.

3 Hwn yw y maes, ond chwilio'n iawn,
Lle'r gwerthfawr berl cuddiedig cawn;
O hwn daw sanctaidd ddw'r i ma's,
Sef afon iachawdwriaeth gras.

4 O boed i'th Air, alluog Dduw,
Fy nhra'd gyfeirio tra fwy' byw!
Rhag troi o'r brif ffordd ddedwydd fwyn
Ar dy ddeheulaw sydd i'm dwyn.

---

**320.** *Eden a Chalfaria.* 8.8.6.

1 YN Eden, cofiaf hynny byth,
Bendithion gollais rif y gwlith,
Syrthiodd fy nghoron wiw:

Ond buddugoliaeth Calfari
Ynnillodd fwy yn ol i mi,
Mi ganaf tra fwy' byw.

2 Ar Galfari, yng ngwres y dydd,
Y cawd y gwystl mawr yn rhydd,
Trwy golli gwaed yn lli';
Y ddyled dalwyd, rhoddwyd iawn,
Nes croesi llyfrau'r nef yn llawn,
O gariad maith i mi.

**321.** *Y Sabbath nefol.* M. H.

1 Y SABBATH hwn yn hyfryd sy,
Er hyn mae gwell gorphwysfa fry;
O na chaem orphwys gyd â'r Oen,
Oddiwrth bob gofid, bai, a phoen!

2 Cawn yno fod yn berffaith rydd
Oddiwrth bob trallod bydol sydd;
Ni fydd ochenaid byth yng nghân
Holl anfarwolion gwynfyd glân.

3 Ni fydd na saeth gelynion syth,
Na gofal byd, i'n blino byth;
Na thywyll nos, na haulwen brudd,
Ond disglair, teg, trag'wyddol ddydd,

4 Y Sabbath hwn yn hyfryd sy,
Er hyn mae gwell gorphwysfa fry;
O na chaem orphwys gyd â'r Oen,
Oddiwrth bob gofid, bai, a phoen!

**322.** *Y Seren fore eglur.* 6. 8.

1 Y SEREN fore sydd
Yn ymlid draw y nos,

Gan droi yn oleu ddydd
Dywyllwch llawer o's:
Eich llygaid trowch, genhedloedd trist,
I ganfod cryf ddisgleirdeb Crist.

2 Gwyn fyd y dydd y daeth
Yr Iesu mwyn i'r byd;
Taleithiau'r ddaear faith,
Cyd-lawenhêwch i gyd:
Dadseiniwch byth hosanna bêr,
Gan godi'r swn yn uwch nâ'r ser.

---

## MAWL I'R DRINDOD.

**323.** M. H.

Holl ddaearolion, molwch Dduw,
Ffynnon ein holl fendithion yw;
Y nefol gor, rhowch fawl ar gân
I'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân.

**324.** M. H.

Gogoniant, moliant, parch a bri,
I'r Un a Thri trag'wyddol fyth;
Y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân,
Fel gynt, tra bo na chân na chwŷth.

**325.** M. C.

Rhoed pawb trwy'r byd bereiddiaf fawl,
A'r nefawl gor i gyd,
I'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân,
Mewn hyfryd gân o hyd.

**326.** M. C. D.

I'r Tad, am greu a charu'n rhad,
I'r Mab am brynu'n ddrud,
A'r Yspryd Glân, Diddanydd mad,
Am selio'r saint i gyd;
Gogoniant byth a mawl uwch ben,
Trwy holl drigfannau'r nef,
Ac yn anneddau dyn is nen,
A llafar uchel lef.

**327.** M. B.

Rhoed pawb trwy'r byd bêr fawl,
A'r nefawl gor i gyd,
I'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân,
Mewn hyfryd gân o hyd.

**328.** M. B. D.

I'r Tad am garu'n rhad,
A'r Mab. am brynu'n ddrud,
A'r Yspryd Glân, Diddanydd mad,
Am selio'r saint i gyd;
Gogoniant byth uwch ben,
Trwy holl drigfannau'r nef,
Ac yn anneddau dyn is nen,
A llafar uchel lef.

**329.** 8. 7.

Gogoniant, moliant, parch a bri,
I'r Un a Thri anfeidrol;
I'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân,
Mewn hyfryd gân drag'wyddol.

**330.** 7au.

Molwch Dduw pob bendith ddrud,
Molwch, bawb trwy gyrrau'r byd;
Molwch, luoedd nef, ar gân,
Dad, a Mab, ac Yspryd Glân.

**331.** 6. 8.

Rhoer byth, trwy'r dda'r a'r nen,
Anfarwol fawl i ti,
Dad, Mab, ac Ysbryd Glân,
Drag'wyddol Un a Thri:
Sef Duw ein Iachawdwriaeth gref,
A'n dwg o'r byd i deyrnas nef.

**332.** 8. 7. 4.

Mawl i'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd,
Mawl mewn hyfryd felus gân;
Mawl i'r Drindod yn yr Undod,
Mawl nes elo'r byd ar dân:
Mawl yn unfryd,
Byth mewn llonfyd uwch y llawr.

**333.** 8. 8. 8.

I'r Tad, am greu a charu'n rhad,
I'r Mab am wneud gwir iawn â'i wa'd,
A'r Yspryd Glân am weini gras;
Gogoniant byth trwy'r byd uwch ben,
Ac yn anneddau dyn is nen,
Nes elo'n ulw'r ddaear las.

**334.** 8. 8. 6.

I'r Tad, am greu a charu'n rhad,
I'r Mab, am wneud gwir iawn â'i wa'd,
A'r Yspryd Glân, ynghŷd;
Gogoniant byth trwy'r byd uwch ben,
Ac yn anneddau dyn is nen,
Tra par'o dyddiau'r byd.

# TAFLEN

O'r Llinellau cyntaf o'r Psalmau.

(Yr Hymnau ŷnt wedi eu hargraphu yn ol trefn y Llythyrenau.)

A.

Anfeidrol fawr yn ninas Duw .............. 34
A ofno'r Arglwydd, gwyn ei fyd ............ 98
Arglwydd, chwiliaist fi â'th lygad .......... 108
Arglwydd, cynnal fy ngherddediad .......... 9
Arglwydd, wrth dy ochr di ................. 100
Arglwydd y bydoedd fry.................... 51
Ar lais y tlawd gwrandawodd Duw ........ 21
Arweinydd Joseph, clyw a gwel ............ 48

B.

Bendigaid fyddo Duw fy mhlaid............ 113
Bendithio wnaf fy Arglwydd Ner .......... 20
Blodeua'r cyfiawn tua'r nen ............... 63

C.

Cael treulio sanctaidd ddydd............... 52
Canmolwn Dduw i'r oes a ddel ............ 47
Cenwch, bellach, ganiad newydd .......... 19
Cenwch, cenwch ganiad newydd ............ 66
Cenwch oll, â llafar lef .................... 84
Chwi fydoedd dedwydd fry ................ 117
Chwi weision Duw, a drigwch fry ........ 104
Chwi weision Duw, molwch yr Ion . ...... 81
Clodforaf fi fy Arglwydd Ion .............. 79
Clyw hyn, O ferch, medd Duw, a gwel .... 31
Cofia, Dduw, dy dosturiaethau.............. 15
Cyd-fyw o frodyr cu ...................... 103
Cyd-seinied pawb sydd is y ser ............ 83
Cyfoded Duw yng ngrym ei ras ............ 43
Cyfuwch ag yw'r ffurfafen fawr ............ 74

D.

Datguddia di, wrth raid.................... 88
Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw .......... 91
Diwalla ni, O Dduw, o'r ne'................ 59

Dy babell di mor hyfryd yw................ 49
Dyfal ddisgwyl mae fy enaid................ 25
Dy oleu cu, a dy wirionedd moes............ 28
Dy osod wnelom ger ein bron ............... 8
Dyrchefwch oll eich pennau fry ............ 14
Dywaid i mi pa ddyn a drig ................ 6
Dywedaf wrth yr Arglwydd byw............ 110
Dywedodd Jehofah i'm Harglwydd a'm Duw 78

E.

Ein Duw a'n hedwyn ni yn llwyr............ 75
Ein Duw a rydd i'w blant o'r ne' .......... 96
Erglyw, O Dduw, ein llefain ni ............ 39

F.

Fel plentyn gwan, fy nefol Dad ............ 46
Fel y brefa'r hydd lluddedig.............. 27
Fe wrendy Duw ar weddi'r gwael .......... 71
Fy enaid, rho fawl i'r Arglwydd Dduw byw 76
Fy nghalon cân, a'm tafod bydd .......... 29
Fy nghalon cân bereiddiaf glod ............ 30
Fy nghalon llawenychu wnai................ 92

G.

Ger bron teyrn-faingc Jehofa mawr ........ 70
Gosodaist borth ar gadarn Gun ............ 57
Gwaith hyfryd iawn a melus yw ........ ... 62
Gwyn ei fyd y sawl ystyria ................ 26
Gwyn fyd y dyn sy'n ofni Duw ............ 80
Gwyn fyd y dyn yr hwn mae Duw .......... 115
Gwyn fyd y gwr a gerdd ym mla'n ........ 86
Gwyn fyd y neb maddeuant ga's ............ 18

H.

Haleliwia, Haleliwia ....................... 77
Haleliwia, mawl i'r Arglwydd ............ 118
Haleliwia, molwch Dduw .................. 120
Hoff ferch y Brenhin, glân o fewn .......... 32

I.

I dŷ fy Nuw pan dd'wedent, Awn............ 93
I Grëydd byd rhowch fawl yn bêr .......... 82

I Israel, Dduw, yn raslawn bydd........ ... 55
I'r Arglwydd cenwch, ac iawn fydd ........ 119
I'r Arglwydd cenwch lafar glod............ 69
I'r Arglwydd Dduw cyd-ganwn glod ........ 73

L.

Llawenydd llawn i'r ddaear gron .......... 67
Llusern i'm traed yw gair fy Nuw ........ 90

M.

Mae un diwrnod yn dy dŷ ................ 53
Mawrheaist ti, O Dduw, dy air ............ 107
Molwch yr Ion, peth da iawn yw............ 116
Mor deg a hawddgar yw .................. 54
Mor fawr y gwynfyd gedwi fry ............ 17
Mor hardd, mor deg, mor hyfryd yw........ 50
Mor werthfawr yw'th drugaredd di ........ 22

N.

Na ddos i farn â'th was, O Dduw .......... 112
Noddfa a nerth i ni rai gwael .............. 33

O.

O Arglwydd Ner, ein Ior a'n nerth ........ 5
O bryd i bryd, O Dduw, tra'r aeth ........ 58
O de'wch, i'r Arglwydd canwn glod ........ 64
O doed fy ngweddi ger dy fron ............ 111
O flaen dy faingc ymgrymmwn lawr ........ 101
Os Duw ni lwydda oddi fry ................ 97
O Sïon, pan y cofiom di.................... 106

P.

Pa fodd y gall yr ie'ngctid ................ 87
Par i mi synied, Arglwydd Ner ............ 24
Parod yw fy nghalon, Arglwydd............ 38
Par wel'd, O Dduw, holl wyrthiau maith .... 60
Pe ceisiwn ffoi o'th ŵydd i ma's ............ 109
Pêr fawl a'th erys di, O Dduw ............ 40
Pwy a ddeall ei gamweddau................ 11
Pwy saif, O Dduw, o'th flaen dydi ........ 99

R.

Rhai ar olud sydd yn pwyso................ 35

Rhowch glod i'r uchel Dduw .............. 105
'Rwyt ti o oes i oes yn fyw ................ 89

S.

Sylfeini hon, sef Sïon sydd ................ 56

T.

Teyrnasu mae ein Harglwydd mawr ........ 65
Teyrnasu mae ein Prynwr da .............. 68
Tosturiol yw fy Nuw ...................... 114
Trig yn lloches y Goruchaf ................ 61
Trugaredd, Arglwydd, dod i mi ............ 37
Trugaredd Duw i'n plith .................. 42
Tydi ein porth ar dir y byw ................ 3
Tydi, tydi â'th breswyl sy .................. 94

U.

Un arch a erchais ar Dduw Naf ............ 16

W.

Wel, dyma'r dydd, medd f' Arglwydd mad .. 2
Wel, dyma'r dydd, o'r diwedd daeth ........ 85

Y.

Y bedd yw lletty pob dyn doeth ............ 36
Ymledu wna llywodraeth Ior ............... 45
Ym mlaen, ym mlaen â teyrnas Ior ........ 44
Ymwel'd â'r ddaear wyt, O Dduw ........ 41
Y nef sy'n datgan mawredd Duw ............ 10
Yn fore, Ior, erglŷw fy llef ................ 4
Yn Nuw gobeithia yn y byd ................ 23
Yr Arglwydd bïau'r ddaear gron............ 13
Yr Arglwydd byw, o serch a bodd.......... 102
Yr Arglwydd Ior yn unig yw................ 7
Yr Arglwydd sydd â'i law'n gwanhau ...... 72
Yr Arglwydd yw fy Magail clau............ 12
Y sawl ni rodia, dedwydd yw ............... 1
Y sawl ymddiried yn Nuw Ion ............ 95

## DANGOSEG,

Ym mha un y trefnir y Psalmau a'r Hymnau i'r Suliau a'r Gwyliau arbennig yn y flwyddyn. Bwriadir y gyntaf yn y Bore, i ddechreu y Gwasanaeth; yr ail yn y Bore, a'r gyntaf yn y Prydnhawn i ganol y Gwasanaeth; yr olaf yn y Bore, a'r ail yn y Prydnhawn, o flaen y Bregeth; a'r olaf yn y Prydnhawn ar ol y Bregeth, neu wrth ymadael.

| | | PLYGAIN. | GOSPER. |
|---|---|---|---|
| Adfent, Sul | 1. | 79, 170, 153. | 67, 137, 82. |
| | 2. | 52, 312, 150, | 244, 101, 183. |
| | 3. | 45, 198, 156. | 309, 230, 44. |
| | 4. | 129, 199, 299. | 34, 307, 207. |
| Nadolig Crist. | | 192, 216, 143. | 182, 308, 127. |
| Wedi Nadolig, Sul | 1. | 186, 61, 212. | 245, 213, 181, |
| | 2. | 295, 123, 18. | 180, 1, 59. |
| Diwedd Blwyddyn. | | 159, 24, 297, | 222, 262, 236. |
| Dechreu Blwyddyn. | | 211, 58, 179. | 149, 301, 152. |
| Gwyl Ystwyll. | | 310, 322, 42. | 56, 171, 219, |
| Wedi'r Ystwyll, Sul | 1. | 62, 56, 164. | 54, 3, 326. |
| | 2. | 117, 39, 145. | 279, 154, 327. |
| | 3. | 49, 27. 142. | 25, 87, 60. |
| | 4. | 43, 116, 289. | 238, 15, 328. |
| | 5. | 51, 280, 256. | 249, 137, 321. |
| | 6. | 64, 132, 293. | 40. 107, 333. |
| Septuagesima. | | 76, 10, 163. | 206, 105, 104. |
| Sexagesima. | | 93, 320, 272. | 221, 209, 167. |
| Cwincwagesima. | | 77, 69, 135. | 31, 133, 331. |
| Merchur y Lludw. | | 11, 243, 281, | 25. 94, 96. |
| Garawys, Sul | 1. | 243, 315, 9. | 169, 263, 74. |
| | 2. | 50, 11, 139. | 317, 94, 96, |
| | 3. | 141, 151, 30. | 108, 286, 278. |
| | 4. | 294, 318, 166. | 197, 42, 175. |
| | 5. | 92, 115, 252. | 271, 136, 134. |
| | 6. | 314, 123, 125. | 147, 251, 200. |
| Gwener y Croglith. | | 193, 269, 138. | 225, 194, 126. |
| Dydd Pasg. | | 313, 8, 85. | 2, 253, 292. |
| Wedi'r Pasg, Sul | 1. | 63, 217. 158. | 287, 130, 128. |
| | 2. | 132, 144, 12. | 269, 191, 254. |
| | 3. | 112, 311, 245. | 210, 165, 321. |
| | 4. | 70, 224, 241, | 20, 88, 334. |

| | PLYGAIN. | GOSPER. |
|---|---|---|
| Wedi'r Pasg, Sul 5. | 255, 248, 90. | 275, 281, 325. |
| Dydd Iou y Dyrchafael. | 6, 14, 276. | 13, 38, 57. |
| Sul wedi'r Dyrchafael. | 81, 78, 65. | 68, 234, 190. |
| Y Sulgwyn. | 187, 273, 299. | 267, 274, 189. |
| Sul y Drindod. | 118, 208, 174. | 220, 272, 332. |
| Wedi'r Drindod, Sul 1. | 50, 304, 46. | 111, 102, 28. |
| 2. | 84, 265, 218. | 146, 211, 329. |
| 3. | 122, 32, 257. | 233, 215, 7. |
| 4, | 62, 247, 298. | 185, 21, 283. |
| 5. | 53, 188, 86. | 195, 95, 300. |
| 6. | 258, 37, 155. | 17, 139, 200. |
| 7. | 291, 110, 228. | 199, 91, 324. |
| 8. | 135, 203, 290. | 23, 101, 134. |
| 9. | 120, 142, 30. | 204, 303, 82. |
| 10. | 54, 109, 273. | 217, 48, 207. |
| 11. | 119, 261, 275. | 209, 298, 59. |
| 12. | 223, 71, 22. | 73, 100, 60. |
| 13. | 16, 33, 274. | 214, 113, 278. |
| 14. | 210, 114, 160. | 35, 256, 83. |
| 15. | 224, 270, 319. | 118, 267, 104. |
| 16. | 264, 106, 227. | 282, 212, 283. |
| 17. | 52, 195, 89. | 240, 29, 117. |
| 18. | 302, 246, 48. | 250, 268. 22. |
| 19. | 69, 235, 165. | 81, 99, 130. |
| 20. | 53, 164, 166. | 231, 305, 148. |
| 21. | 286, 183, 131. | 51, 319, 332. |
| 22. | 204, 225, 29. | 259, 197, 323. |
| 23. | 6, 227, 232. | 285, 133, 300. |
| 24. | 5, 306. 247. | 228, 57, 19. |
| 25. | 4, 268, 205. | 238, 66, 28. |

¶ O bydd ychwaneg o Suliau o flaen Sul yr Adfent, cymmerer y Psalmau a'r Hymnau a adawyd heb ddefnyddio ar ol yr Ystwyll, i gyflawni cynnifer ag sydd yn niffyg yma. Ac os bydd llai, gadawer y rhai a fo dros ben: eithr arferer y Psalmau a'r Hymnau am y 25 Sul wedi'r Drindod ar y Sul nesaf o flaen yr Adfent.

# DANGOSEG,

I gael allan unrhyw Psalm neu Hymn wrth ei Henw neu ei Chynhwysiad.


A.

Aberth dros bechod 252
Addewidion, credu yr 131
Am eu cyflawniad 171
Adfent, 3 collect yn 156
Amser, prynu yr 236
Angau, cofio am 152
Duw yn ddigon yn 262
Yw diwedd pawb 36
Angladd Plant 277
Angladdau 9. 24, 35, 36, 72, 75, 152, 183, 188, 201, 222, 236, 237, 239, 242, 262, 277, 295, 315
Arweiniad, am 4, 15. 132, 247, 298

B.

Barn, dydd y 161, 244
Bedydd babanod 226
Esgob 202
Bendith Duw, am 101
Ar y cyfiawn 98
A bair lwyddiant 97
Bendithion y groes 286
Ysprydol, am 135
Bethesda, Llyn 139, 303
Blwyddyn, dechreu 149, 179, 236
Diwedd 159, 222, 297
Brenhin, dros y 173
Brenhin, merch y 32
Sion 307
Y gogoniant 14
Buddugoliaeth mewn rhyfel 296
Bugail eneidiau 12, 240, 259
Byd, galwad i'w adael 31
Bywyd, breuolder 75
Byrdra 24
Y meirw 45

C.

Cafodydd bywiol, am 272
Camweddau aml dyn 11
Cariad brawdol 103
Cenhadol 29, 30, 42, 44, 45, 55, 56, 57, 78, 81, 82, 83, 121, 140, 156, 162, 171, 177, 219, 229, 230, 232, 260, 268
Crist, brenhin Sion 307
Brenhin y gogoniant 14
Ein bywyd 128
Ffynnon y bywyd 214
Pren y bywyd 316
Sylwedd y cysgodau 180
Crist, Ei adgyfodiad 2, 85, 253, 313
Ddarostyngiad 172
Ddioddefaint 125, 193
Ddyfodiad 67, 156, 170, 186
Ddyfodiad, ail 312
Ddyrchafiad 57. 172
Deyrnasiad 2, 57, 65, 78
Dosturi 151
Eiriolaeth 194
Enedigaeth 127, 143, 182, 186, 192, 216, 308, 310
Esgyniad 14, 38, 276
Farwolaeth 194
Fawredd 234
Frenhiniaeth 68
Fuddugoliaeth 217, 287, 311
Gariad 129, 147, 153, 250, 306
Gyfiawnder 155
Gyfiawnder 318

Crist, Iawn 126
Lywodraeth 45
Ras 248
Crist yn anghyfnewidiol 188
Arglwydd pawb 204
Arweinydd 215
Ddigon 212
Feddyg 263
Fugail 12, 240, 259
Geidwad digonol 181
Sylfaen safadwy 265
Well nâ phawb 270
Crist yr adgyfodiad 239
Unig Iawn 130, 231, 252
Crist, croesaw at 165
Croes, bendithion y 286
Golwg ar y 279
Meddwl am y 251
Ymhyfrydu yn y 138
Cyfammod gras, y 154
Cyfarwyddiad, am 88
Cyffes Job 237
Cyfiawn, bendith ar y 98
Ei ddiogelwch 61, 91, 95
Ei wynfydedigrwydd 1, 80, 86
Cyfiawn yn blodeuo, y 63
Cymmeradwyaeth, am 111
Cynhauaf tymherus 196
Cystudd, byr ysgafn 271
Cynhulliad pobl at Grist 121

D.

Defaid, am fod yn un o'r 254
Diddanydd, y 267
Dinas gadarn sy i ni 33
Diogelwch, am 111
Yn Nuw 39
Disgwyl wrth Dduw 25, 99, 290
Diwedd pob peth yn nesâu 315
Duw a digon 255
A wrendy weddi 71
Ein hunig borth 46
Duw, ei allu a'i ogoniant 76
Anghyfnewidioldeb 72
Ddaioni i'w bobl 7, 17, 21, 22, 113, 115, 116, 249
Dragwyddoldeb 58
Drugaredd 73, 74
Enw yn ardderchog 5
Ffyddlondeb 19
Gariad 304
Hollbresennoldeb 109
Hollwybodaeth 108
Duw yn anghyffredadwy 220
Hoffi maddeu 275
Duwioldeb, yr elw goreu 175
Duwiol, ei obaith 8
Dyddiau da i ddod 189
Dyfroedd, deuwch i'r 142
Dyn a breswyl yn y nef, y 6, 13
A ofna Dduw, y 80

E.

Eden a Chalfaria 320
Edifeirwch 243
Efengyl, amser yr 203
Gwledd yr 166, 198
Llwyddiant yr 162, 219
Ymledaniad yr 140
Eglwys, agoriad 101, 102, 124
Cadernid yr 309
Cynnydd yr 56
Daioni Duw i'r 102
Gogoniant yr 56, 190, 309
Einioes yn brysio i ben 222
Eiriolaeth Crist, am ran yn 280
Emmanuel 186, 205

Emyn brydnhawnol 233
Forëol 258
Enaid, pryniad yr 35

F.

Ffafr Duw, am 48
Ffordd newydd 191
Ffydd yn yr addewid 131
Ffynnon i bechod 144. 158
Y bywyd 214

G.

Galarwyr a ddiddenir, y 96
Gauaf wedi darfod 122
Goleuni, am 28
Gorsedd gras, myned at 123, 185, 225, 302
Gostyngeiddrwydd 100
Gras, am 37, 112, 246, 261
A gogoniant 59
I'r gostyngedig 107
Yn dechreu yn Salem 285
Yng Nghrist 141, 248
Gweddi 160, 164. 169 263
Gweddi, Duw yn gwrando 71
Hyder mewn 199
Gweinidogion, gweddi dros 173
Gwledd yr efengyl 166, 198
Gwresogrwydd yspryd 264
Gyrfa ysprydol, yr 163

H.

Hiraeth am Dduw 27
Hyder yn Nuw 23, 110

I.

Iachawdwriaeth 223, 227, 268
Iachawdwr, mawl am 66
Iechyd Duw yn agos 216
Ieuengctid, da crefydd i 157
Israel, adferiad 55
Jubili, blwyddyn y 301

L.

Llais hyfryd efengyl 200
Lle, etto y mae 218
Llewyrch wyneb Duw 3
Litani, o'r 174
Llwyddiant o Dduw 97
Crist, am 29, 30, 232
Yr efengyl 162, 219
Ysprydol 60

M.

Maddeuant, am 15, 18, 281
Marwolaeth Crist, ffrwythau 269
Plant 277
Mawl i Grist 38, 211, 213, 292, 294, 317
Mawl i Dduw 43, 64, 69, 70, 77, 81—84, 104, 105, 117—120
Am Iachawdwr 66
Am ei waith 79
Am ei ymwared 20
Ar y Sabbath 62
Yn Sïon 40
Mawl i'r Drindod 208, 323—334
Meddyg gwell 263
Meirw, bywyd y 145
Yng Nghrist 201, 242
Merch y Brenhin 32
Messïah, cawsom y 308
Morwr ysprydol 289

N.

Nefoedd yn datgan gogoniant Duw 10
Nef, gobaith am y 224
Golwg ar y 235, 305
Hiraeth am y 146
Meddwl am y 106, 228, 259
Nerth yng Nghrist 141
Ysprydol 257, 261, 281
Newyddion da 245
Nodded Duw. am 9
Noddfa, ffoi am 167, 209,

P.

Parodrwydd i'r farn 183
Pawb, Crist yn well nâ 270
Pererindod y Cristion 195, 282
Plant, duwiol addysgu 47
Pobloedd, deuant at Grist 121
Pob peth, caru Duw uwch 241
Ond Crist yn cyfnewid 188
Praidd, dilyn y 282
Pregeth, ar ol 7, 28, 59, 60, 82, 83, 134, 148, 200, 207, 278, 283, 300
Pregeth, o flaen 1, 15, 29, 30, 48, 86—90, 94, 100, 101, 107, 113, 133, 135—137, 139, 145. 156, 197, 218, 256, 290, 293, 303
Pren y bywyd 316
Presennoldeb Duw, am 101, 135, 197
Prïodas, deuwch i'r 166
Pryniad yr enaid 35
Purdeb, hiraethu am 221

R.

Rhagluniaeth, daioni Duw yn 41, 114
Rhinwedd gwaed Crist 144
Rhyddhad oddiwrth bechod 291
Rhyfel, buddugoliaeth mewn 296
Ympryd mewn 176

S.

Sabbath, y 52, 62, 206
Moli Duw ar y 62
Sabbath nefol, y 321
Salem heb ei llanw 229
Seren fore eglur, y 322
Sïon, Brenhin 307
Duw yn glodfawr yn 34
Ei hiraeth am y wawr 230
Mawl i Dduw yn 40
Meddwl am 106
Swpper yr Arglwydd 168, 266, 284, 288, 316
Sylfaen safadwy 265
Sylwedd y cysgodau 180

T.

Teyrnas, deued dy 42, 44, 177
Teyrnasiad Crist 2, 57, 65, 78
Tlawd dan ofal Duw, y 26
Tragywyddoldeb yn nesâu 295
Trindod, i'r 174, 208, 220
Trugaredd, am 37, 94, 112, 243
Ty Dduw, ymhyfrydu yn 16, 49—54, 92, 93, 238

Y.

Ymhyfrydu yngNghrist 210
Ympryd mewn rhyfel 176
Ymwared, mawl am 20
Ysgolion Sababthol, i 47, 184
Ysgrythyr, buddioldeb yr 319
Canmoliaeth yr 89
Defnyddioldeb yr 87, 150
Gwerthfawrogrwydd yr 90
Yspryd Glân, goleuni yr 273, 274, 299
Tywalltiad yr 187, 189
Yspryd, gwresogrwydd 264
Ystwyll, Gwyl 310, 322

WILLIAM REES, ARGRAPHYDD, LLANYMDDYFRI.